



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 23 Ebrill 2002
Tuesday 23 April 2002**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 24 Datganiad ar Atebolrwydd Amodol yn Ymwneud â Chanolfan Mileniwm Cymru
Statement on Contingent Liabilities Relating to the Wales Millennium Centre
- 30 Datganiad Busnes
Business Statement
- 32 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 36 Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Carlile
The Welsh Assembly Government's Response to the Carlile Report
- 53 Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol): Polisi Trafnidiaeth Integredig
Minority Party Debate (The Conservative Party): Integrated Transport Policy

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Pynciau Trawsbynciol Cross-cutting Issues

Q1 Helen Mary Jones: How does the First Minister assess the Government of Wales's success in ensuring that Assembly sponsored public bodies take into account and develop the three cross-cutting issues of the National Assembly? (OAQ16850)

The First Minister (Rhodri Morgan): This is done initially by way of the annual remit letters, and then by expecting to see the content of our remit letters to them in their corporate plans. For example, last December we were pleased to see the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales's guidance on equal opportunities and diversity in the school curriculum in Wales. It is adequately reflecting those cross-cutting themes in its work, which it was urged to do in its remit letter.

Helen Mary Jones: To focus on a more specific issue, will you tell us how you propose to ensure the participation of the ASPBs in the promotion of real social inclusion in Valleys communities without an overarching strategy to join up the hotch-potch of initiatives that you described in Plaid Cymru's minority party debate last week?

The First Minister: I am afraid that neither you nor your party colleagues described any initiatives to us. You will recall me pointing that out forcibly to Geraint.

We expect the ASPBs to follow the three overarching themes of sustainable development, equality of opportunity and social inclusion. Rather than rant generally, Helen Mary, if you want to make a specific point relating to matters not being dealt with adequately, then please write to me. The kind

C1 Helen Mary Jones: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth i dri phwnc trawsbynciol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn eu datblygu? (OAQ16850)

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Gwneir hyn yn gyntaf drwy'r llythyrau cylch gwaith blynyddol, ac yna drwy ddisgwyl gweld cynnwys ein llythyrau cylch gwaith atynt yn eu cynlluniau corfforaethol. Er enghraifft, fis Rhagfyr diwethaf, yr oeddem yn falch o weld canllawiau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu'n ddigonol y themâu trawsbynciol hynny yn ei waith, rhywbeth y cafodd ei annog i'w wneud yn ei lythyr cylch gwaith.

Helen Mary Jones: A chanolbwyntio ar fater mwy penodol, a wnewch chi ddweud wrthym sut y bwriadwch sicrhau cyfranogiad y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn y gwaith o hyrwyddo gwir gynhwysiant cymdeithasol yng nghymunedau'r Cymoedd heb strategaeth i gyfuno'r cawdel o fentrau a ddisgrifiwyd gennych yn nadl plaid leiafrifol Plaid Cymru yr wythnos diwethaf?

Prif Weinidog Cymru: Mae arnaf ofn na wnaethoch chi na'ch cyd-Bleidwyr ddisgrifio unrhyw fentrau inni. Fe gofiwch imi ddweud hynny'n gryf wrth Geraint.

Disgwyliwn i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ddilyn tair thema gyffredin datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol. Yn hytrach na brygowthan yn gyffredinol, Helen Mary, os ydych am wneud pwynt penodol ynghylch materion sydd heb gael sylw digonol, yna

of loose argument that you have just used will not do.

John Griffiths: One aspect of the importance of equal opportunities and social inclusion is to promote good race relations in areas such as Newport East. Do you agree that the recent round of presidential elections in France and the tragic success of Jean-Marie Le Pen, and the anxieties regarding local elections in some parts of northern England, highlight the importance of the Assembly's policies and those of ASPBs on equal opportunities and social inclusion?

The First Minister: I agree. The increase in support for racist parties, whether the Front National in France or the British National Party in one or two boroughs in northern England, should concern us all. The antidote against the temptation to support racist parties is for us to be out there on the ground campaigning on issues of real meaning to real people.

William Graham: The First Minister will recognise that 76 task groups have been established since May 1999. His administration promised a bonfire of the quangos, so does this increase conform with its policy on renewable energy sources?

The First Minister: I am not sure whether that supplementary is relevant to Helen Mary Jones's question. The issue of having clear policies with clear strategies is not in any way vitiated by your remarks on the task groups. It is important to involve a great deal of people in preparing our policies and then make those policies available via the remit letters, which we send to the quangos in Wales. We expect the quangos to perform according to those remit letters and we expect their content to be incorporated in the policies that they introduce on the ground.

ysgrifennwch ataf. Ni wnaiff y math o ddadl lac yr ydych chi newydd ei defnyddio mo'r tro.

John Griffiths: Un agwedd ar bwysigrwydd cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yw hyrwyddo perthynas dda rhwng yr hiliâu mewn ardaloedd fel Dwyrain Casnewydd. A gytunwch fod yr etholiadau arlywyddol yn Ffrainc a llwyddiant trychinebus Jean-Marie Le Pen, a'r pryderon ynghylch etholiadau lleol mewn rhai rhannau o ogledd Lloegr, yn tanlinellu pwysigrwydd polisiau'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddid ganddo ar gyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol?

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf. Dylai'r cynnydd mewn cefnogaeth i bleidiau hiliol, boed y Front National yn Ffrainc neu'r British National Party mewn un neu ddwy fwrdeistref yng ngogledd Lloegr, fod yn destun pryder inni i gyd. Yr arf yn erbyn y demtasiwn i gefnogi pleidiau hiliol yw i ni fod allan ar lawr gwlad yn ymgyrchu ar faterion o wir ystyr i bobl go iawn.

William Graham: Bydd Prif Weinidog Cymru yn sylweddoli y sefydlwyd 76 grŵp tasg ers Mai 1999. Addawodd ei weinyddiaeth wneud coelcerth o'r cwangos, felly a ydyw'r cynnydd hwn yn cydymffurfio â'i bolisi ar ffynonellau ynni adnewyddadwy?

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn siŵr a ydyw'r cwestiwn atodol hwnnw'n berthnasol i gwestiwn Helen Mary Jones. Ni chaiff y cwestiwn o gael polisiau clir gyda strategaethau clir ei wanychu mewn unrhyw fodd gan eich sylwadau am y grwpiau tasg. Mae'n bwysig cynnwys llawer iawn o bobl wrth baratoi'n polisiau ac wedyn sicrhau bod y polisiau hynny ar gael drwy'r llythyrau cylch gwaith a anfonwn at y cwangos yng Nghymru. Disgwyliwn i'r cwangos weithredu yn ôl y llythyrau cylch gwaith hynny a disgwyliwn i gynnwys y llythyrau gael ei ymgorffori yn y polisiau a gyflwynant ar lawr gwlad

Blaenoriaethau ar gyfer Materion Trawsbynciol Priorities for Cross-cutting Issues

C2 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): A wnaiff Prif Weinidog Cymru **Q2 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** Will the First Minister make a

ddatganiad ar ei flaenoriaethau fel cydlynnydd polisi ar gyfer materion trawsbynciol? (OAQ16842)

Prif Weinidog Cymru: Gwneir cynnydd gwirioneddol. Er enghraifft, mewn addysg, mae grantiau dysgu'r Cynulliad yn lleihau allgáu cymdeithasol drwy roi cymorth i fyfyrwyr llai cefnog; mae datblygu cynaliadwy eisoes yn rhan o'r cwricwlwm; a chymerir camau, o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a deddfwriaeth hawliau anabled, i wella'r cyfleoedd i gael addysg.

Ieuan Wyn Jones: Un o'r materion trawsbynciol pwysicaf yw'r berthynas rhwng y gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Gan fod y Canghellor wedi rhoi cymaint o arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd yn ei gyllideb, pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod digon o welyau ar gael mewn cartrefi preswyl awdurdodau lleol, er enghraifft, er mwyn i'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio i'r eithaf? Gwyddoch, Brif Weinidog, y collwyd 6,000 o welyau yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ystod y degawd hyd at 1998. A oes gennych bolisiâu pendant i sicrhau na fydd prinder gwelyau yn rhwystro'r datblygiad sydd ei angen yn y gwasanaeth iechyd?

Prif Weinidog Cymru: Nid yw'n fater o brinder gwelyau yn unig. Fodd bynnag, y peth pwysig yw bod y gwasanaethau ar gael yn y cartref. Y gwely gorau yw eich gwely eich hun, yn hytrach na gwely mewn cartref preswyl neu nyrsio. Credaf y byddai pawb yn derbyn hynny. Yr ydym yn rhoi'r un flaenoriaeth i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau gofal angenrheidiol yn y cartref, er mwyn galluogi pobl i adael ysbytai, gan osgoi gweld y cleifion nesaf, sydd yn awyddus i gael eu trin, yn colli'r cyfle o ganlyniad i flocio gwelyau.

Ieuan Wyn Jones: A dderbyniwch, fel mater o egwyddor, fod angen inni gael mwy o welyau yn y gwasanaeth iechyd? Mae diffyg difrifol yn nifer y gwelyau ar hyn o bryd. A dderbyniwch hefyd fod Paul Murphy wedi dweud wrthyfch fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, fel Llywodraeth Lloegr, ddiwygio'r

statement on his priorities as policy co-ordinator for cross-cutting issues? (OAQ16842)

The First Minister: Real progress is being made. For example, in education, Assembly learning grants reduce social exclusion by supporting less well-off students; sustainable development is already included in the curriculum; and steps are being taken, under the Race Relations (Amendment) Act 2000 and disability rights legislation, to improve access to education.

Ieuan Wyn Jones: One of the most important cross-cutting issues is the relationship between the health service and local authorities in the context of health and social care. As the Chancellor has given so much extra money to the health service in his budget, what steps can you take to ensure that there are enough beds available, for example in local authority residential care homes, to ensure that that money is used to its full potential? You know, First Minister, that, during the decade leading up to 1998, 6,000 beds were lost in the health service in Wales. Do you have specific policies to ensure that bed shortages will not obstruct the development needed in the health service?

The First Minister: It is not simply a matter of a shortage of beds. However, the important point is that services are available in the home. The best bed is your own bed, rather than a bed in a residential or nursing home. I believe that everyone would accept that. We give equal priority to assisting local authorities with the provision of the necessary care services in the home, so that people can leave hospital, thereby avoiding seeing the next patients, who are eager to be admitted, lose the opportunity due to bedblocking.

Ieuan Wyn Jones: Do you accept, as a matter of principle, that we need more beds in the health service? There is a serious lack of capacity at present. Do you also accept that Paul Murphy has told you that the Government of Wales, like the Government of England, must reform the health service if

gwasanaeth iechyd os ydych am elwa'n llawn ar yr arian newydd hwn? Wrth gwrs, gair neis am breifateiddio yw 'diwygio'. Yn dilyn cyfarwyddiadau Paul Murphy, pa gynlluniau sydd gennych i breifateiddio'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

Prif Weinidog Cymru: Mae eich dychymyg wedi bod yn gweithio goramser, Ieuan. Nid oes cyfarwyddyd o'r fath wedi dod oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol. Cawn drafodaethau ag ef, ac mae'n defnyddio ambell air, a defnyddiaf innau ambell air, ond yr ystyr—a hynny yw'r peth pwysig—yw nad oes esgusodion, bellach, ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd gwladol, os gallwn wario'r un canran o arian ym Mhrydain Fawr â'r hyn a gaiff ei wario ar draws Ewrop. Mae'r esgus nad oes digon o arian yn mynd i'r system er mwyn rhoi'r un lefel o wasanaeth, ynglŷn â'r rhestrau aros ac yn y blaen, â'r hyn sydd ar gael yn Ffrainc, neu'r Almaen, wedi diflannu. Gan fod yr esgus wedi mynd, mae angen gwasgu yn wleidyddol—sydd yn digwydd yn naturiol beth bynnag—ar y gwasanaeth iechyd i gyflawni'r safon a geir yn Ffrainc a'r Almaen, gyda'r un lefel o gyllid.

Christine Chapman: As policy co-ordinator for cross-cutting issues, including equality of opportunity, will you join me in condemning the far-right policies of Jean-Marie Le Pen, who, as John Griffiths reminded us, came second in the first round of the French presidential election on Sunday? Do you agree that his success highlights how easily political apathy can nurture a culture of xenophobia? Do you also agree that the Assembly must tackle racism head-on, and that political parties have a responsibility to encourage diverse representation, including representatives from black and ethnic minorities?

The First Minister: Those are wide questions on the lessons to be learnt from the thunderbolt, as many commentators described what happened in France in the first round—and thank God it was not the second round—of the presidential elections. I am sure that Le Pen will eventually be adjudged to have been a footnote in French history, but this has nevertheless come as a shock. It shows that apathy, and any increase

you want to take full advantage of this new money? Of course, 'reform' is a euphemism for privatise. Given Paul Murphy's instructions, what plans do you have to privatise the health service in Wales?

The First Minister: Your imagination has been working overtime, Ieuan. No such instruction has come from the Secretary of State. We hold discussions with him, and he uses certain words, and I use certain words, but the upshot—and that is the important thing—is that there are no longer any excuses regarding the national health service, if we manage to spend the same proportion of money in Great Britain as is spent across Europe. The excuse that not enough money goes into the system to achieve the same level of service, with regard to waiting lists, and so on, as you get in France or Germany, has disappeared. As the excuse has gone, we must put political pressure—which happens naturally anyway—on the health service to achieve the standard of France or Germany, with the same level of funding.

Christine Chapman: Fel cydlynnydd polisi ar gyfer materion trawsbynciol, gan gynnwys cyfle cyfartal, a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio polisiau adain-dde eithafol Jean-Marie Le Pen, a ddaeth yn ail, fel yr atgoffodd John Griffiths ni, yn rownd gyntaf etholiad arlywyddol Ffrainc ddydd Sul? A gytunwch fod ei lwyddiant yn amlygu mor hawdd y gall difaterwch gwleidyddol feithrin diwylliant o gasineb at estroniaid? A gytunwch hefyd fod yn rhaid i'r Cynulliad fynd benben i'r afael â hiliaeth, a bod gan bleidiau gwleidyddol gyfrifoldeb i annog cynrychiolaeth amrywiol, gan gynnwys cynrychiolwyr o leiafrifoedd du ac ethnig?

Prif Weinidog Cymru: Dyna gwestiynau eang ar y gwersi sydd i'w dysgu oddi wrth y daranfollt, fel y disgrifiodd llawer o sylwebyddion yr hyn a ddigwyddodd yn Ffrainc yn rownd gyntaf—a diolch i Dduw nad yr ail rownd ydoedd—yr etholiadau arlywyddol. Yr wyf yn siŵr mai'r dyfarniad ar ddiwedd y dydd fydd mai troednodyn yn hanes Ffrainc oedd Le Pen, ond mae hyn wedi peri dychryn serch hynny. Mae'n

in distance between citizens and those who govern, is highly dangerous to the political system. Those who think that they can have the luxury of voting for fringe candidates of the left or right, rather than for people who are actually interested in governing and have a reasonable chance of doing so are also dangerous. That can let people like Le Pen in through the back door. There are many lessons as to how to avoid a situation in Wales similar to that created by Le Pen and people will be learning them for a long time.

dangos fod difaterwch, ac unrhyw bellhau rhwng dinasyddion a rhai sy'n llywodraethu, yn beryglus iawn i'r drefn wleidyddol. Mae'r rheini sy'n meddwl y gallant gael y moethusrwydd o bleidleisio dros ymgeiswyr ymylol y chwith neu'r dde, yn hytrach na thros bobl sydd â diddordeb gwirioneddol mewn llywodraethu ac sydd â siawns resymol o wneud hynny, yn beryglus hefyd. Gall hynny adael pobl fel Le Pen i mewn drwy'r drws cefn. Mae llawer o wersi ynghylch sut i osgoi sefyllfa yng Nghymru debyg i honno a grëwyd gan Le Pen a bydd pobl yn eu dysgu am gyfnod maith.

2:10 p.m.

David Melding: I was interested to hear your reply to the leader of the opposition on the number of available beds and care packages, because the Health and Social Services Committee examined the figures at its meeting last week. The number of residential and nursing home beds has declined by 10 per cent since 1997 and the number of domiciliary care packages given to people in the community has also decreased. Therefore, do you agree that under your Government, fewer people have received community care than in the past?

David Melding: Yr oedd yn ddiddorol i mi glywed eich ateb i arweinydd yr wrthblaid ar nifer y gwelyau a'r pecynnau gofal sydd ar gael, oherwydd fe archwiliodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y ffigurau yn ei gyfarfod yr wythnos ddiwethaf. Mae nifer y gwelyau mewn cartrefi preswyl a nyrsio wedi gostwng 10 y cant ers 1997 ac mae nifer y pecynnau gofal cartref a roddir i bobl yn y gymuned wedi lleihau hefyd. Felly, a gytunwch fod llai o bobl wedi cael gofal yn y gymuned dan eich Llywodraeth chi nag yn y gorffennol?

The First Minister: It depends how far back you go. However, I am sure that you would agree, David, that if a person is capable of returning home, with the right level of support and domiciliary care, it is their preference. Therefore, when you talk to the providers, as I did recently on my visit to the North Wales Nursing and Residential Homes Association, many have diversified from simply providing beds in nursing homes or old peoples homes, into providing a wider range of packages. Therefore, people have a choice between domiciliary care, care in homes for the elderly or nursing homes.

Prif Weinidog Cymru: Mae'n dibynnu pa mor bell yr ewch yn ôl. Serch hynny, yr wyf yn siŵr y cytunech, David, os all rhywun fynd adref, gyda'r lefel gywir o gymorth a gofal cartref, mai dyna'u dewis hwy. Pan siaradwch â'r darparwyr, felly, fel y gwneuthum i'n ddiweddar ar fy ymweliad â Chymdeithas Cartrefi Nyrsio a Phreswyl Gogledd Cymru, mae llawer ohonynt wedi arallgyfeirio o ddarparu gwelyau mewn cartrefi nyrsio neu gartrefi henoed yn unig, i ddarparu amrediad ehangach o becynnau. Felly, mae gan bobl ddewis rhwng gofal yn eu cartref, gofal mewn cartrefi henoed neu gartrefi nyrsio.

Kirsty Williams: Will you, therefore, distance yourself from Alan Milburn's recent announcements in London and his intention to fine local authorities if they are unable to quickly facilitate the transfer of care of hospital patients? Will you consider working with local authorities to ensure swift transfers of care, rather than putting perverse

Kirsty Williams: A wnewch chi, felly, ymbellhau oddi wrth gyhoeddiadau diweddar Alan Milburn yn Llundain a'i fwriad i ddirwyo awdurdodau lleol os na allant hwyluso trosglwyddiad gofal cleifion ysbyty yn gyflym? A wnewch chi ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau trosglwyddiadau gofal cyflym, yn hytrach na

incentives into the system to make our local authorities work in the same ways as they presumably will do in England?

The First Minister: I do not want to comment on what happens in England. It is a much larger country than Wales. Running a country that is 17 times bigger than Wales in terms of population and numbers of local authorities is a different ball game. We probably know the directors of social services, the leaders of the councils, or the cabinet members responsible for social services—Jane Hutt certainly does—and therefore we do not need that direct stick and carrot system. We can work by consent in Wales without any loss of the real incentive to ensure that bedblocking is eliminated from the health and social services system.

Rod Richards: Will the First Minister comment on media reports that he seeks to meet with the Welsh Rugby Union? Does he not realise that the Welsh Rugby Union is already in disarray and so does not need any intervention from our own captain chaos?

The First Minister: There are no proposals to meet with the Welsh Rugby Union.

rhoi cymhellion gwrthnysig i mewn i'r system i wneud i'n hawdurdodau lleol weithio yn yr un ffyrdd ag y byddant yn gweithio, mae'n debyg, yn Lloegr?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes gennyf sylw i'w wneud ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mae'n wlad lawer mwy na Chymru. Peth arall yw rhedeg gwlad sydd 17 gwaith yn fwy na Chymru o ran poblogaeth a niferoedd awdurdodau lleol. Mae'n debyg ein bod ni'n adnabod y cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, arweinwyr y cynghorau, neu'r aelodau cabinet sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol—yn sicr mae Jane Hutt yn eu hadnabod—ac felly nid oes angen y drefn uniongyrchol honno o ffon a moronen. Gallwn weithio trwy gydsyniad yng Nghymru heb golli dim o'r gwir gymhelliant i sicrhau na fydd dim blocio gwelyau yn y system iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Rod Richards: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi ei sylwadau ar adroddiadau yn y wasg ei fod yn ceisio trefnu cyfarfod ag Undeb Rygbi Cymru? Onid yw'n sylweddoli bod Undeb Rygbi Cymru eisoes yn y cawl ac felly nad oes arno angen unrhyw ymyriad gan ein capten cawlach ni'n hunain?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes dim bwriad i gyfarfod ag Undeb Rygbi Cymru.

Cynlluniau Peilot ar gyfer Contractau Teiran Pilot Schemes for Tripartite Contracts

Q3 Janet Davies: Will the First Minister give an update on Wales's progress in developing pilot schemes for tripartite contracts? (OAQ16852)

The First Minister: We are making good progress on developing tripartite agreement pilot projects. The idea was floated in President of the European Commission Romano Prodi's White Paper on European governance last year. Our environment officials discussed various approaches with the European Commission, and those discussions continue. Eventually we may be able to bring about a tripartite agreement on waste management between the Welsh Assembly Government, the European Commission and finally—Plaid Cymru's

C3 Janet Davies: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf ar y cynnydd a wnaed gan Gymru o ran datblygu cynlluniau peilot ar gyfer contractau teiran? (OAQ16852)

Prif Weinidog Cymru: Yr ydym yn camu ymlaen yn dda tuag at ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer cytundebau teiran. Gwyntyllwyd y syniad ym Mhapur Gwyn Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Romano Prodi, ar lywodraethu yn Ewrop y llynedd. Trafododd ein swyddogion amgylchedd wahanol ffyrdd o fynd o'i chwmpas â'r Comisiwn Ewropeaidd, ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Yn y diwedd efallai y byddwn yn gallu sicrhau cytundeb teiran ar reoli gwastraff rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd

favourite institution—the London Government.

Janet Davies: Rhodri, you will not hear me refer to London Government. When will you be able to provide us with firm information on those environmental pilot projects?

The First Minister: Discussions are continuing at an official level at the moment. We have chosen one area, namely waste management, and I hope to be able to report back to you before long. However, it is difficult to put a time limit on it because these are pilot project areas. There are no clear rules and we are moving forward as quickly as possible, given the absence of precedence.

Jonathan Morgan: Tripartite agreements, as outlined in the White Paper, allow a variety of organisations to implement EU policies and legislation at varying speeds. Do you believe that such a multi-speed, new Europe will be a consequence of EU enlargement?

The First Minister: These actions show the subsidiarity principle in practice. Instead of taking action on a pan-European basis, the European Union is willing to try to make progress here and there on a narrower front in a specific geographical area. If it works well in that area, it can then be tested elsewhere.

Your point about enlargement is good. The wider the variety of prosperity levels or waste management problems that you would find, for example, in some export or Warsaw pact countries which may join the European Union over the next two years, the greater the consideration you must give to whether a one-size-fits-all pan-European policy is appropriate post-enlargement. It is likely that it is not and that may be a reason why European Commission President, Romano Prodi, introduced these possibilities. We are anxious to test them out in Wales if we can work out the practical details.

ac, yn olaf—hoff sefydliad Plaid Cymru—Llywodraeth Llundain.

Janet Davies: Rhodri, ni chlywch fi'n cyfeirio at Lywodraeth Llundain. Pa bryd y byddwch yn gallu rhoi gwybodaeth bendant inni am y prosiectau peilot amgylcheddol hynny?

Prif Weinidog Cymru: Mae trafodaethau'n parhau ar lefel swyddogol ar hyn o bryd. Yr ydym wedi dewis un maes, sef rheoli gwastraff, a gobeithiaf allu dod ag adroddiad yn ôl atoch cyn hir. Serch hynny, mae'n anodd gosod terfyn amser arno gan mai meysydd prosiect peilot yw'r rhain. Nid oes dim rheolau clir ac yr ydym yn symud ymlaen cyn gynted ag y gallwn, o gofio'r diffyg cynsail.

Jonathan Morgan: Mae cytundebau teiran, fel amlinellir yn y Papur Gwyn, yn caniatáu i amryfal gyrrff weithredu polisiau a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar wahanol gyflymderau. A gredwch y bydd Ewrop newydd, aml-gyflymder o'r fath yn ganlyniad i ehangu'r UE?

Prif Weinidog Cymru: Mae'r gweithredoedd hyn yn dangos egwyddor is-reolaeth ar waith. Yn lle gweithredu ar sail Ewrop gyfan, mae'r Undeb Ewropeaidd yn fodlon ceisio symud ymlaen yma ac acw ar ffrynt culach mewn ardal ddaearyddol benodol. Os gweithia'n dda yn yr ardal honno, yna gellir rhoi prawf arno yn rhywle arall.

Mae'ch pwynt ynglŷn â'r ehangu'n un da. Po letaf fo'r amrywiaeth o lefelau cyfoeth neu broblemau rheoli gwastraff a ganfyddech, er enghraifft, mewn rhai gwledydd allforio neu wledydd cytundeb Warsaw a allai ymuno â'r Undeb Ewropeaidd dros y ddwy flynedd nesaf, mwyaf y mae'n rhaid ichi ystyried a yw polisi Ewrop-gyfan un-maint-i-bawb yn briodol yn sgîl yr ehangu. Mae'n debygol nad ydyw, ac efallai fod hynny'n rheswm pam y cyflwynodd Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Romano Prodi, y posibiladau hyn. Yr ydym yn awyddus i roi prawf arnynt yng Nghymru os gallwn drefnu'r manylion ymarferol.

Perthynas rhwng Cymunedau'r Cymoedd, Bro Morgannwg a Chaerdydd
Relations between Valleys' Communities, the Vale of Glamorgan and Cardiff

C4 Owen John Thomas: Pa bolisiau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng cymunedau'r Cymoedd, Bro Morgannwg a Chaerdydd? (OAQ16819)

Prif Weinidog Cymru: Yn ddiweddar, bu inni gyhoeddi bod £7 miliwn o'r cyfanswm o dros £90 miliwn ym mhecyn Corus ar gael i ailagor y rheilffordd rhwng Caerdydd a Glynebwy i deithwyr. Bu inni gyhoeddi nifer o gynlluniau ffyrdd â chyfanswm gwerth o ryw £26 miliwn, gan gynnwys ffordd osgoi'r Cwm ger Glynebwy, er mwyn helpu i adfywio'r rhan ddifreintiedig hon o'r Cymoedd.

Owen John Thomas: Onid yw'n wir bod Caerdydd, y Cymoedd a'r Fro yn ffurfio uned naturiol y gellid ei datblygu er lles pawb yn y rhanbarth? Mae dros filiwn o bobl yn byw o fewn terfynau'r rhanbarth hwn ac felly mae ganddo'r màs critigol i ddatblygu grym economaidd pwerus. A wnaiff y Prif Weinidog ailystyried ei agwedd negyddol tuag at gynllunio economaidd rhanbarthol fel y gellir datblygu potensial mawr y rhanbarth metropolitanaidd hwn yn llawn?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes gennyf agwedd negyddol. Mae syniadau Plaid Cymru yn amrywio o wythnos i wythnos a rhwng y naill Aelod a'r llall. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Geraint Davies y dylid ystyried y Cymoedd ar eu pennau eu hunain. Yn awr, dywed Owen John Thomas fod yn rhaid uno'r Cymoedd â Bro Morgannwg. Pa un ohonynt sy'n siarad ar ran Plaid Cymru neu ar ran y rhannau gwahanol o Gymru yr oedd Geraint Davies yn dweud y dylid eu hystyried ar wahân? Beth yw polisi Plaid Cymru? A yw am ddwyn ynghyd gwahanol rannau Cymru neu a yw am eu hystyried ar wahân fel yr awgrymodd Geraint yr wythnos diwethaf?

David Melding: Do you agree that developing the Cardiff International Airport would be a great force for good in developing the economy of Cardiff, the Valleys and the Vale of Glamorgan and that the best action

Q4 Owen John Thomas: What policies does the Assembly Government have for strengthening relations between Valleys' communities, the Vale of Glamorgan and Cardiff? (OAQ16819)

The First Minister: We recently announced that £7 million of the total of over £90 million available in the Corus package is available to re-establish a passenger railway link between Cardiff and Ebbw Vale. We announced many other road schemes at a total cost of around £26 million, including the Cwm bypass near Ebbw Vale, in order to assist in the regeneration of this deprived area of the Valleys.

Owen John Thomas: Is it not true that Cardiff, the Valleys and the Vale form a natural unit which could be developed for the benefit of everybody in the region? Over a million people live within this region's boundaries and therefore it offers the critical mass to develop a strong economic power. Will the First Minister reconsider his negative attitude towards regional economic development so that the major potential of this metropolitan region can be fully developed?

The First Minister: I do not have a negative attitude. Plaid Cymru's thinking varies from one week to the next and between one Member and another. Last week, Geraint Davies said that the Valleys should be considered in isolation. Now, Owen John Thomas says that the Valleys must be bunched together with the Vale of Glamorgan. Which Member is speaking on behalf of Plaid Cymru or on behalf of the various parts of Wales that Geraint Davies said should be considered separately? What is Plaid Cymru's policy? Does it want to bring the various parts of Wales together or does it want to consider them in isolation as Geraint suggested last week?

David Melding: A gytunwch y byddai datblygu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn fanteisiol iawn i ddatblygiad economaidd Caerdydd, y Cymoedd a Bro Morgannwg, ac mai'r peth y gorau y gallech chi ei wneud o

that you could take with regard to the airport is to declare its access road development as a trunk road scheme?

The First Minister: No-one has developed a viable design yet for the route from either the Valleys or Cardiff to the airport, either via Culverhouse Cross or the Dinas Powys bypass, or, as a result, decided which route should be developed first. The development would involve a major scheme requiring probably over £100 million of funding. At present, we are still waiting for a viable design option which shows the best way to get to the airport, not just from Cardiff and the Valleys, but also from south-west Wales. The design has not yet been submitted, whether you call the development a trunk road scheme or whether it continues to be included within the county highway programme.

safbwynt y maes awyr yw cyhoeddi y bydd datblygiad y ffordd i'r maes awyr yn gynllun cefnffordd?

Prif Weinidog Cymru: Nid oes neb wedi datblygu dyluniad hyfyw eto ar gyfer y ffordd o'r Cymoedd nac o Gaerdydd i'r maes awyr, trwy Groes Cwrlwys neu ffordd osgoi Dinas Powys, nac, yn sgîl hynny, wedi penderfynu pa lwybr y dylid ei ddatblygu gyntaf. Byddai'r datblygiad yn golygu cynllun mawr a fyddai angen dros £100 miliwn, mae'n debyg, o gyllid. Ar hyn o bryd yr ydym yn dal i aros am opsiwn dylunio hyfyw sy'n dangos y ffordd orau i'r maes awyr, nid dim ond o Gaerdydd a'r Cymoedd, ond hefyd o'r de-orllewin. Nid yw'r dyluniad wedi'i gyflwyno eto, p'run ai y galwch y datblygiad yn gynllun cefnffordd neu os yw'n parhau i gael ei gynnwys o fewn y rhaglen briffyrdd sirol.

Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development

C5 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf ar y rhan y mae Cymru yn ei chwarae yn rhaglen weithredu'r UE ar ddatblygu cynaliadwy? (OAQ16847)

Q5 Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister give an update on Wales's involvement in the EU innovation action programme on sustainable development? (OAQ16847)

Prif Weinidog Cymru: Ar 9 Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, fod yr Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo cais Cymru am gyllid Ewropeaidd dan raglen gweithredu arloesol cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Ers hynny, mae gwaith ar y pedwar prosiect arbrofol wedi mynd rhagddo a chyfarfu'r pwyllgor llywio gweithredu arloesol ar 19 Ebrill i drafod y gwaith o gyflwyno'r prosiectau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn glynu wrth yr amserlen. Yr oeddwn yn falch imi allu cyhoeddi yn y gynhadledd ar Gymru a'r Byd yr wythnos diwethaf fod y rhaglen, sy'n werth €4 miliwn, wedi ei chymeradwyo ar bedair lefel. Yr ydym yn dangos ein bod ar flaen y gad o ran gweithredoedd arloesol fel hyn.

The First Minister: On 9 January, the Minister for Environment, Sue Essex, announced that the European Union had approved the Welsh bid for European funding under the European regional development fund innovative actions programme. Since then, activities on the four experimental projects have been ongoing and the innovative actions steering committee met on 19 April to discuss the projects' rollout to ensure that the programme remains on schedule. I was pleased to announce in the Wales and the World conference last week that the programme, which is worth €4 million, has been approved on four levels. We are showing that we are leading the way as far as innovative actions such as these are concerned.

2:20 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf y newyddion hynny. Yr wyf yn barod i ganmol

Rhodri Glyn Thomas: I welcome this news. I am prepared to congratulate Sue Essex on

Sue Essex am ei gwaith. Serch hynny, onid yw'n wir dweud nad oes unrhyw un yn y Cynulliad, ac eithrio aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio, yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o ran y pwnc pwysig hwn? Beth ydych yn ei wneud fel cydlynedd polisi ar y pynciau trawsbynciol hyn i sicrhau bod pob Aelod o'r Cynulliad yn gwybod am bwysigrwydd datblygu cynaliadwy, a rôl Cymru yn hynny? Pan oeddech yn Weinidog dros Ddatblygu Economaidd nid oedd unrhyw sôn am ddatblygu cynaliadwy yn eich cynlluniau ar gyfer economi Cymru. Hyd yn oed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae eich Llywodraeth wedi methu â gweithredu'n unol â'r Rheolau Sefydlog a chyflwyno adroddiad blynyddol. Ni chafwyd adroddiad o'r fath ar gyfer y flwyddyn gyfredol; ni fydd yn ymddangos cyn y ddatl yn y Cynulliad ar 14 Mai. Y mae hynny yn groes i ofynion y Rheolau Sefydlog. Beth a wnewch chi i sicrhau bod pawb yn rhan o'r drafodaeth hon?

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych yn mynd dros ben llestri, Rhodri. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad hwn yr wythnos diwethaf mewn cynhadledd lle'r oedd dros 400 o bobl yn bresennol, gan gynnwys cynrychiolwyr mudiadau ieuenctid gwirfoddol, ac yn y blaen, o bob rhan o'r byd, er yr oedd y mwyafrif ohonyn o Gymru. Yr ydym hefyd yn datblygu gwefan, a fydd yn barod ym mis Mehefin. Felly, bydd pawb sydd yn deall y dechnoleg yn gallu cael mynediad at y datblygiadau gyda'r dechnoleg ddiweddaraf. Mae eich protestiadau ychydig yn synthetig, Rhodri.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn croesawu eich gwaith ar ddatblygu cynaliadwy. Beth y mae'r Cynulliad yn ei wneud i gynnal archwiliad gwyrdd o'n gweithgareddau, i sicrhau eu bod yn esiampl i Gymru a'r byd?

Prif Weinidog Cymru: Y mae hynny yn un o'r dyletswyddau yr ydym yn cymryd cyfrifoldeb drostynt. Gallech ddweud y dylem wneud mwy na'r hyn a wnawn ar hyn o bryd, ond gwn fod Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynnal archwiliad gwyrdd o waith Llywodraeth y Cynulliad. Ni allaf ymyrryd yn swyddogaeth y Llywydd wrth benderfynu

her work. However, is it not true to say that no-one in the Assembly, except members of the Environment, Planning and Transport Committee, is aware of what is happening with regard to this important subject? What are you doing as policy co-ordinator for such cross-cutting issues to ensure that all Assembly Members are aware of the importance of sustainable development, and Wales's role in it? When you were Minister for Economic Development there was no mention of sustainable development in your plans for the Welsh economy. Even during the last year, your Government has failed to act in accordance with Standing Orders by publishing an annual report. No such report has been published covering this current year; it will not appear until the debate in the Assembly on 14 May. That is contrary to Standing Orders. What are you doing to involve everyone in this debate?

The First Minister: You are going over the top, Rhodri. This announcement was made last week in a conference attended by over 400 people, including representatives of youth voluntary bodies, and so on, from all over the world, though the majority were from Wales. We are also developing a website, which will be ready in June. Therefore, everyone who understands the technology will be able to access the developments using the latest technology. Your protestations are slightly synthetic, Rhodri.

Eleanor Burnham: I welcome your work in relation to sustainable development. What is the Assembly doing to conduct a green audit of our activities, to ensure that they are an example to Wales and the world?

The First Minister: That is one of the duties that we are taking on board. You could argue that we should do more than we are doing at present, but I know that Sue Essex, the Minister for Environment, is giving high priority to conducting a green audit of the Assembly Government's work. I cannot interfere in the Presiding Officer's functions with regard to how we work in the Assembly.

sut yr ydym yn gweithredu yn y Cynulliad. Yn sicr, yr ydym yn cynnal archwiliad gwyrdd o'n gwaith fel Llywodraeth.

We are certainly conducting a green audit of our work as the Government.

Hyrwyddo Cynrychiolaeth o Gymru Dramor Promoting Welsh Representation Abroad

Q6 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement on the effectiveness of his Government in promoting Welsh representation abroad? (OAQ16839)

C6 Janet Ryder: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effeithiolrwydd ei Lywodraeth o ran hyrwyddo cynrychiolaeth o Gymru dramor? (OAQ16839)

The First Minister: We are now moving ahead with setting up a network of Wales International Centres, the first of which will open in New York hopefully before the end of this year. The centre will be able to pull in the staff of the export promotion body, WalesTrade International, the staff of the Welsh Development Agency with regard to investment, and the staff of the Wales Tourist Board with regard to tourism. It will also work with some other bodies which fall slightly outside our remit, such as the Wales Higher Education International Liaison Association, which attracts overseas students, and media and culture bodies such as Cymru'n Creu. It will be a drop-in centre for Welsh people on the east coast of the United States of America. We hope to have up to six such Wales International Centres, and we may then review the programme.

Prif Weinidog Cymru: Yr ydym yn awr yn symud ymlaen â sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Rhyngwladol Cymru, y bydd y gyntaf ohonynt yn agor yn Efrog Newydd, gobeithio, cyn diwedd eleni. Bydd y ganolfan yn gallu defnyddio staff y corff hyrwyddo allforion, MasnachCymru Rhyngwladol, staff Awdurdod Datblygu Cymru ar faterion buddsoddi, a staff Bwrdd Croeso Cymru ar faterion twristiaeth. Bydd yn gweithio hefyd gyda rhai cyrff eraill sydd ychydig y tu allan i'n cylch gwaith, megis Cymdeithas Gydlynol Genedlaethol Addysg Uwch Cymru, sy'n denu myfyrwyr tramor, a chyrrff diwylliannol a'r cyfryngau megis Cymru'n Creu. Bydd yn ganolfan alw-heibio i Gymry ar arfordir dwyreiniol Unol Daleithiau America. Gobeithiwn gael hyd at chwech o Ganolfannau Rhyngwladol Cymru, ac wedyn efallai y gwnawn adolygu'r rhaglen.

Janet Ryder: You have already said that the WDA is a major partner of your Government in representing Wales abroad. Did you discuss your decision to withdraw from the Wales European Centre with the chair and board of the WDA?

Janet Ryder: Yr ydych wedi dweud eisoes fod y WDA yn bartner pwysig i'ch Llywodraeth wrth gynrychioli Cymru dramor. A wnaethoch chi drafod eich penderfyniad i dynnu allan o Ganolfan Ewropeaidd Cymru gyda chadeirydd a bwrdd y WDA?

The First Minister: There were informal discussions, but what it decides to do regarding its membership of WEC is a matter for the WDA; it was, in effect, one of WEC's founding members some nine years ago. As far as I know, apart from some informal discussions on officer level, it has not been discussed by the board of the WDA.

Prif Weinidog Cymru: Cafwyd trafodaethau anffurfiol, ond mater i'r WDA yw beth y penderfyna ei wneud ynghylch ei aelodaeth o'r ganolfan; yr oedd, mewn gwirionedd, yn un o sylfaenwyr y ganolfan ryw naw mlynedd yn ôl. Hyd y gwn i, ar wahân i ryw faint o drafod anffurfiol rhwng swyddogion, nid yw hyn wedi'i drafod gan fwrdd y WDA.

Peter Rogers: At last Wednesday's meeting of the Agriculture and Rural Development Committee, the Minister for Rural Affairs

Peter Rogers: Yng nghyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddydd Mercher diwethaf, dywedodd y Gweinidog

and Assembly Business said that he had evidence that the French were double-dealing on their illegal ban on beef from this country. In light of this, how does your Government intend to take this issue forward in Europe?

The First Minister: I know that you like to comment on your favourite Cabinet Minister from time to time, but this is a matter on which I should consult the Minister for Rural Affairs and Assembly Business. His version of events is usually markedly different from yours. I will check this, and come back to you.

Ieuan Wyn Jones: Will you tell the National Assembly if you support greater powers and resources for the WTB to market Wales abroad?

The First Minister: We are already providing the. I think that they are 40 per cent higher than they were two or three years ago. It is a proper increase to assist the Wales Tourist Board to return to, and exceed, the numbers of overseas tourists that came to Wales before we were hit in the last few years by the various external disasters over which we had no control, including the foot and mouth disease outbreak, and the high pound, which is still a problem.

dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod ganddo dystiolaeth bod y Ffrancod yn chwarae ffon ddwybig gyda'u gwaharddiad anghyfreithlon ar gig eidion o'r wlad hon. Yng ngoleuni hyn, sut y mae eich Llywodraeth yn bwriadu dwyn y mater hwn yn ei flaen yn Ewrop?

Prif Weinidog Cymru: Gwn eich bod yn hoffi mynegi barn ar eich hoff Weinidog Cabinet o bryd i'w gilydd, ond mae hwn yn fater y dylwn ymgynghori ag ef yn ei gylch. Bydd ei fersiwn ef o ddigwyddiadau fel arfer yn wahanol iawn i'ch fersiwn chi. Byddaf yn archwilio'r mater a dod yn ôl atoch.

Ieuan Wyn Jones: A ddywedwch wrth y Cynulliad Cenedlaethol a ydych yn cefnogi rhoi mwy o bwerau ac adnoddau i'r bwrdd croeso i farchnata Cymru dramor?

Prif Weinidog Cymru: Yr ydym eisoes yn eu darparu. Yr wyf yn meddwl eu bod 40 y cant yn uwch nag yr oeddent ddwy neu dair blynedd yn ôl. Mae'n gynydd go iawn i helpu Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau bod yr un nifer, os nad mwy, o ymwelwyr tramor yn dod i Gymru, yn unol â'r nifer a ddaeth cyn inni gael ein taro yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan yr amryfal drychinebau allanol nad oedd gennym ddim rheolaeth drostynt, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau, a'r bunt uchel, sy'n dal i fod yn broblem.

Cost Logo Llywodraeth Cynulliad Cymru Cost of the Welsh Assembly Government Logo

Q7 David Davies: To date, how much has the new Welsh Assembly logo cost? (OAQ16841)

The First Minister: The total design cost of developing the new logo for the Welsh Assembly Government was £6,750. There was a further implementation cost of £92,000. Before you begin to froth at the figure of £92,000, David, if you can find another logo that was launched in the public sector for a cost that is anything like that low, I would be happy to hear about it.

David Davies: We would have done one for a much lower cost. You have spent nearly £100,000 on a logo; £3 million has been

C7 David Davies: Hyd yma, faint mae logo newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gostio? (OAQ16841)

Prif Weinidog Cymru: Cyfanswm cost dylunio a datblygu'r logo newydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £6,750. Yr oedd cost gweithredu bellach o £92,000. Cyn ichi ddechrau bytheirio ynghylch y ffigur o £92,000, David, os gallwch ddod o hyd i logo arall a lanswyd yn y sector cyhoeddus am gost sy'n agos at fod mor isel â hynny, byddwn yn falch o glywed amdano.

David Davies: Buasem ni wedi gwneud un am gost lawer is. Yr ydych wedi gwario bron £100,000 ar logo; gwariwyd £3 miliwn ar

spent on advertisements for reading, writing and arithmetic, with telephone numbers that connect people to a call centre somewhere in the midlands; £20 million on a monorail; £30 million on a building; not to mention all the consultants and taskforces that have been set up under this administration. When will you stop burning taxpayers' money on a pyre of pipe dreams and political correctness, and start spending it on schools, hospitals, flood defence schemes and a proper link to the capital's airport?

The First Minister: I draw your attention to the question that you tabled. The purpose of having the Welsh Assembly Government logo was in line with the motion that you supported, which stated that we should have the maximum possible separation between the Welsh Assembly Government and the Assembly as a corporate body. I am sorry if you regret supporting it and that it is now inconvenient to admit to your electors that you voted for it. This is the consequence of us accepting the Assembly's unanimous vote—all four parties, including you and your leader and Conservative Members supported the motion. There is no point coming along two months later and saying that you wished that you had not supported it. If you want the maximum possible separation between the Assembly Government and the corporate body, you must market it so that the public understands what is happening. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. Only one supplementary from one Member of the Conservative group—or any other group—at a time, please.

Jocelyn Davies: Have you noticed that advertisements for the Arts Council of Wales and the Care Council now bear WAG dragons? Will you tell me if they are still Assembly sponsored public bodies or are they now sponsored solely by the Executive, and is this a proper use of the logo—your beautiful dragon?

The First Minister: I think that that is angels dancing on the head of a pin. Plaid Cymru

hysbysebion yn ymwneud â darllen, ysgrifennu a rhifydddeg, gyda rhifau ffôn sy'n cysylltu pobl â chanolfan alwadau rywle yng nghanoldir Lloegr; £20 miliwn ar reilffordd un gledren; £30 miliwn ar adeilad; a hynny heb sôn am yr holl ymgynghorwyr a thasgluoedd a sefydlwyd dan y weinyddiaeth hon. Pa bryd y rhowch y gorau i losgi arian y trethdalwyr ar goelcerth o freuddwydion gwrrach a chywirdeb gwleidyddol, a dechrau ei wario ar ysgolion, ysbytai, cynlluniau atal llifogydd a chysylltiad addas â maes awyr y brifddinas?

Prif Weinidog Cymru: Tynnaf eich sylw at y cwestiwn a gyflwynwyd gennych. Pwrpas cael logo Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd cyd-fynd â'r cynnig a gefnogwyd gennych chi, a ddywedodd y dylem gael y gwahaniad mwyaf posibl rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad fel corff corfforaethol. Mae'n ddrwg gennyf os ydych yn edifar ichi ei gefnogi a'i bod bellach yn anghyfleus ichi orfod cyfaddef i'ch etholwyr ichi bleidleisio drosto. Dyma ganlyniad derbyn pleidlais unfrydol y Cynulliad—cefnogwyd y cynnig gan y pedair plaid, yn eich cynnwys chi a'ch arweinydd ac Aelodau eraill Ceidwadwyr Cymru. Nid oes dim pwynt dweud ddau fis yn ddiweddarach yr hoffech pe na baech wedi'i gefnogi. Os oes arnoch eisiau'r gwahaniad mwyaf posibl rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r corff corfforaethol, rhaid ichi ei farchnata fel bod y cyhoedd yn deall beth sy'n digwydd. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Dim ond un cwestiwn ategol gan un Aelod o'r grŵp Ceidwadol—neu unrhyw grŵp arall—ar y tro, os gwelwch yn dda.

Jocelyn Davies: Ydych chi wedi sylwi bod hysbysebion Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Gofal bellach yn cynnwys dreigiau Llywodraeth y Cynulliad? A ddywedwch wrthyf a ydynt yn dal i fod yn gyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ynteu a ydynt bellach wedi'u noddi gan y Weithrediaeth yn unig, ac a ydyw hyn yn ddefnydd priodol o'ch logo—eich draig brydferth?

Prif Weinidog Cymru: Holhti blew yw hynny yn fy nhyb i. Cefnogodd Plaid Cymru

also supported the motion on 14 February. It is no use coming along later and saying that you wish that you had not done so. You cannot change your mind or say, 'oh well, pity we did'. You asked for the maximum separation and now you have it within the terms of the Government of Wales Act 1998. Those bodies are Assembly sponsored public bodies; why be so theological about it? We fund them, and I do not think that the public in Wales cares about your nit-picking as to whether they are sponsored by the Assembly or by the Assembly Government. If they are funded and sponsored by us, it is not unreasonable for our logo to appear on their adverts. It is in the spirit of the unanimous resolution that was passed two and a half months ago.

y cynnig ar 14 Chwefror hefyd. Nid oes dim diben dweud yn ddiweddarach yr hoffech pe na baech wedi gwneud hynny. Ni allwch newid eich meddwl na dweud, 'o, wel, bechod inni wneud hynny'. Gofynasoch am y gwahaniad mwyaf a dyma chi'n awr wedi ei gael yn nhermau Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r cyrff hynny'n gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad; ond pam bod mor ddiwinyddol ynghylch y peth? Ni sydd yn eu noddi, ac nid wyf yn meddwl bod y cyhoedd yng Nghymru'n malio dim am eich holli blew ynghylch ai'r Cynulliad ynteu Llywodraeth y Cynulliad sy'n eu noddi. Os cânt eu hariannu a'u noddi gennym ni, nid yw'n afresymol i'n logo ni ymddangos ar eu hysbysebion. Mae hynny yn cyd-fynd ag ysbryd y penderfyniad unfrydol a basiwyd ddeufis a hanner yn ôl.

Cynrychiolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel Representation of the National Assembly for Wales in Brussels

Q8 Phil Williams: What discussions has the First Minister had with partners in the Wales European Centre to ensure an expansion in the representation of the National Assembly for Wales in Brussels? (OAQ16845)

C8 Phil Williams: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â phartneriaid Canolfan Ewropeaidd Cymru i sicrhau bod mwy o gynrychiolaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel? (OAQ16845)

The First Minister: The intention of my letter on this issue was to clarify that we have the top floor and WEC has the other three floors of the building in Brussels. The likeliest outcome of the negotiations will be that WEC will have the top floor and we will have the other three floors. I do not think that we wish to imply that there should be some huge argument over who controls the ground floor of the building in Brussels and have people reacting to it as though the third world war had been declared.

Prif Weinidog Cymru: Bwriad fy llythyr ar y mater hwn oedd egluro ein bod yn defnyddio'r llawr uchaf a bod tri llawr arall yr adeilad ym Mrwsel yn cael eu defnyddio gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Canlyniad mwyaf tebygol y trafodaethau yw y caiff y ganolfan y llawr uchaf ac y cawn ni'r tri llawr arall. Nid wyf yn meddwl ein bod yn dymuno awgrymu y dylai fod rhyw ffræ fawr dros bwy sy'n rheoli llawr gwaelod yr adeilad ym Mrwsel a chael pobl yn ymateb iddi fel pe bai trydydd rhyfel byd wedi dechrau.

2:00 p.m.

Phil Williams: Given the strong and widespread feeling that there was no proper discussion with other parties, with the Committee on European and External Affairs, or with the WEC board prior to your decision, and that this was not a matter of urgency—the timing was singularly inappropriate given the Gray report coming in May and the fact that in less than 13

Phil Williams: O gofio'r teimlad cryf a chyffredinol na fu trafodaeth briodol gyda phartion eraill, gyda'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol na chyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru cyn eich penderfyniad, ac nad oedd hwn yn fater brys—yr oedd yr amseru'n arbennig o amhriodol o gofio bod adroddiad Gray yn cael ei gyflwyno ym mis Mai a'r ffaith y bydd llywodraeth newydd yn

months there will be a new government acting on behalf of this Assembly—are you now prepared to withdraw your letter of 10 April until the matter has been properly debated in Plenary session? Plaid Cymru will enter that debate with an open mind. Will you accept that Plenary decision, as it was the body that first voted, with its authority, to establish the centre?

The First Minister: The Wales European Centre is a stakeholder body and we had to negotiate carefully with the Welsh Local Government Association two years ago, because it was anxious that we should not dominate that body and that we should match its subscription. About two months ago, it decided to issue a 12-month notice of withdrawal. We must therefore take similar steps to protect our interests. That is all we have done. You ask why it had to be done urgently. Giving 12-months' notice of withdrawal hardly indicates urgency. You say that there may be a new government; in one constitutional sense, there will be a new Assembly government from 1 May 2003. It may be the same colour, but it will technically be a new government. The 12-month notice coincides with our election mode on 1 April 2003, or thereabouts. It is also the end of the financial year. There were many reasons for giving that notice of withdrawal roughly a month after the WLGA did the same.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): You are getting yourself into a lather, First Minister, about this Assembly's unanimous resolution. I remind you that joining WEC was a unanimous resolution when you proposed the motion to do so. It is obvious that you have consulted with nobody. You did not consult properly with party leaders or WEC representatives. You did not even consult with your Cabinet. The Minister for Rural Affairs and Assembly Business stated, in Bridgend last Thursday, in the paper that I have before me, that we have a large presence in Brussels through the Wales European Centre, which has been very useful in increasing interest in Wales across Europe.

gweithredu ar ran y Cynulliad hwn mewn llai na 13 mis—a ydych yn awr yn barod i dynnu'ch llythyr a anfonwyd ar 10 Ebrill yn ôl hyd nes bydd y mater wedi'i drafod yn iawn mewn Cyfarfod Llawn? Bydd gan Blaid Cymru feddwl agored wrth ddechrau ar y ddadl honno. A wnewch chi dderbyn y penderfyniad hwnnw gan y Cyfarfod Llawn, gan mai hwnnw oedd y corff a bleidleisiodd gyntaf, gyda'i awdurdod, dros sefydlu'r ganolfan?

Prif Weinidog Cymru: Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru'n gorff rhanddeiliadol a bu'n rhaid inni negodi'n ofalus gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddwy flynedd yn ôl, oherwydd yr oedd yn awyddus inni beidio â dominyddu'r corff hwnnw ac y dylem dalu'r un tanysgrifiad â hi. Tua deufis yn ôl, penderfynodd y gymdeithas roi 12 mis o rybudd ei bod am dynnu allan. Rhaid i ninnau felly gymryd camau tebyg i warchod ein buddiannau. Dyna'r cwbl a wnaethom. Yr ydych yn gofyn pam yr oedd yn rhaid ei wneud ar frys. Prin bod rhoi 12 mis o rybudd ein bod am dynnu allan yn dangos brys. Dywedwch efallai y bydd llywodraeth newydd; mewn un ystyr cyfansoddiadol, fe fydd gan y Cynulliad lywodraeth newydd o 1 Mai 2003. Efallai y bydd yr un lliw, ond yn dechnegol bydd yn Llywodraeth newydd. Mae'r 12 mis o rybudd yn cyd-fynd â'n hetholiad ar 1 Ebrill 2003, neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Mae'n ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd. Yr oedd llawer o resymau dros roi'r rhybudd hwnnw oddeutu mis wedi i CLILC wneud yr un peth.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Yr ydych yn mynd i ddyfroedd dyfnion, Brif Weinidog, ynghylch penderfyniad unfrydol y Cynulliad hwn. Fe'ch atgoffaf fod ymuno â'r ganolfan yn benderfyniad unfrydol pan gynigiwyd gennych chi ein bod yn gwneud hynny. Mae'n amlwg nad ydych wedi ymgynghori â neb. Ni wnaethoch ymgynghori'n iawn gydag arweinwyr y pleidiau na chynrychiolwyr y ganolfan. Ni wnaethoch hyd yn oed ymgynghori gyda'ch Cabinet. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad, ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Iau diwethaf, yn y papur sydd gennyf o'm blaen, fod gennym bresenoldeb mawr ym Mrwsel drwy Ganolfan

Ewropeaidd Cymru, sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran cynyddu diddordeb yng Nghymru ledled Ewrop.

That is significant. You said on 29 February 2000 in proposing the motion that we should join WEC:

‘If devolution had existed in 1992 when WEC was formed, I have no doubt that the Assembly would have formed it.’

You went on to say:

‘We want to consider this as a value-added exercise, whereby we move in without encouraging other bodies to think that they can drop out, as the Assembly will now be funding WEC. It would be a tragedy if they dropped out, as they would not then have the same direct access to the listening post services of WEC that have been built up over the past eight years.’

What has changed, First Minister? Did you not think that this body might have a view before you made a unilateral decision on our future?

The First Minister: That is why you were consulted, Nick, along with Ieuan and Mike. You were consulted on whether to send that 12-month notice of withdrawal. There is no point in pretending that you were not. Let us be clear that it is not up to us whether the WLGA withdraws or not. Following its decision to issue a 12-month notice of withdrawal, we were left in a position whereby we could, in a couple of months’ time, find WEC dropping into our lap. If the WLGA pursues that decision—and there must be a 2:1 chance that it will, otherwise it would not have written the withdrawal notice—WEC effectively drops into our lap because 95 per cent of the funding then comes directly from us, or indirectly via quangos such as the Welsh Development Agency. Without taking some protective action, we would have been left exposed, effectively running two quasi-embassies in Brussels. In light of David Davies’s comments about the importance of being a good guardian of public money, we could not leave ourselves exposed to having two quasi-

Mae hynny’n arwyddocaol. Dywedasoeh chi ar 29 Chwefror 2000 wrth gynnig y dylem ymuno â’r ganolfan:

‘Pe buasai datganoli mewn bod yn 1992 pan ffurfiwyd CEC, nid oes gennyf amheuaeth y byddai’r Cynulliad wedi ei ffurfio.’

Aethoch ymlaen i ddweud:

‘Yr ydym am ystyried hyn yn ymarfer sydd â gwerth ychwanegol, a fydd yn gyfrwng inni symud i mewn heb gymell cyrff eraill i feddwl y gallant roi’r gorau iddi gan fod y Cynulliad yn ariannu CEC bellach. Byddai’n drasiedi pe baent yn rhoi’r gorau iddi, gan na fyddai ganddynt yr un mynediad uniongyrchol at y gwasanaethau safle gwranddo a greodd Canolfan Ewropeaidd Cymru dros yr wyth mlynedd diwethaf.’

Beth sydd wedi newid, Brif Weinidog? Oni wnaethoch chi feddwl efallai y byddai gan y corff hwn farn cyn ichi wneud penderfyniad unochrol ar ein dyfodol?

Prif Weinidog Cymru: Dyna pam yr ymgynghorwyd â chi, Nick, ynghyd â Ieuan a Mike. Ymgynghorwyd â chi ynghylch a ddylid anfon y 12 mis o rybudd y byddem yn tynnu allan. Nid oes unrhyw bwynt cymryd arnoch nad felly y bu. Gadewch inni fod yn glir nad mater i ni yw a ydyw CLILC yn tynnu allan ai peidio. Yn dilyn ei phenderfyniad i roi 12 mis o rybudd ei bod am dynnu allan, cawsom ein gadael mewn sefyllfa lle gallem, ymhen ychydig fisoedd, weld Canolfan Ewropeaidd Cymru yn disgyn i’n dwylo ni. Os aiff CLILC ymlaen â’r penderfyniad hwnnw—ac mae’n rhaid bod siawns 2:1 y gwnaiff, neu ni fuasai wedi ysgrifennu’r rhybudd—bydd y ganolfan i bob pwrpas yn disgyn i’n dwylo ni oherwydd bydd 95 y cant o’r cyllid wedyn yn dod yn uniongyrchol oddi wrthym ni, neu’n anuniongyrchol drwy gwangos fel Awdurdod Datblygu Cymru. Heb wneud rhywbeth i’n hamddiffyn ein hun, buasem wedi canfod ein bod, i bob pwrpas, yn rhedeg dwy led-lysgenhadaeth ym Mrwsel. Yng ngolau sylwadau David Davies ynghylch

embassies in Brussels. Surely you agree with that?

Nick Bourne: You keep saying 'we', but you took the decision unilaterally. You have just told us that it was not an urgent decision, so we could have had a debate on this before you made the decision. You say that you are the leader and that you must follow the WLGA. You should give a lead for Wales, not be bounced by the WLGA. If it was a good idea to join in February 2000, and if it is such an effective body, what has changed? You have pulled the rug from under this organisation, which is doing its best to represent Welsh interests in Brussels and Europe. You have left the staff swinging in the wind, and there is a question mark over the future of the lease. It is time that you retracted the withdrawal notice so that we can have a proper debate on this issue, and so that the people in Brussels can do their best to represent Wales, without this sword of Damocles over their heads. You should hang your head in shame. You are our leader, but you have failed to give a proper lead. You have taken a unilateral decision without proper consultation, as even a Member of your own group, Tom Middlehurst, has said.

The First Minister: You are twisting and turning, and abandoning all attempts at logic, Nick. This is ridiculous. If I take a decision, you accuse me of being a tinpot dictator, and if I do not take a decision, you say that other bodies such as the WLGA have bounced me, and that I show lack of leadership. You cannot have it both ways. Do you want us to reach a decision? If we had not taken this protective action, we could have been running and funding two quasi-embassies at the same time. I notice that you did not respond to that point because you could not think of an answer in time. However, you will have to think of an answer to that. Is it responsible behaviour for the leader of the Welsh Conservatives, only five minutes after David Davies berated me for wasting public money on logos, to be happy not to respond at all to my point? Therefore, I assume that you would be happy to run two quasi-embassies in Brussels, side by side, in the

pwysigrwydd gwarchod arian cyhoeddus yn dda, ni allem adael ein hunain fod yn gyfrifol am ddwy led-lysgenhadaeth ym Mrwsel. Siawns eich bod yn cytuno â hynny?

Nick Bourne: Dywedwch 'ni' drwy'r amser, ond gwnaethoch y penderfyniad yn unochrol. Yr ydych newydd ddweud wrthym nad oedd yn benderfyniad brys, felly gallasem fod wedi cael dadl ar hyn cyn ichi wneud y penderfyniad. Dywedwch mai chi yw'r arweinydd a bod yn rhaid ichi ddilyn CLILC. Dylech arwain dros Gymru, nid cael eich gwthio gan y gymdeithas. Os oedd yn syniad da ymuno yn Chwefror 2000, ac os ydyw'n gorff mor effeithiol, beth sydd wedi newid? Yr ydych wedi tynnu'r mat allan o dan draed y corff hwn, sy'n gwneud ei orau glas i gynrychioli buddiannau Cymru ym Mrwsel ac Ewrop. Yr ydych wedi gadael swyddi'r staff yn y fantol, ac mae marc cwestiwn dros ddyfodol y brydles. Mae'n bryd ichi dynnu'r rhybudd yn ôl fel y gallwn gael dadl iawn ar y mater hwn, ac fel y gall y bobl ym Mrwsel wneud eu gorau i gynrychioli Cymru, heb y cleddyf Damocles hwn uwch eu pennau. Dylech blygu'ch pen mewn cywilydd. Chi yw'n harweinydd, ond yr ydych wedi methu rhoi arweiniad iawn. Yr ydych wedi gwneud penderfyniad unochrol heb ymgynghori'n iawn, fel y dywedodd hyd yn oed aelod o'ch grŵp chi'ch hun, Tom Middlehurst.

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych yn camliwio ac yn llurgunio, ac yn rhoi heibio unrhyw ymgais i fod yn rhesymegol, Nick. Mae hyn yn hurt. Os gwnaf benderfyniad, cyhuddwch fi o fod yn unben pot jam, ac os na wnaif benderfyniad, dywedwch fod cyrff eraill fel CLILC wedi fy ngwthio, a'm bod yn dangos diffyg arweinyddiaeth. Ni allwch ei chael bob ffordd. Oes arnoch chi eisiau inni ddod i benderfyniad? Pe na baem wedi gweithredu i warchod ein hunain fel hyn, gallasem fod yn rhedeg ac yn ariannu dwy led-lysgenhadaeth ar yr un pryd. Sylwaf na wnaethoch ymateb i'r pwynt hwnnw am na allech feddwl am ateb mewn pryd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ichi feddwl am ateb i hynny. A ydyw'n ymddygiad cyfrifol i arweinydd Ceidwadwyr Cymru, pum munud wedi i David Davies fy nghystwyo am wastraffu arian cyhoeddus ar logos, fod yn hapus i beidio ag ymateb i'm pwynt o gwbl? Cymeraf, felly, y byddech chi'n hapus i redeg

same building. Surely, you must realise that that is a ridiculous position. Let us have some logic.

dwy led-lysghenhadaeth ym Mrwsel, ochr yn ochr, yn yr un adeilad. Mae'n siŵr eich bod yn sylweddoli bod hynny'n safbwynt chwerrthinllyd. Gadewch inni gael ychydig o resymeg.

Taliadau Presgripsiwn Prescription Charges

Q9 Janice Gregory: Has the First Minister received any feedback on his Welsh Assembly Government's policy of freezing prescription charges? (OAQ16838)

C9 Janice Gregory: A yw Prif Weinidog Cymru wedi derbyn unrhyw adborth ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â chodi taliadau presgripsiwn? (OAQ16838)

The First Minister: The Welsh Assembly Government's policy on freezing prescription charges was reaffirmed earlier this month. We have announced the freezing of prescription charges for two years running. We have received positive feedback. For example, a radio audience poll gave an approval rating of around 70 per cent for the policy, which is part of our drive to ensure equal access to healthcare for all people in Wales.

Prif Weinidog Cymru: Ailgadarnhawyd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â chodi taliadau presgripsiwn yn gynharach y mis hwn. Yr ydym wedi cyhoeddi na chodir taliadau presgripsiwn am ddwy flynedd yn olynol. Cawsom ymateb cadarnhaol. Er enghraifft, rhoddodd pleidlais cynulleidfa radio farc cymeradwyaeth o 70 y cant o blaid y polisi, sy'n rhan o'n hymgyrch i sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd i bawb yng Nghymru.

Janice Gregory: I have received positive feedback from constituents on this issue. They are pleased that the Assembly Government has frozen prescription charges for the second year running. However, will you consider reviewing the prescription charging regime? Some patients require multiple prescriptions for long-term, debilitating illnesses, but are not currently exempt from prescription payments.

Janice Gregory: Cefais innau ymateb cadarnhaol gan etholwyr ar y mater hwn. Maent yn falch fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cadw taliadau presgripsiwn yn yr unfan am yr ail flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, a wnewch chi ystyried adolygu'r drefn o godi tâl am bresgripsiwn? Mae rhai cleifion angen nifer o bresgripsiynau am glefydau gwanychol hirdymor, ond nid ydynt ar hyn o bryd wedi'u heithrio rhag talu am bresgripsiwn.

The First Minister: That is an interesting point; I am sure that every Assembly Member has dealt with such constituency cases. People will often ask why their neighbours' two prescriptions count as a pair, attracting one prescription charge, when they must pay for both prescriptions separately, because they do not count as being part of the same treatment, even though the doctor says that they are. It is difficult. If you extend the list of exemptions, the anomalies get worse. On the other hand, there are anomalies, and these cause unhappiness. If you would like to raise a particularly outrageous anomaly with Jane Hutt or me, Janice, I am sure that we would consider it.

Prif Weinidog Cymru: Mae hwnnw'n bwynt diddorol; yr wyf yn siŵr fod pob Aelod wedi delio ag achosion o'r fath yn eu hetholaeth. Bydd pobl yn gofyn yn aml pam y mae dau bresgripsiwn eu cymdogion yn cyfrif fel pâr, gydag un tâl presgripsiwn, tra bod yn rhaid iddynt hwy dalu am y ddau bresgripsiwn ar wahân, am nad ydynt yn cyfrif fel rhan o'r un driniaeth, er y dywed y meddyg eu bod. Mae hyn yn anodd. Os estynnwch y rhestr o eithriadau, aiff yr anghysonderau'n waeth. Ar y llaw arall, y mae anghysonderau, ac mae'r rhain yn achosi anfodlonrwydd. Os hoffech godi anghysonder arbennig o annheg gyda Jane Hutt neu fi, Janice, yr wyf yn siŵr y byddem yn ei ystyried.

David Lloyd: Er mwyn gwthio'r mater hwn i'r eithaf, a gytunwch fod angen ailwampio'r system bresennol o benderfynu pa afiechydon sy'n teilyngu presgripsiynau am ddim? Rhaid talu am bresgripsiynau ar gyfer rhai afiechydon difrifol. A oes angen meddwl yn awr am ailwampio'r holl system?

David Lloyd: To take this to its logical conclusion, do you agree that the current system for determining which illnesses qualify for free prescriptions should be revamped? You must pay prescription charges for some serious illnesses. Should we be thinking of revamping the whole system?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn agored i'r syniad o ailystyried y system, ond ni allaf warantu y byddai hynny'n cael gwared ar yr eithriadau hyn, neu'r achosion a ystyrir fel rhai afresymol. Nid wyf yn siŵr a fyddai modd cynllunio gwell system. Mae pobl o dan yr argraff y gallent feddwl am rywbeth gwell, ond credaf fod a wnelo hynny â'r syniad o fan gwyn, man draw. Pe gallech gyfeirio at syniadau newydd mewn llythyr, Dai, byddai Jane a minnau yn hapus i'w hystyried.

The First Minister: I am open to the idea of reconsidering the system, but I cannot guarantee that that would eliminate exceptional or unreasonable cases. I am not sure that you could improve the system. People tend to believe that they can think of something better, but that has much to do with the grass always seeming greener on the other side. If you could outline some new ideas in a letter, Dai, then Jane and I would be happy to consider them.

Alun Pugh: Freezing prescription charges is a welcome step, but many of my constituents are freezing because Transco has refused to connect rural constituents on its network, concentrating instead on city deal-making and overseas ventures. Do you agree that this privatised monopoly should be focusing on Gellifor rather than Georgia and Betws-yn-Rhos rather than Baton Rouge?

Alun Pugh: Mae cadw taliadau presgripsiwn yn yr unfan yn gam i'w groesawu, ond mae llawer o fy etholwyr yn rhynnu am fod Transco wedi gwrthod cysylltu etholwyr gwledig ar ei rwydwaith, gan ganolbwyntio yn hytrach ar fargeinio yn y ddinas ac ar fentrau tramor. A gytunwch y dylai'r monopoli preifateiddiedig hwn fod yn canolbwyntio ar Gellifor yn hytrach na Georgia a Betws-yn-Rhos yn hytrach na Baton Rouge?

The First Minister: It is not up to me to comment on whether Lattice, or Transco, or whatever its name was—I think that it is Lattice now—should merge with the national grid company or not, or whether that will improve services here or result in it paying more attention to expansion in the USA thereby neglecting areas of Wales that still do not have mains gas. Huge areas of rural Wales do not have mains gas. There are also many parts of Wales's industrial Valleys—the more isolated top of the Valleys communities—have not yet gone on mains gas. I would like to think that if we can get a list of areas that are reasonably close to the gas mains we can continue to put pressure on the company, particularly if it feels rather vulnerable on the public relations front. Following your assault today it might be more amenable to persuasion than in the past.

Prif Weinidog Cymru: Nid mater i mi yw rhoi sylw ar a ddylai Lattice, neu Transco, neu beth bynnag oedd ei enw—Lattice ydyw yn awr, yr wyf yn meddwl—uno â chwmni'r grid cenedlaethol ai peidio, neu a wnaiff hynny wella gwasanaethau yma ynteu olygu y bydd yn talu mwy o sylw i ehangu yn yr Unol Daleithiau, gan esgeuluso rhannau o Gymru sydd yn dal heb nwy prif gyflenwad. Nid yw'r prif gyflenwad nwy'n cyrraedd rhannau helaeth o'r Gymru wledig. Mae sawl rhan hefyd o Gymoedd diwydiannol Cymru—cymunedau mwy pellennig blaenau'r Cymoedd—sydd heb gael eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy eto. Hoffwn feddwl os gallwn gael rhestr o ardaloedd sy'n weddol agos at y prif bibell nwy y gallwn barhau i roi pwysau ar y cwmni, yn enwedig os yw'n teimlo braidd yn fregus ar faterion cysylltiadau cyhoeddus. Yn dilyn eich

ymsodiad heddiw fe allai fod yn fwy agored i'w ddarbwylllo nag yn y gorffennol.

The Presiding Officer: Question 10 (OAQ16849) has been withdrawn.

Y Llywydd: Mae Cwestiwn 10 (OAQ16849) wedi'i dynnu'n ôl.

2:40 p.m.

Teithio am Ddim ar Fysiau Lleol Free Transport on Local Buses

Q11 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on the Assembly Government's policy of free transport for the elderly and disabled on local buses in Wales? (OAQ16840)

C11 John Griffiths: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganiatáu i'r henoed a phobl anabl deithio am ddim ar fysiau lleol yng Nghymru? (OAQ16840)

The First Minister: Never have I known an Assembly policy that has made such an immediate impact, possibly because it is understandable and does not include management speak, consultancy speak or politician speak—it is public speak. This ties in with what we were discussing earlier about Le Pen and the disillusionment of ordinary citizens with the processes of government because of the language we speak and increasing general cynicism. Everybody easily understands policies such as this, no matter what their level of education, or whether they have been on a management course in Sunbridge Park. They all understand free bus travel for pensioners and the disabled. More such policies will eliminate the danger of racist candidates sneaking through because of widespread cynicism among citizens.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf erioed wedi gweld polisi gan y Cynulliad a wnaeth gymaint o argraff yn syth, o bosibl am ei fod yn ddealladwy ac nad yw'n cynnwys iaith rheolwyr, iaith ymgynghorwyr na iaith gwleidyddion—iaith y cyhoedd ydyw. Mae hyn yn berthnasol i'r hyn yr oeddem yn ei drafod yn gynharach ynglŷn â Le Pen a dadrithiad dinasyddion cyffredin â phrosesau llywodraeth oherwydd yr iaith a ddefnyddiwn a sinigiaeth gyffredinol gynyddol. Gall pawb ddeall polisïau fel hyn yn hawdd, faint bynnag o addysg a gawsant, a heb fod wedi gorfod mynychu cwrs rheoli yn Sunbridge Park. Maent i gyd yn deall teithio am ddim ar fysus i bensïynwyr a'r anabl. Bydd mwy o bolisïau o'r fath yn dileu'r perygl i ymgeiswyr hiliol sleifio i mewn oherwydd sinigiaeth ar raddfa helaeth ymhlith dinasyddion.

John Griffiths: The policy has undoubtedly been a huge success. Many of my constituents have told me how much they appreciate this free bus travel scheme and the opportunities that it provides. They have asked me to thank the Welsh Assembly Government for the opportunity therein.

John Griffiths: Bu'r polisi'n llwyddiant ysgubol yn ddiarnheul. Mae llawer o'm hetholwyr wedi dweud wrthyf gymaint y maent yn gwerthfawrogi'r cynllun teithio am ddim hwn a'r cyfleoedd y mae'n eu darparu. Maent wedi gofyn imi ddiolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru am y cyfle mae'n ei roi.

The First Minister: Similar schemes exist in London and Liverpool, but they are not interoperable. The important point about this scheme is that all local authorities in Wales co-operated so that the card is eligible throughout Wales. For example, you may come from Cardiff but if you are in Tenby or Llandudno on holiday you can use the card there as well, and likewise for people from

Prif Weinidog Cymru: Ceir cynlluniau tebyg yn Llundain a Lerpwl, ond nid ydynt yn rhyngweithredol. Y pwynt pwysig am y cynllun hwn yw bod holl awdurdodau lleol Cymru wedi cydweithredu fel bod y cerdyn yn dderbyniol ledled Cymru. Er enghraifft, efallai eich bod yn dod o Gaerdydd ond os ydych yn Ninbych-y-Pysgod neu Landudno ar wyliau gallwch ddefnyddio'r cerdyn yn y

Llandudno when they are on holiday, or visiting relatives or whatever in Cardiff. You get a double boost from social inclusion for the elderly and the disabled, and from persuading more people to use the bus and fewer people to use the car.

David Davies: What percentage of pensioners have replied to the expensive advertising campaign on this issue? Would it not have been cheaper to contact all eligible pensioners directly rather than placing adverts in newspapers?

The First Minister: The application process, with a few exceptions, has been extremely good. I have read about one or two queues building up when people were trying to obtain the pass. We have all read those stories, and the press loved it. By and large, however, the launch has gone extremely well and people have been proud when they have got the pass. Frequently, they are able to use a substitute document pending the arrival of their pass. They are extremely proud when they receive their pass and are pleased to have been able to access it. I pay tribute to those pensioners who have applied and to the local authorities that have co-operated so well to ensure that we have an all-Wales scheme.

Brian Hancock: How will you ensure that the criteria for free transport for the elderly and the disabled is fairly and uniformly provided across Wales? How will the disabled access transport that is not wheelchair compatible or suitable for people on crutches?

The First Minister: I thank you for your question, if only because it gives me the excuse to congratulate your constituent, Joe Calzaghe, on lifting the spirits of the nation on Saturday night with his astonishing boxing performance. We accept that there are certain categories of people with physical disabilities who cannot get on a bus, even new low platform buses. Disabled people can, alternatively, use the same pass to get taxi vouchers to use in the newer type of taxi, which is fully wheelchair compatible. The additional right to use the dial-a-ride voucher scheme for taxis with disabled facilities is an

mannau hynny hefyd, a'r un modd i bobl o Landudno sydd ar wyliau, neu'n ymweld â pherthnasau neu beth bynnag, yng Nghaerdydd. Ceir mantais ddeublyg o gynhwysiant cymdeithasol i'r henoed a'r anabl, ac o berswadio mwy o bobl i ddefnyddio'r bws a llai o bobl i ddefnyddio'r car.

David Davies: Pa ganran o bensiynwyr sydd wedi ymateb i'r ymgyrch hysbysebu drud ar y mater hwn? Oni fuasai'n rhatach cysylltu â phob pensiynwr cymwys yn uniongyrchol yn hytrach na rhoi hysbysebion mewn papurau newydd?

Prif Weinidog Cymru: Bu'r broses geisiadau, gydag ambell eithriad, yn hynod o dda. Yr wyf wedi darllen am un neu ddau achos lle bu pobl yn sefyll mewn rhesi i geisio cael y cerdyn. Yr ydym i gyd wedi darllen y straeon hynny, ac yr oedd y wasg wrth ei bodd. Ond ar y cyfan, aeth y lansiad yn eithriadol o dda ac mae pobl wedi ymfalchïo o gael y cerdyn. Yn aml, gallant ddefnyddio dogfen dros-dro hyd nes daw eu cerdyn. Maent yn eithriadol o falch pan gânt eu cerdyn ac yn falch o fod wedi gallu ei gael. Rhoddaf deyrnged i'r pensiynwyr hynny a wnaeth gais ac i'r awdurdodau lleol a gydweithredodd gystal i sicrhau bod gennym gynllun dros Gymru gyfan.

Brian Hancock: Sut y gwnewch chi sicrhau bod y meini prawf ar gyfer teithio am ddim i'r henoed a'r anabl yn cael eu darparu'n deg ac yn unffurf ar draws Cymru? Sut y gall yr anabl ddefnyddio cludiant sy'n anaddas ar gyfer cadeiriau olwynion neu ffyn baglau

Prif Weinidog Cymru: Diolch am eich cwestiwn, pe bai ond am ei fod yn rhoi esgus imi longyfarch un o'ch etholwyr, Joe Calzaghe, ar godi ysbryd y genedl nos Sadwrn gyda'i berfformiad anhygoel yn y sgwâr bocsi. Derbyniwn fod rhai categorïau o bobl ag anabledau corfforol na allant fynd ar fws, hyd yn oed y bysus newydd â lloriau isel. Gall pobl anabl ddewis defnyddio'r un cerdyn i gael talebau tacsï i'w defnyddio yn y tacsï diweddaraf, sy'n hwylus i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae'r hawl ychwanegol i ddefnyddio'r cynllun taleb deialu-reid ar gyfer tacsï â chyfleusterau i'r

important alternative, because there are many disabled people with disabilities that prevent them from getting to a bus stop.

anabl yn ddewis arall pwysig, oherwydd mae llawer o bobl anabl sydd ag anableddau sy'n eu rhwystro rhag cyrraedd man dal bws.

Datganiad ar Atebolrwydd Amodol yn Ymwneud â Chanolfan Mileniwm Cymru Statement on Contingent Liabilities Relating to the Wales Millennium Centre

The Minister for Culture, Sport and the Welsh Language (Jenny Randerson): On Monday 14 January, I tabled a statement in which I proposed to authorise a notifiable transaction to which Standing Order No. 19.13 applies, namely the disposal of the land at an undervalue to the Wales Millennium Centre company for the purpose of constructing and operating the Wales Millennium Centre. That statement indicated that it would also be necessary to enter into separate agreements with Cardiff County Council and Grosvenor Waterside, which would contain contingent liabilities. In the Plenary debate on 22 January, I explained that details of these contingent liabilities were still being negotiated, and I anticipated that it would become necessary for me to authorise the terms of those agreements in accordance with the urgency procedure, under Standing Order No. 19. I am now providing details of those transactions in accordance with Standing Order No. 19.20.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg (Jenny Randerson): Ddydd Llun 14 Ionawr, cyflwynais ddatganiad lle cynigiais awdurdodi trafodiad hysbysadwy sy'n berthnasol i Reol Sefydlog Rhif 19.13, sef gwerthu tir am bris isel i gwmi Canolfan Mileniwm Cymru i ddiben adeiladu a gweithredu Canolfan Mileniwm Cymru. Nododd y datganiad hwnnw y byddai angen llunio cytundebau ar wahân hefyd gyda Chyngor Sir Caerdydd a Grosvenor Waterside, a fyddai'n cynnwys atebolrwydd amodol. Yn nadl y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr, eglurais ein bod yn dal i negodi manylion yr atebolrwydd amodol hwn, a rhagwelais y byddai angen i mi awdurdodi telerau'r cytundebau hynny yn unol â'r weithdrefn frys, dan Reol Sefydlog Rhif 19. Dyma fi'n awr yn darparu manylion y trafodion hynny'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.20.

Before describing the details of the contingent liabilities that have been entered into with Cardiff County Council and Grosvenor Waterside, it would be helpful to remind the Assembly of the history of the WMC site and why the need for these liabilities has arisen. When Cardiff County Council bought the site for the Wales Millennium Centre from Grosvenor Waterside plc last year, Grosvenor Waterside agreed to sell at less than what it considered to be full market value. It did so because it saw the WMC as a prestige project that would enhance the value of its other land holdings in the vicinity. Grosvenor Waterside did, however, obtain from Cardiff County Council an undertaking that it would be compensated to the full value of the land if the WMC project did not start on site by March of this year.

Cyn disgrifio manylion yr atebolrwydd amodol yr ymrwymwyd iddo gyda Chyngor Sir Caerdydd a Grosvenor Waterside, byddai'n fuddiol atgoffa'r Cynulliad o hanes safle Canolfan Mileniwm Cymru a pham y cododd yr angen am yr atebolrwydd hwn. Pan brynodd Cyngor Sir Caerdydd y safle ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru oddi wrth Grosvenor Waterside ccc y llynedd, cytunodd Grosvenor Waterside i werthu am lai na'r hyn y barnai oedd ei werth llawn ar y farchnad. Gwnaeth hynny oherwydd sylweddolai fod Canolfan Mileniwm Cymru yn brosiect clodfawr a fyddai'n codi gwerth ei eiddo arall yn y cyffiniau. Er hynny, fe gafodd Grosvenor Waterside addewid gan Gyngor Sir Caerdydd y câi ei ddigolledu yn ôl gwerth llawn y tir pe na bai prosiect y ganolfan yn cychwyn ar y safle erbyn mis Mawrth eleni.

Cardiff County Council purchased the site from Grosvenor Waterside for £2.5 million.

Prynodd Cyngor Sir Caerdydd y safle oddi wrth Grosvenor Waterside am £2.5 miliwn.

As part of the recently completed transactions, the council has transferred the site to the Assembly for a nominal sum. The council was only prepared to do this, however, if it was released from its undertaking to Grosvenor Waterside and if the National Assembly would enter into new undertakings with the council to compensate it if the WMC project did not proceed.

The plan, which I agreed with Cardiff County Council and Grosvenor Waterside, and which has now been implemented, is made up as follows: first, the council has transferred ownership of the site to the National Assembly at no cost; secondly, the Assembly has given a licence to the Wales Millennium Centre company to enter the site and commence construction, and has agreed to grant a lease of the site to the company for a peppercorn rent, which will be formally granted once the Charity Commission for England and Wales has given its approval to a legal charge in favour of the Assembly to protect its grant; thirdly, Grosvenor Waterside has released Cardiff County Council from its undertakings given in 2001; and fourthly, the Assembly has given new undertakings to Cardiff County Council and Grosvenor Waterside, which will compensate those bodies if the WMC is not fully built.

The negotiations leading to these transactions were concluded on the same date as the contract to construct the centre was awarded by the Wales Millennium Centre company to Sir Robert McAlpine. To avoid disruption to the agreed contract timetable, upon which the contract price was based, it was necessary for me to enter into the contingent liabilities with the council and Grosvenor Waterside without prior notification to the Assembly under Standing Order No. 19.13. My expectation that this would be the case was drawn to your attention in the Plenary debate on the WMC on 22 January this year.

2:50 p.m.

I turn now to the details of those transactions that contain contingent liabilities, and on which I am required to report pursuant to Standing Order No. 19.20. An agreement has been entered into with Cardiff County

Fel rhan o'r trafodion a gwblhawyd yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi trosglwyddo'r safle i'r Cynulliad am swm cydnabod. Nid oedd y cyngor ond yn barod i wneud hyn, fodd bynnag, os câi ei ryddhau o'i ymrwymiad i Grosvenor Waterside ac os byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud ymrwymadau newydd i'r cyngor i'w ddigolledu pe nad âi prosiect y ganolfan yn ei flaen.

Dyma elfennau'r cynllun y cytunais arno gyda Chyngor Sir Caerdydd a Grosvenor Waterside, ac sydd bellach wedi'i weithredu: yn gyntaf, mae'r cyngor wedi trosglwyddo meddiant y safle i'r Cynulliad Cenedlaethol heb gost; yn ail, mae'r Cynulliad wedi rhoi trwydded i gwmni Canolfan Mileniwm Cymru i fynd ar y safle a dechrau adeiladu, ac wedi cytuno i roi prydles ar y safle i'r cwmni am rent hedyn pupur, a roddir yn ffurfiol unwaith y bydd y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr wedi rhoi ei gymeradwyaeth i arwystl cyfreithiol o blaid y Cynulliad i ddiogelu ei rodd; yn drydydd, mae Grosvenor Waterside wedi rhyddhau Cyngor Sir Caerdydd o'r ymrwymadau a wnaeth yn 2001; ac yn bedwerydd, mae'r Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad newydd i Gyngor Sir Caerdydd a Grosvenor Waterside i ddigolledu'r cyrff hynny os nad adeileid y ganolfan yn llawn.

Cwblhawyd y trafodaethau a arweiniodd at y trafodion hyn ar yr un dyddiad ag y dyfarnwyd y contract i adeiladu'r ganolfan gan gwmni Canolfan Mileniwm Cymru i Syr Robert McAlpine. I osgoi tarfu ar yr amserlen y cytunasid arni ar gyfer y contract, yr oedd pris y contract wedi'i seilio arni, bu'n angenrheidiol i mi ymrwymo i'r atebolrwydd amodol gyda'r cyngor a Grosvenor Waterside heb hysbysu'r Cynulliad yn gyntaf dan Reol Sefydlog Rhif 19.13. Tynnais eich sylw at fy nisgwyliad mai dyma fyddai'n digwydd yn y ddadl Lawn ar Ganolfan Mileniwm Cymru ar 22 Ionawr eleni.

Trof yn awr at fanylion y trafodion hynny sy'n cynnwys atebolrwydd amodol, ac y mae'n ofynnol imi adrodd arnynt dan Reol Sefydlog Rhif 19.20. Ymrwymwyd i gytundeb gyda Chyngor Sir Caerdydd sy'n

Council that provides for payments to be made by the Assembly to the council in the event that the Wales Millennium Centre is not substantially commenced or in the event that the centre is not completed, leading to a sale of the site. This agreement reflects the fact that the council has transferred land to the Assembly at nil consideration. Payments may arise in two separate and distinct sets of circumstances. The first contingent liability is confined to the initial commencement phase of the project. The Assembly is required to make a payment of £2.83 million to the council in the event of works not being commenced, or diligently progressed, within six months of the grant of the lease or, if there is any impediment to the grant of the lease, within six months of the date on which the lease would have been granted. I am delighted to report that works have commenced—a fact that is blindingly obvious to Members—and that considerable progress is being made on the site. The Charity Commission's approval to the Assembly's legal charge is still awaited, which will then lead to the grant of the lease. It is currently anticipated that this will be in place by 10 June 2002.

Once the period of six months from the grant of the lease has expired, the contingent liability to pay £2.83 million to Cardiff County Council will fall away and a more limited contingent liability to the council will take its place. At that stage, the land value contribution of £2.83 million from Cardiff County Council will be treated the same as the grant funding provided by the other public sector funders—namely the Assembly, the Millennium Commission and the Arts Council of Wales—in the event that the centre is not completed and the land is sold. In the event of default by WMC under the lease, as a result of which the Assembly or other funding body realises its security by selling the site, the Assembly will apply any proceeds of sale it might realise: first to discharge any outstanding liability of WMC to its leasing bank; secondly to discharge any outstanding liability to the public sector funders in proportion to their relative contributions; and finally, to pay any balance remaining to Grosvenor Waterside. This contingent liability is confined to funds realised on a sale of the site, and would have

darparu y bydd y Cynulliad yn gwneud taliadau i'r cyngor os na fydd Canolfan Mileniwm Cymru wedi'i gychwyn yn sylweddol neu os na chwblheir y ganolfan, a hynny'n arwain at werthu'r safle. Mae'r cytundeb hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod y cyngor wedi trosglwyddo tir i'r Cynulliad am ddim. Gall yr angen i dalu ddigwydd mewn dwy set wahanol o amgylchiadau. Mae'r atebolrwydd amodol cyntaf yn gyfyngedig i gyfnod cychwynol cyntaf y prosiect. Bydd yn ofynnol i'r Cynulliad dalu £2.83 miliwn i'r cyngor os na fydd gwaith wedi'i gychwyn, neu os na cheir cynnydd diwyd arno, o fewn chwe mis i roi'r brydles neu, os oes unrhyw lestar i roi'r brydles, o fewn chwe mis i'r dyddiad y buasid wedi rhoi'r brydles. Yr wyf yn falch iawn o adrodd bod y gwaith wedi cychwyn—ffraith sy'n hollol amlwg i'r Aelodau—a bod cynnydd sylweddol yn digwydd ar y safle. Disgwylir o hyd am gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau i arwystl cyfreithiol y Cynulliad, a fydd yn arwain wedyn at roi'r brydles. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd hyn wedi digwydd erbyn 10 Mehefin 2002.

Unwaith y bydd y cyfnod o chwe mis ar ôl rhoi'r brydles wedi dod i ben, bydd yr atebolrwydd amodol i dalu £2.83 miliwn i Gyngor Sir Caerdydd yn gorffen a bydd atebolrwydd amodol mwy cyfyngedig i'r cyngor yn cymryd ei le. Bryd hynny, caiff y cyfraniad tir gwerth £2.83 miliwn gan Gyngor Sir Caerdydd ei drin yr un fath â'r arian grant a ddarperir gan yr arianwyr sector cyhoeddus eraill—sef y Cynulliad, Comisiwn y Mileniwm a Chyngor Celfyddydau Cymru—os na chwblheir y ganolfan ac os gwerthir y tir. Pe ceid methiant gan y ganolfan dan y brydles, a bod y Cynulliad neu gorff ariannu arall yn sgîl hynny'n realeiddio'i ernes drwy werthu'r safle, bydd y Cynulliad yn defnyddio unrhyw elw a gaiff o werthu: yn gyntaf i dalu unrhyw atebolrwydd dyledus gan y ganolfan i'w banc prydlesu; yn ail i dalu unrhyw atebolrwydd sy'n ddyledus i'r arianwyr sector cyhoeddus yn gymesur â'u cyfraniadau cymharol; ac yn olaf, i dalu unrhyw weddill sydd ar ôl i Grosvenor Waterside. Mae'r atebolrwydd amodol hwn yn gyfyngedig i arian a geid o werthu'r safle, ac ni châi unrhyw effaith ar adnoddau

no impact on the Assembly's wider resources.

A separate agreement has been entered into with Grosvenor Waterside Investments Ltd that complements the above agreement. Under this agreement, the Assembly has agreed that, following any default resulting in a sale of the site, the Assembly shall pay Grosvenor Waterside the balance of any proceeds of sale that remain after first discharging WMC's liabilities to its leasing bank and the various public sector funders, including repayment of the Assembly's own grant. This liability is also confined to funds realised on a sale of the site and would have no impact on the Assembly's wider resources.

This statement sets out the contingent liabilities as promised on 22 January. It is a technical matter that is now concluded, but I am happy to answer questions.

Owen John Thomas: Croesawaf hyn fel cam pwysig arall ymlaen tuag at wireddu'r prosiect ardderchog hwn. Llongyfarchaf y Gweinidog ar lwyddo i symud y trefniadau ynghylch y tir yn eu blaen. Yn arbennig, yr wyf yn falch mai Plaid Cymru a gyflwynodd y syniad y dylai'r cyngor drosglwyddo'r tir yn rhad ac am ddim i'r Cynulliad. Yr wyf hefyd yn falch o weld yr holl waith yn mynd yn ei flaen ar y safle hwn—mae'r lle'n byrlymu—ac yn falch bod cwmni Sir Robert McAlpine yn defnyddio llawer o gwmnïau lleol i wneud y gwaith.

Mae gennyf ddau gwestiwn, un ohonynt o ran diddordeb, er yn bwysig hefyd wrth gwrs. Beth yw barn eich ymgynghorwyr ar werth masnachol y tir? Talodd Caerdydd £2.5 miliwn amdano; beth fyddai ei werth fel arall?

Yn ail, efallai y gallwch roi newydd da arall inni. A wyddoch sut y darperir cyfleusterau parcio ar y safle? Yn eich datganiad diwethaf, bu ichi sôn bod hynny'n broblem o hyd.

Jenny Randerson: Earlier this afternoon, the Lord Mayor of Cardiff was sitting in the public gallery. I am sure that he would have

ehangach y Cynulliad.

Gwnaethpwyd cytundeb ar wahân gyda Grosvenor Waterside Investments Cyf. sy'n cyd-fynd â'r cytundeb uchod. Dan y cytundeb hwn, mae'r Cynulliad wedi cytuno y bydd, yn dilyn unrhyw fethiant sy'n arwain at werthu'r safle, yn talu i Grosvenor Waterside weddill unrhyw elw o'r gwerthiant sydd ar ôl wedi talu atebolrwydd Canolfan Mileniwm Cymru yn gyntaf i'w banc prydlesu a'r amryfal arianwyr o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys ad-dalu grant y Cynulliad ei hun. Mae'r atebolrwydd hwn hefyd yn gyfyngedig i arian a geir o werthu'r safle, ac ni châi unrhyw effaith ar adnoddau ehangach y Cynulliad.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r atebolrwydd amodol fel a addawyd ar 22 Ionawr. Mae'n fater technegol sydd bellach wedi'i gwblhau, ond byddaf yn falch o ateb cwestiynau.

Owen John Thomas: I welcome this as another important step forward towards realising this excellent project. I congratulate the Minister on succeeding in advancing the arrangements pertaining to the land. I am particularly pleased that the initial proposal to transfer the land from the council to the Assembly free of charge came from Plaid Cymru. I am also pleased to see all the work being undertaken on this site—it is a hive of activity—and pleased that Sir Robert McAlpine's company is employing many local companies to do the work.

I have two questions, one of which is a matter of interest, though nonetheless important. What is your advisers' estimate of the commercial value of the land? Cardiff paid £2.5 million for it; what would be its value otherwise?

Secondly, you may be able to give us some good news. Do you know how parking facilities will be provided on the site? In your last statement, you mentioned that that problem remained.

Jenny Randerson: Yn gynharach y prynhawn yma, yr oedd Arglwydd Faer Caerdydd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus.

been interested to hear that the idea of transferring the land free of charge was Plaid Cymru's idea, not this Government's or Cardiff County Council's. It is the first I have heard of it. On the serious point of the market value of the land, I am not able to give you a precise figure, but I can assure you that it is well above £2.5 million. That was why Grosvenor Waterside expected and required those assurances. In terms of the parking issue, I can tell you that good progress is being made and there are ongoing talks, which are commercially confidential.

Peter Law: It is interesting that there is a division on who is responsible for what. Do you appreciate that thousands of people throughout Wales feel that this project is totally inappropriate, that it is taking far too much public money, and that it will also be a financial albatross around the neck of this Assembly for many years to come? It will need subsidy to keep it going and thousands of people will never see it.

Jenny Randerson: Your remarks are remarkably similar to those of the opponents to the Guggenheim museum in Bilbao, which were reported to me when I visited Bilbao a couple of weeks ago. I asked about the background and I was told that there was a great deal of controversy and that many people said that it would not be a success. I do not believe the Basques said albatross around the neck, but it was similar. They said that everyone now likes to claim it as their idea because it has been so successful and has regenerated not just the city of Bilbao, but the whole region.

Glyn Davies: Thank you for your statement today. I was aware that you would be making this statement. You explained the rather complicated position to the Culture Committee, and you made a statement in Plenary warning us that you would make this statement today. I welcome it. We wholly approve of the principle and probably all the technical details. However, your statement is detailed and I may want to ask you questions on those details when I have had time to consider it. We have supported the principle, and if we had not, the Wales Millennium Centre would not have been able to go ahead.

In conclusion, I am pleased that Lord Carlile has produced such an effective report on a sensitive matter. His brief was specific but, actually, the ramifications of many of his recommendations are quite extensive and we should take this opportunity to regard them in as wide ranging a manner as possible. I urge Members to support the amendment; it is a perfectly friendly amendment that strengthens the motion and reminds the Health and Social Services Committee of its obligation to consider the Carlile report. It would send a message to the Executive that it must be careful when it rejects amendments, which should not be done off pat as an automatic, shrill, partisan and disappointing reaction.

Val Lloyd: I am sure that, like me, all Members welcome the recommendations. The previous speaker said the same. The umbrella recommendations on children's rights, advocacy and complaints are a pre-requisite to ensuring that all staff are aware of, and fully understand, the need for advocacy and accessibility to such basic rights. Protocols on an all-Wales basis, serving as the recognised guide to good practice, are equally essential.

Disclosure from the Criminal Records Bureau, whether in the enhanced or standard format, is fundamental to child protection issues. That will have resource implications, but that must not be a reason for non-implementation. Likewise, the development of secure access to the proposed child protection website must be available to all that need and wish it.

anghenion iechyd plant yn adroddiad y Pwyllgor, dylem ddod yn ôl at gwestiwn gwasanaeth nyrsio ysgolion a nodwyd gan lawer o dystion fel rhywbeth y mae angen ei ehangu a'i gryfhau. Gwna'r Arglwydd Carlile yr un sylw ac argymhella fod yn rhaid cryfhau'r gwasanaeth nyrsio ysgolion a chael staff sydd wedi'u hyfforddi fel nyrsys pediatrig. Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif, yn rhyfeddol, heb y cymhwyster penodol hwn. Hefyd, mae angen mwy o bediatregwyr a nyrsys plant yn gyffredinol yn y gwasanaeth iechyd.

I gloi, yr wyf yn falch fod yr Arglwydd Carlile wedi cynhyrchu adroddiad mor effeithiol ar fater sensitif. Yr oedd ei faes gorchwyl yn benodol ond, mewn gwirionedd, mae cyrhaeddiad llawer o'i argymhellion yn eithaf helaeth a dylem gymryd y cyfle hwn i edrych arnynt mewn modd mor eang â phosibl. Anogaf Aelodau i gefnogi'r gwelliant; mae'n welliant perffaith gyfeillgar sy'n cryfhau'r cynnig ac yn atgoffa'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'i ddyletswydd i ystyried adroddiad Carlile. Byddai'n anfon neges at y Weithrediaeth fod yn rhaid iddi fod yn ofalus wrth wrthod gwelliannau, ac na ddylid gwneud hynny mewn modd ffwrdd-â-hi fel ymateb awtomatig, croch, dallbleidiol a siomedig.

Val Lloyd: Yr wyf yn siŵr fod pawb o'r Aelodau, fel fi, yn croesawu'r argymhellion. Dywedodd y siaradwr diwethaf yr un peth. Mae'r argymhellion cyffredinol ar hawliau plant, eiriolaeth a chwynion yn hanfodol i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o, ac yn deall yn iawn, yr angen am eiriolaeth a mynediad at y cyfryw hawliau sylfaenol. Mae protocolau ar sail Cymru gyfan, yn rhoi arweiniad cydnabyddedig i ymarfer da, yr un mor hanfodol.

Mae datgelu manylion o'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, boed yn y ffurf safonol neu uwch, yn sylfaenol i faterion amddiffyn plant. Bydd goblygiadau o ran adnoddau i hynny, ond rhaid i hynny beidio â bod yn rheswm dros beidio â gweithredu. Yn yr un modd, rhaid datblygu mynediad diogel i'r wefan amddiffyn plant arfaethedig i fod ar gael i bawb y mae arnynt ei angen a'i eisiau.

I apologise. I was rather flustered at the beginning and forgot to declare an interest as a councillor for the City and County of Swansea council and as a registered nurse and a registered nurse teacher.

The recommendations that more health visitors and nurses in NHS Direct and accident and emergency departments should have specialist paediatric qualifications in addition to those necessary for their work in those practice areas, will lead to enhanced care and protection. However, extending it will again have resource implications and, unfortunately, a lead-in time before full implementation. This increase in paediatric qualifications is already underway in many hospital departments across Wales; therefore some of those targets may be met sooner than anticipated. However, that welcome initiative will put pressure on the university sector, which provides the courses that lead to such qualifications, and also on the already minimal provision of suitable clinical placements necessary to complete the paediatric qualification.

The time spent by children in hospital is minimal compared to the time that they spend in school. Like David, I think that school nurses are a valuable part of the primary care sector. Unfortunately, over the past few years, the number of school nurses has been decreasing, so not only will including them reverse that regrettable trend, it will widen the reach of child protection to many more children and young people.

The proposal for the expansion and development of community children's nursing services is excellent news. I hope that the report also leads to the development of adolescent units. This age group often falls between the two stools of being in either an adult unit or with younger children. Neither of those is satisfactory during what can be a testing time for many without having to cope with added embarrassment.

Child protection services are already an established feature of both health and social services. However, the opportunity that this report opens up, to improve standards and

Ymddiheuraf. Yr oeddwn wedi cynhyrfu braidd ar y dechrau ac anghofiais ddatgan buddiant fel cyngorydd dros gyngor Dinas a Sir Abertawe ac fel nyrs gofrestredig ac athrawes nyrsys gofrestredig.

Bydd yr argymhellion y dylai mwy o ymwelwyr iechyd a nyrsys yn Galw Iechyd Cymru ac adrannau damwain ac argyfwng gael cymwysterau pediatregol arbenigol ar ben y rheini sy'n angenrheidiol i'w gwaith yn y meysydd ymarfer hynny, yn arwain at well gofal a gwarchodaeth. Fodd bynnag, bydd estyn hyn yn achosi goblygiadau o ran adnoddau ac, yn anffodus, bydd cyfnod o amser arweiniol cyn y gellir ei weithredu'n llawn. Mae'r cynnydd hwn mewn cymwysterau pediatregol eisoes ar y gweill mewn llawer o adrannau ysbytai ledled Cymru; felly efallai y cyrhaeddir rhai o'r targedau hynny'n gynt nag a ragwelwyd. Er hynny, rhydd y cam pwysig hwnnw bwysau ar brifysgolion, sy'n darparu'r cyrsiau sy'n arwain at y cymwysterau hyn, a hefyd ar y ddarpariaeth—sydd eisoes yn fach iawn—o leoliadau clinigol addas sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cymhwyster pediatregol.

Mae'r amser a dreulir gan blant mewn ysbytai yn fach iawn o gymharu â'r amser a dreuliant yn yr ysgol. Fel David, yr wyf fi o'r farn fod nyrsys ysgol yn rhan werthfawr o'r sector gofal sylfaenol. Yn anffodus, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer y nyrsys ysgol wedi bod ar drai, felly bydd eu cynnwys hwy nid yn unig yn gwrthdroi'r duedd anffodus honno, ond hefyd yn lledu cyrhaeddiad gwaith amddiffyn plant i lawer mwy o blant a phobl ifanc.

Mae'r cynnig ar gyfer ehangu a datblygu gwasanaethau nyrsio plant yn y gymuned yn newyddion ardderchog. Gobeithiaf y bydd yr adroddiad yn arwain hefyd at ddatblygu unedau pobl ifanc. Mae'r grŵp oedran hwn yn aml yn syrthio rhwng dwy stôl bod mewn uned i oedolion neu gyda phlant iau. Nid yw'r un o'r rheini'n foddhaol yn ystod yr hyn a all fod yn adeg anodd i lawer heb orfod ymdopi ag embaras pellach.

Mae gwasanaethau amddiffyn plant eisoes yn nodweddiadol sydd wedi hen ymsefydlu yn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Er hynny, mae'r cyfle a gynigir gan yr

increase safeguards for children and young people, is to be welcomed and requires action.

3:30 p.m.

David Lloyd: Dechreuaf drwy ddatgan fy muddiannau arferol fel meddyg teulu a chynghorydd sir.

Wrth groesawu'r ddatl hon am adroddiad Carlile, mae Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig a'r gwelliant. Yn sgîl adroddiad Waterhouse ar gam-drin plant yn y gwasanaethau cymdeithasol, yr oedd pobl yn holi am y sefyllfa yn y gwasanaeth iechyd. Mae adroddiad Carlile yn deillio o hynny.

Mae yn yr adroddiad 150 o argymhellion am fesurau i amddiffyn plant sy'n cael eu trin gan y gwasanaeth iechyd. Bwriad yr argymhellion yw gwneud pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn ymwybodol bod hawliau plant yn ganolog ac yn ymwybodol o'r arwyddion o gam-drin plant. Mae'r adroddiad yn glodwiw, manwl a thrylwyr ac mae nifer helaeth o bwyntiau yn codi o ymateb Llywodraeth y Cynulliad sydd angen eu gwyntyllu.

Oherwydd diffyg amser, dim ond y prif bwyntiau a drafodaf yn awr. Mae sialens enfawr yma o ran sicrhau'r staffio a'r adnoddau dynol i wireddu argymhellion Carlile. Yr ydym eisoes yn ymwybodol bod argymhellion Waterhouse yn cael eu tanseilio gan brinder staff a gwyddom hefyd am y swyddi gwag sydd eisoes yn y gwasanaeth iechyd. Mae sôn yn adroddiad Carlile am ragor o swyddi gwag, o ran therapyddion llefaru, ffisiotherapyddion, nyrsys ysgolion ac ati. Bydd yn rhaid datrys y prinderau hyn i wireddu gweledigaeth adroddiad Carlile.

Nid yn unig y mae angen dybryd i recriwtio a chadw staff, mae hefyd angen hyfforddiant ar frys ar ganfod camdriniaeth ac ar y canllawiau y mae'n rhaid eu dilyn yn gyfreithiol. Mae prinder nyrsys yn ein hysgolion; dim ond 184 o nyrsys ysgol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Hefyd mae angen gwella hyfforddiant a lefel eu gwybodaeth am arwyddion camdriniaeth.

adroddiad hwn i wella safonau a chynyddu camau diogelu plant a phobl ifanc yn gyfle i'w groesawu ac i weithredu arno.

David Lloyd: I start by declaring my usual interests as a general practitioner and a county councillor.

In welcoming this debate on the Carlile report, Plaid Cymru supports the motion and the amendment. After the Waterhouse report on child abuse in social services, people asked about the situation in the health service. The Carlile report is a response to those questions.

The report contains 150 recommendations aimed at protecting children who are receiving treatment from the health service. The recommendations are intended to make all those who work in the health service aware that children's rights are central and aware of the signs of child abuse. The report is commendable, detailed and thorough and the Assembly Government's response raises a number of points, which need to be aired.

Given time constraints, I will concentrate on the main points. There is a huge challenge here in terms of ensuring the staffing levels and human resources required to implement Lord Carlile's recommendations. We are already aware that the Waterhouse recommendations are being undermined by staff shortages and we also know that unfilled posts already exist within the health service. The Carlile report mentions more unfilled posts, such as speech therapists, physiotherapists, school nurses and so on. These shortages must be dealt with in order to realise the vision of the Carlile report.

Not only is there a dire need to recruit and retain staff, but also an urgent need for training on identifying abuse and on the legal guidelines that must be followed. There is a shortage of nurses in our schools; Wales currently has only 184 school nurses. There is also a need to improve their training and the level of their knowledge about the signs of abuse.

Mae nifer o argymhellion yn benodol ynglŷn â diogelu ein plant a'n pobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf, yn enwedig y sawl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae sialens benodol yma i roi llawer mwy o flaenoriaeth i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Y mae'r gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth i'n pobl ifanc yn allweddol yn y cyd-destun hwnnw, sydd wedi bod o dan fygythiad yn ddiweddar wedi i Gymdeithas y Plant dynnu allan o Gymru. Caiff strwythur ei rhoi ar waith i adfer y sefyllfa ond erys sialens i ddatblygu gwasanaethau annibynnol i gynghori a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc.

Ceir argymhellion ynglŷn â'r angen i ddiwygio'r system gwyno hefyd i allu dygymod â magu ymwybyddiaeth o gam-drin ac yn benodol y syniad o benodi swyddog cwynion plant yn lleol yn yr ymddiriedolaeth a'r bwrdd iechyd lleol. Dim ond yn rhannol y mae'r Llywodraeth wedi derbyn y syniad hwnnw a byddwn yn ddiolchgar am ragor o sylwadau'r Gweinidog ar y mater. Sut y gall ein plant gwyno?

Yn yr un modd, mae cryn dipyn o sôn gan y Llywodraeth yn ei hymateb i'r adroddiad, am yr Asiantaeth Genedlaethol dros Ddiogelwch Cleifion sy'n gweithio ar raddfa Brydeinig ar hyn o bryd. Sut y bydd yr asiantaeth honno yn cydlynu ei gwaith yng Nghymru? Beth fydd y Gweinidog yn ei wneud i hybu gweledigaeth yn yr asiantaeth i greu awyrgylch o ddysgu drwy brofiad heb weld bai? Cytunaf â hynny mewn egwyddor ond pan aiff nifer y cwynion drwy'r to a phan fo system gwyno ddiwygiedig yn mynnu bod yn rhaid cwyno er mwyn gwella'r system, sut mae cysoni'r weledigaeth o ddysgu heb weld bai â realiti'r gwasanaeth iechyd?

Yn sgîl hynny daw'r argymhellion ynglŷn â'r sawl sy'n chwythu'r chwiban. Mae geiriau teg bob amser yn cael eu dweud am y rhain, ond y realiti yw bod y sawl sy'n chwythu'r chwiban ar anghyfiawnder yn cael bywyd anodd dros ben byth wedi hynny. Cofiw'n am yr anesthetidd a chwythodd y chwiban ym Mryste, lle'r oedd plant yn marw ar ôl llawdriniaeth ar eu calonnau. Mae'r

There are a number of specific recommendations aimed at safeguarding children and young people who face the greatest risks, especially those who have mental health problems. There is a specific challenge here to give a much higher priority to mental health services for children and young people. The counselling and advocacy services for young people are of key importance in that context, and the Children's Society's recent decision to pull out of Wales has put these services in jeopardy. A structure is being put in place to restore the situation but the challenge to develop independent services to counsel and support our children and young people remains.

Some recommendations concern the need to revise the complaints procedure so that we are able to deal effectively with the results of this heightened awareness of abuse and specifically the idea of appointing a children's complaints officer to work within the trusts and the local health boards. The Government has only partially accepted that idea and I would be grateful if the Minister would provide further details on this issue. How can our children complain?

Similarly, in its response to the report, the Government makes numerous references to the National Patient Safety Agency, which currently works at a British level. How will that agency co-ordinate its work in Wales? What will the Minister do to foster a vision within the agency which will create an atmosphere of learning through experience without apportioning blame? I agree in principle but when the number of complaints goes through the roof and when a revised complaints procedure insists that complaints be made in order to improve the procedure, how will the vision of learning without apportioning blame be reconciled with the reality of the health service?

As a result of that, there are the recommendations concerning whistleblowers. They are always spoken of in glowing terms but the reality is that those who blow the whistle on injustices have an exceptionally difficult time after doing so. We remember the anaesthetist who blew the whistle in Bristol, where children were dying after heart surgery. That anaesthetist is now working in

anesthetydd hwnnw yn awr yn gweithio yn Awstralia—y fath ddiolch iddo am ei ddewrder. Yr wyf yn ymdrin â phobl yn awr sy'n dal i ddioddef yn y system oherwydd iddynt chwythu'r chwiban.

Erys sialens mewn gofal sylfaenol o ran staffio a chael adnoddau am hyfforddiant. Erys sialens drefniadol i sicrhau y caiff cynadleddau achosion eu cynnal ar amseroedd pan fo'r meddyg teulu yn gallu bod yn bresennol, nid ar yr amser mwyaf prysur fore dydd Llun.

Wrth gloi, nodaf fod yr adroddiad yn argymhell bod pob corff yn y gwasanaeth iechyd yn gallu cydlynu â'r Comisiynydd Plant. Erys sialens ddifrifol i bawb wrth geisio gwireddu argymhellion clodwiw Carlile, sef eu gwireddu mewn system sydd eisoes o dan lawer o straen. Yn olaf, mae tyndra, pwysau a diffygion o ran staff ac adnoddau ar bob llaw. Rhaid gwireddu'r dyheadau yma er mwyn sicrhau cyfiawnder i'n plant a'n pobl ifanc.

Kirsty Williams: I welcome the opportunity once again to discuss the review and the steps that the Welsh Assembly Government intends to take to protect children and make their needs central to paediatric services in Wales.

The Minister for Health and Social Services should be congratulated on setting up this review. However, the key to this report is ensuring that the recommendations are implemented. It is welcome that, in most cases, the Minister has accepted the recommendations made by Lord Carlile and his team. However, one must distinguish between those accepted in full and those accepted in principle. Some of the most vital recommendations rely on additional resources being made available. One of the report's underlying themes is the historic underspend and under-investment in children's health services in Wales, a record that compares poorly to that of England and one that mirrors the findings of the Waterhouse report on social services investment.

Australia—that was the thanks he got for his courage. I am currently dealing with people who are still suffering in the system because they blew the whistle.

Providing adequate staffing levels and training resources remains a challenge within the primary care sector. A procedural challenge remains to ensure that case conferences are held at times when the general practitioner can be present, not at the most hectic time on a Monday morning.

To conclude, I note that the report recommends that every body in the health service be able to co-ordinate with the Children's Commissioner. A serious challenge remains for everyone in trying to implement the praiseworthy recommendations of the Carlile report, namely to realise them in a system that is already under great pressure. Finally, there is tension, pressure and deficiencies in terms of staff and resources throughout the health service. We must realise these aspirations to ensure justice for our children and young people.

Kirsty Williams: Croesawaf y cyfle unwaith eto i drafod yr adolygiad a'r camau y bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i amddiffyn plant a sicrhau bod eu hanghenion yn ganolog i wasanaethau pediatregol yng Nghymru.

Dylid llongyfarch y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am sefydlu'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, yr allwedd i'r adroddiad hwn yw sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion. Croesewir y ffaith fod y Gweinidog, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi derbyn argymhellion yr Arglwydd Carlile a'i dîm. Fodd bynnag, rhaid gwahaniaethu rhwng y rhai a dderbyniwyd yn llawn a'r rhai a dderbyniwyd mewn egwyddor. Mae rhai o'r argymhellion mwyaf hanfodol yn dibynnu ar ddarparu adnoddau ychwanegol. Un o themâu sylfaenol yr adroddiad yw'r hanes o danwario a thanfuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd plant yng Nghymru, record sy'n cymharu'n wael â Lloegr ac un sy'n adlewyrchu canfyddiadau adroddiad Waterhouse ar fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol.

The funding issue cannot be dodged. The opportunity presented by potential public funding increases and the comprehensive spending review should not be missed. To fail in this regard will not see the development of the advocacy services that the report recommends or the complaints officers, for instance. The report's sub-heading is 'Too Serious a Thing'. That quotation from Charles Lamb perfectly illustrates an attitude that has persisted for too long, that children's services and needs are an appendage to those of adults. It is not appropriate to treat children as miniature adults. Services, and those that deliver them, must be child-centred and administered by those with specific training. As always with the NHS, human resources matters are challenging and central. The report repeatedly points to critical staff shortages, in terms of paediatricians, children's nurses, speech therapists, and so on.

We need to continue to build on the work of the Clothier report, and the Government needs to ensure that it has an accurate picture of the shortages of children's health professionals and in access to post-basic training, and earmark funding for this. I am concerned that the Minister go that extra mile regarding recommendation 53 on allied health professionals, recommendation 45 on children's nursing, and recommendation 126 on children's and adult mental health services. As part of our workforce planning we must encourage training in children's services and create attractive career pathways in hospital and community settings.

The report, and others before it, such as the Bristol report, make it clear that services for children should be delivered by specialists, not generalists. The Welsh Assembly Government must put in place plans to deliver this. It is not an ideal, but a necessity. Given the highlighted awareness of issues around clinical governance, combined with an increasingly litigious society, the Government will have to act. The report also illustrates the urgent need to see the swift completion and realisation of the children's national service framework and to address

Ni ellir osgoi cwestiwn cyllido. Ni ddylid colli'r cyfle a gyflwynir gan godiadau posibl mewn arian cyhoeddus a'r adolygiad gwariant cynhwysfawr. Os methir yn hyn o beth, ni welir datblygu'r gwasanaethau eiriolaeth a argymhellir gan yr adroddiad, na'r swyddogion cwynion, er enghraifft. Is-bennawd yr adroddiad yw 'Peth Rhy Ddifrifol'. Mae'r dyfyniad hwnnw o eiriau Charles Lamb yn rhoi darlun perffaith o agwedd sy'n bodoli ers gormod o amser, sef bod gwasanaethau ac anghenion plant yn atodiad i rai oedolion. Nid yw'n briodol trin plant fel oedolion bychain. Rhaid i wasanaethau, a'r sawl sy'n eu darparu, ganolbwyntio ar blant a chael eu gweinyddu gan bobl â hyfforddiant penodol. Fel bob amser gyda'r GIG, mae materion adnoddau dynol yn heriol ac yn ganolog. Mae'r adroddiad yn pwyntio dro ar ôl tro at ddiffygion staff critigol, o ran pediatregwyr, nyrsys plant, therapyddion lleferydd, ac ati.

Mae angen inni barhau i adeiladu ar waith adroddiad Clothier, ac mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod ganddi ddarlun cywir o'r prinder gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd plant, ac o ran mynediad at hyfforddiant ôl-sylfaenol, a chlustnodi arian ar gyfer hyn. Yr wyf yn awyddus i'r Gweinidog fynd y filltir ychwanegol ynghylch argymhelliad 53 ar weithwyr iechyd proffesiynol cynghreiriol, argymhelliad 45 ar nyrsio plant, ac argymhelliad 126 ar wasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion. Fel rhan o'n gwaith cynllunio gweithlu rhaid inni annog hyfforddiant mewn gwasanaethau plant a chreu llwybrau gyrfa deniadol mewn ysbytai ac yn y gymuned.

Dywed yr adroddiad, ac eraill o'i flaen fel adroddiad Bryste, yn glir y dylid darparu gwasanaethau i blant gan arbenigwyr, nid cyffredinolwyr. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu cynlluniau i wireddu hyn. Nid delfryd ydyw, ond anghenraid. Gyda'r ymwybyddiaeth a danlinellwyd o faterion ynghylch rheolaeth glinigol, ynghyd â chymdeithas sy'n fwyfwy tueddol o gyfreitha, rhaid i'r Llywodraeth weithredu. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos yr angen dybryd i weld cwblhau a gwireddu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant

deficits in services, in particular, children and adolescent mental health services, school nursing, paediatric surgery, high dependency care, and neo-natal intensive care. The review team recognised that an improvement in child and adolescent mental health services should be a priority. It was the activities at Gwynfa residential clinic that influenced and realised this report. Those services must be a priority, especially for young mental health patients needing high dependency or intensive in-patient care. The units that are currently available are at risk of being geographically, socially and professionally isolated. Too many patients that fall inside this category are treated outside Wales.

Finally, the report recommends the appointment of a director of children's health services. The Minister was minded to act on this before the publication of the Carlile report in her response to the Bristol inquiry. I apologise to the Minister if I should know when this appointment will be filled, but when we will have the strategic leadership that is so desperately needed to deliver this report?

3:40 p.m.

Ann Jones: Like previous speakers, I welcome the report and the Government's response. One of the most disturbing aspects to emerge from the Waterhouse report was the systematic failure to listen to complaints from children and young people at the time. Even when appropriate systems are in place, children and young people can still find articulating their concerns difficult. That is why advocacy services have such a key role to play. The Children's Commissioner represents a great step forward and shows the commitment in Wales to leading the way in ensuring the best possible safeguards for vulnerable children and young people. However, the commissioner cannot do it all on his own. We must also ensure a full and accessible network of local advocacy services in communities across Wales. Last year, this network suffered a severe blow when, out of the blue, the Children's Society announced

ac i wneud rhywbeth am ddiffygion mewn gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, nyrsys ysgol, llawfeddygaeth bediatrig, gofal dibyniaeth uchel a gofal dwys i'r newydd-anedig. Cydnabu tîm yr adolygiad y dylai gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc fod yn flaenoriaeth. Yr hyn a ddigwyddodd yng nghlinig preswyl Gwynfa a ddylanwadodd ac a esgorodd ar yr adroddiad hwn. Rhaid i'r gwasanaethau hynny fod yn flaenoriaeth, yn enwedig i gleifion iechyd meddwl ifanc sydd angen gofal claf mewnol dwys neu ddibyniaeth uchel. Mae'r unedau sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perygl o fod wedi'u hynysu yn ddaearyddol, yn gymdeithasol ac yn broffesiynol. Mae gormod o gleifion sydd yn y categori hwn yn cael eu trin y tu allan i Gymru.

Yn olaf, argymhella'r adroddiad y dylid penodi cyfarwyddwr gwasanaethau iechyd plant. Yr oedd y Gweinidog yn awyddus i weithredu ar hyn cyn cyhoeddi adroddiad Carlile yn ei hymateb i ymchwiliad Bryste. Ymddiheuraf i'r Gweinidog os dylwn wybod pa bryd y llenwir y swydd hon, ond pa bryd y cawn yr arweiniad strategol y mae cymaint o angen amdano i wireddu'r adroddiad hwn?

Ann Jones: Fel y siaradwyr blaenorol, croesawaf yr adroddiad ac ymateb y Llywodraeth. Un o'r agweddau mwyaf pryderus i ddod allan o adroddiad Waterhouse oedd y methiant parhaol i wrando ar gwynion plant a phobl ifanc ar y pryd. Hyd yn oed pan fo systemau priodol yn eu lle, gall plant a phobl ifanc ddal i'w chael yn anodd lleisio'u pryderon. Dyna pam y mae gan wasanaethau eiriolaeth rôl mor allweddol i'w chwarae. Mae'r Comisiynydd Plant yn gam mawr ymlaen ac yn dangos yr ymrwymiad yng Nghymru i arwain y ffordd i sicrhau'r mesurau diogelu gorau posibl i blant a phobl ifanc ddiniwed. Er hynny, ni all y comisiynydd wneud popeth ar ei ben ei hun. Rhaid inni hefyd sicrhau rhwydwaith llawn a hygyrch o wasanaethau eiriolaeth lleol mewn cymunedau ledled Cymru. Y llynedd, cafodd y rhwydwaith hwn ergyd drom pan gyhoeddodd Cymdeithas y Plant,

its intention to close down the advocacy services that it was running across Wales. Its disgraceful decision to withdraw from Wales, without consulting the Assembly, its partners in local government, the Church in Wales or its own staff, was a kick in the teeth for those vulnerable children and young people who had nowhere else to turn for support and representation. The rest, as they say, is history.

However, I am pleased that we have been able to move forward for the benefit of all these young people, and I thank Jane for her involvement in ensuring that the Assembly will now cover shortfalls arising from the society's withdrawal to ensure that the advocacy projects will carry on for another year. During that time, I was particularly impressed by a group of young people who came to Cardiff to lobby the Assembly on behalf of the Bridgend Advocacy and Mediation Project. These people made a compelling case for the value of the advocacy service. It had guided them around the system and was helping them to express their views, to air their grievances and understand their rights. The overall message was that advocacy services are not about saying what is best for a child or a young person, but about helping them to say what they want to say.

The Assembly is committed to giving children and others who are easily marginalised in our society a stronger voice. We need to build a full range of advocacy services throughout our public services, particularly our care services. We need a national framework and a proper strategy for developing advocacy in Wales. It is too important to be provided on the piecemeal basis that we have seen to date. We need to build a secure platform for funding advocacy services so that we can allow independent providers—mainly from the voluntary sector—to plan, integrate and publicise them properly. Experience shows that this can only be done on an all-Wales basis.

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I thank colleagues for welcoming the Welsh Assembly

yn ddirybudd, ei bwriad i gau'r gwasanaethau eiriolaeth yr oedd yn eu rhedeg ledled Cymru. Yr oedd ei phenderfyniad gwarthus i dynnu allan o Gymru, heb ymgynghori â'r Cynulliad, ei phartneriaid mewn llywodraeth leol, yr Eglwys yng Nghymru na'i staff ei hun, yn dro gwael â'r plant a phobl ifanc ddiniwed oedd heb unlle arall i droi am gymorth a chynrychiolaeth. Fel y dywedant, hanes yw'r gweddill.

Er hynny, yr wyf yn falch ein bod wedi gallu symud ymlaen er budd yr holl bobl ifanc hyn, a diolchaf i Jane am ei gwaith wrth sicrhau y bydd y Cynulliad bellach yn llenwi bylchau sy'n codi o ddiflaniad y gymdeithas er mwyn sicrhau yr aiff y prosiectau eiriolaeth yn eu blaen am flwyddyn arall. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwnaethpwyd argraff arbennig arnaf gan grŵp o bobl ifanc a ddaeth i Gaerdydd i lobïo'r Cynulliad ar ran Prosiect Eiriolaeth a Chyfyngu Pen-y-bont ar Ogwr. Gwnaeth y bobl hyn achos cryf dros werth y gwasanaeth eiriolaeth. Yr oedd wedi'u tywys hwy o gwmpas y system ac yr oedd yn eu helpu i fynegi eu barn, lleisio'u cwynion a deall eu hawliau. Y neges gyffredinol oedd nad pwrpas gwasanaethau eiriolaeth yw dweud beth sydd orau i blentyn neu berson ifanc, ond eu helpu i ddweud yr hyn y mae arnynt eisiau ei ddweud.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i roi llais cryfach i blant ac eraill a gaiff eu gwthio i mylon ein cymdeithas yn hawdd. Mae angen inni adeiladu amrediad llawn o wasanaethau eiriolaeth drwy'n holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ein gwasanaethau gofal. Mae angen fframwaith cenedlaethol a strategaeth go iawn ar gyfer datblygu eiriolaeth yng Nghymru. Mae'n rhy bwysig i'w darparu yn y modd tameidiog a welwyd hyd yma. Mae angen adeiladu llwyfan gadarn ar gyfer ariannu gwasanaethau eiriolaeth fel y gallwn ganiatáu i ddarparwyr annibynnol—o'r sector gwirfoddol yn bennaf—eu cynllunio, eu hintegreiddio a rhoi cyhoeddusrwydd iawn iddynt. Dengys profiad mai dim ond ar sail Cymru gyfan y gellir gwneud hyn.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Diolchaf i gyd-Aelodau am groesawu ymateb Llywodraeth

Government's response and for your considered views. As you say, Dai, this is a massive challenge and agenda, which I have accepted. I have accepted all recommendations in principle and much work is already being done. David, I did not wish to be partisan, but it is important for people to know that the Health and Social Services Committee has discussed this, and has directly benefited from Lord Carlile's presence in the Committee to discuss the report shortly after it was launched. The point that I tried to make was that this should not only be linked to the review of children with special health needs. It relates to all children who come into contact with the health service. I am sure that the Committee will want to consider it again and monitor my progress in terms of responding to the recommendations—

David Melding: I believe that the Minister is embarrassed. I do not believe for a minute that the policy that her Government has adopted is her style. However, the Committee should consider it further because it is important for people to know, as you said. We had a full, in depth and excellent Committee discussion, which demonstrated working in a cross-party way in the best possible manner. It is disappointing that such a helpful amendment does not have the Government's support.

Jane Hutt: I have given a helpful response to this debate and to your amendment, and I hope that you will accept it in the spirit in which it is intended. I will regularly report on progress to the Committee. I announced last November, Kirsty, that I would appoint a director of children's health services. That appointment will be made in the coming months, but we have already made progress on the children's national service framework. We have appointed a project director and two weeks ago, I attended an excellent symposium of over 200 people. It was a joint professional forum where we started the process of developing the children's national service framework for Wales and learned from the work that had already been done in England. It is clear that the director for children's health services will come on board to the Assembly as part of our NHS implementation plan, 'Improving Health in

Cynulliad Cymru ac am eich sylwadau ystyriol. Fel y dywedwch, Dai, mae hon yn her enfawr ac yn agenda enfawr yr wyf wedi'i derbyn. Yr wyf wedi derbyn yr holl argymhellion mewn egwyddor ac mae llawer o waith yn cael ei wneud yn barod. David, nid oeddwn am fod yn ddallbleidiol, ond mae'n bwysig i bobl wybod fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi trafod hyn, ac wedi elwa'n uniongyrchol ar bresenoldeb yr Arglwydd Carlile yn y Pwyllgor i drafod yr adroddiad ychydig wedi ei lansio. Y pwynt y ceisiais i ei wneud oedd na ddylid cyfyngu hyn i'r adolygiad o blant ag anghenion iechyd arbennig. Mae'n ymwneud â'r holl blant a ddaw i gysylltiad â'r gwasanaeth iechyd. Yr wyf yn siŵr y bydd y Pwyllgor yn dymuno'i ystyried eto a monitro'r hyn a gyflawnaf o ran ymateb i'r argymhellion—

David Melding: Credaf fod y Gweinidog yn teimlo'n annifyr. Ni chredaf am funud mai ei steil hi yw'r polisi y mae ei Llywodraeth wedi'i fabwysiadu. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor ei ystyried ymhellach oherwydd y mae'n bwysig i bobl gael gwybod, fel y dywedaso. Cawsom drafodaeth lawn, ardderchog, ddofn yn y Pwyllgor, a oedd yn dangos cydweithio trawsbleidiol yn y modd gorau posibl. Mae'n drueni nad yw gwelliant mor fuddiol yn cael cefnogaeth y Llywodraeth.

Jane Hutt: Yr wyf wedi rhoi ymateb a fydd o gymorth i'r ddadl hon ac i'ch gwelliant, a gobeithiaf y derbyniwch hynny yn yr ysbryd y'i bwriedir. Byddaf yn adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pwyllgor. Cyhoeddais fis Tachwedd diwethaf, Kirsty, y byddwn yn penodi cyfarwyddwr gwasanaethau iechyd plant. Gwneir y penodiad hwnnw yn y misoedd sydd i ddod, ond yr ydym eisoes wedi camu ymlaen gyda'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant. Yr ydym wedi penodi cyfarwyddwr prosiect a, bythefnos yn ôl, euthum i gylch trafod gwych gyda thros 200 o bobl. Yr oedd yn fforwm ar y cyd i'r proffesiynau lle dechreuasom y broses o ddatblygu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant Cymru, gan ddysgu oddi wrth y gwaith a wnaethpwyd eisoes yn Lloegr. Mae'n glir y bydd y cyfarwyddwr gwasanaethau iechyd plant yn ymuno â ni yn y Cynulliad fel rhan

Wales', and as a response to the Bristol heart inquiry and the Carlile report. That will be an important appointment, as David, Dai and Val said. I am glad that you all welcome the increase in training that I announced. The 21 per cent increase in training children's nurses is vital. As Val said, it will give a great boost to morale. It means more commitments from higher education, which must play its part in taking this forward. David, Dai and Kirsty talked of the importance of school nurses. I am sure that will be recognised when we consider recommendations arising from our Committee review and increase training. Kirsty's point about career paths was important. We must improve the status of those who work with children in the NHS. That is key.

As you said, Dai, the role of general practitioners is important. They need the time, support and training to enable them to participate in those important case conferences. I am pleased to say—as stated in my response to the Carlile report—that the General Practitioners Committee of the British Medical Association is meeting shortly to discuss and consider all the recommendations that relate to general practice. Our area child protection committees and the Centre for Health Leadership Wales are keenly involved in the training expectations that we now expect for so many of our professionals who work with children, but who have not had the benefit of specific specialist paediatric support and training.

We must consider carefully, Dai, as you say, complaints officers and children's advocates, which are recommended in this report. We have done much work in Committee in terms of piloting our pathfinder schemes whereby we consider patient support officers and whereby advocates are working with our community health councils and our local health groups. We must ensure that we look holistically at how we approach complaints and the need for complainants to have a simple and straightforward complaints system. In terms of advocacy, Ann drew attention to the Children's Society's work. I

o'n cynllun gweithredu'r GIG, 'Gwella Iechyd yng Nghymru', ac fel ymateb i ymchwiliad achosion calon Bryste ac adroddiad Carlile. Bydd hwnnw'n benodiad pwysig, fel y dywedodd David, Dai a Val. Yr wyf yn falch eich bod i gyd yn croesawu'r cynnydd mewn hyfforddiant a gyhoeddais. Mae'r cynnydd o 21 y cant mewn hyfforddiant i nyrsys plant yn hanfodol. Fel y dywedodd Val, bydd yn rhoi hwb mawr i'r ysbryd. Mae'n golygu mwy o ymrwymadau gan addysg uwch, y mae'n rhaid iddi chwarae ei rhan i fynd â hyn ymlaen. Soniodd David, Dai a Kirsty am bwysigrwydd nyrsys ysgol. Yr wyf yn siŵr y cydnabyddir hynny pan ystyriwn yr argymhellion yn codi o adolygiad ein Pwyllgor a chynyddu hyfforddiant. Yr oedd pwynt Kirsty am lwybrau gyrfa yn bwysig. Rhaid inni wella statws pobl sy'n gweithio gyda phlant yn y GIG. Mae hynny'n allweddol.

Fel y dywedaso, Dai, mae rôl meddygon teulu'n bwysig. Mae arnynt angen yr amser, y gefnogaeth a'r hyfforddiant i'w galluogi i gyfranogi yn y cynadleddau achos pwysig hynny. Mae'n dda gennyf ddweud—fel a nodir yn fy ymateb i adroddiad Carlile—fod Pwyllgor Meddygon Teulu'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig yn cyfarfod yn fuan i drafod ac ystyried yr holl argymhellion sy'n ymwneud â meddygaeth gyffredinol. Mae'n pwyllgorau amddiffyn plant lleol a Chanolfan Arweinyddiaeth Iechyd Cymru yn cyfrannu'n frwd at y disgwyliadau hyfforddi yr ydym bellach yn eu disgwyl gan gymaint o'n gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, ond sydd heb gael mantais cymorth a hyfforddiant pediatregol arbenigol.

Rhaid inni ystyried yn ofalus, Dai, fel y dywedwch, swyddogion cwynion ac eiriolwyr plant, a argymhellir yn yr adroddiad hwn. Yr ydym wedi gwneud llawer o waith yn y Pwyllgor o ran peilota'n cynlluniau agor llwybr lle'r ystyriwn swyddogion cefnogi cleifion a lle mae eiriolwyr yn gweithio gyda'n cynghorau iechyd cymuned a'n grwpiau iechyd lleol. Rhaid inni sicrhau ein bod yn edrych yn holistaidd ar y modd y deliwn â chwynion a'r angen i rai sy'n cwyno gael system gwynion syml a hawdd ei dilyn. O ran eiriolaeth, tynnodd Ann sylw at waith Cymdeithas y Plant. Diolch am eich

thank you for your remarks, Ann, and I pay tribute to you for the role that you played in highlighting the need for the Children's Society's services on every occasion. Last week, I announced to the Health and Social Services Committee that the Welsh Assembly Government is giving up to £200,000 to assist the Children's Society over the coming months, while attempts are made to set up a new organisation to take forward that important, independent advocacy service. However, I also said at the time that we must review all our advocacy services, recognising the importance of the independence of that advocacy. That will be across the health and social care divide to ensure that we are not talking about one system for local government and another for the NHS, but about working together and learning from the Carlile review and from the impact of the Children's Society's decisions and the way in which it tried to leave our children high and dry and vulnerable. We must learn from that in our advocacy review.

Dai mentioned the importance of whistle blowing and helping people to come forward. That is the responsibility which we all face in this Assembly in supporting this open culture. That is why we have a National Patient Safety Agency now. We need detailed procedures and protocols, which our professionals will have to abide by. We also know that you need support and training as a professional, which is why the whole culture change must be backed up with support. That needs investment as well as training, and we must learn from that.

Much has already been done, as I said. I am grateful for all the comments. Kirsty, as you say, this is a major challenge. It is not just a challenge for children's nurses; it is for all our allied professionals. Our child and adolescent mental health services strategy document, 'Everybody's Business', places itself firmly in the Carlile review, which shows us the way forward for our most vulnerable children. I will report back regularly to the Committee, and I am sure that the Carlile review will be recognised, not just in Wales, but in the rest of the United

sylwadau, Ann, a thalaf deyrnged ichi am y rhan a chwaraeoch o ran amlygu'r angen am wasanaethau Cymdeithas y Plant ar bob achlysur. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi hyd at £200,000 i gynorthwyo Cymdeithas y Plant dros y misoedd a ddaw, tra gwneir ymdrechion i sefydlu corff newydd i fwrw ymlaen â'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol pwysig hwnnw. Fodd bynnag, dywedais ar y pryd hefyd fod yn rhaid inni adolygu'n holl wasanaethau eiriolaeth, gan gydnabod pwysigrwydd annibyniaeth yr eiriolaeth honno. Bydd hynny'n croesi'r rhaniad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau nad ydym yn sôn am un system i lywodraeth leol ac un arall i'r GIG, ond am weithio gyda'n gilydd a dysgu oddi wrth adolygiad Carlile ac oddi wrth effaith penderfyniadau Cymdeithas y Plant a'r modd y ceisiodd adael ein plant yn ddiymgeledd ar y clwt. Rhaid inni ddysgu oddi wrth hynny yn ein hadolygiad ar eiriolaeth.

Soniodd Dai am bwysigrwydd chwythu'r chwiban a helpu pobl i ddod ymlaen. Dyna'r cyfrifoldeb a wyneba pawb ohonom yn y Cynulliad hwn wrth gefnogi'r diwylliant agored hwn. Dyna pam y mae gennym Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion erbyn hyn. Mae angen gweithdrefnau a phrotocolau manwl, y bydd yn rhaid i'n gweithwyr proffesiynol lynu wrthynt. Gwyddom hefyd fod angen cefnogaeth a hyfforddiant ar bobl broffesiynol, a dyna pam y mae'n rhaid ategu'r holl newid diwylliant drwy gynnig cefnogaeth. Mae hynny'n galw am fuddsoddiad yn ogystal â hyfforddi, a rhaid inni ddysgu oddi wrth hynny.

Mae llawer wedi'i wneud eisoes, fel y dywedais. Yr wyf yn ddiolchgar am yr holl sylwadau. Kirsty, fel y dywedwch, mae hon yn her fawr. Nid her i nyrsys plant yn unig mohoni; ond her i'n holl gydweithwyr proffesiynol. Mae'n dogfen strategaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, 'Busnes Pawb', yn gosod ei hun yn gadarn yn adolygiad Carlile sy'n dangos y ffordd ymlaen inni ar gyfer ein plant mwyaf bregus. Deuaf ag adroddiadau rheolaidd yn ôl i'r Pwyllgor, ac yr wyf yn siŵr y caiff adolygiad Carlile ei gydnabod, nid yn unig

Kingdom, and further afield, as a significant contribution to ensuring that we in Wales safeguard our most vulnerable children, namely, those cared for by the national health service.

yng Nghymru, ond yng ngweddill y Deyrnas Unedig a thu hwnt, fel cyfraniad arwyddocaol tuag at sicrhau ein bod ni yng Nghymru'n diogelu'n plant mwyaf bregus, sef y rhai y gofelir amdanynt gan y gwasanaeth iechyd gwladol.

3:50 p.m.

Gwelliant 1: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 29.

Amendment 1: For 18, Abstain 0, Against 29.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Graham, William
Jones, Elin
Jones, Gareth
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.

Cynnig: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 48, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew

Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

**Dadl Plaid Leiafrifol (Y Blaid Geidwadol)
 Minority Party Debate (The Conservative Party)**

**Polisi Trafnidiaeth Integredig
 Integrated Transport Policy**

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones and amendments 2, 3 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

David Davies: I propose that

David Davies: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales condemns the Welsh Assembly Government's failure to develop an integrated transport policy that benefits the whole of Wales. (NDM1032)

y Cynulliad Cenedlaethol yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisi trafndiaeth integredig sy'n dod â budd i Gymru gyfan. (NDM1032)

The last time that I spoke on transport, I concentrated on the botched confiscation of

Y tro diwethaf imi siarad ar drafndiaeth, canolbwyntiais ar y llanast a wnaethpwyd o

the railways and the chaos that it has caused. This time, I will concentrate on the lack of investment in our road network.

The Government's failure to implement a cohesive transport strategy has been largely overshadowed by rising hospital waiting lists, larger class sizes, the shambolic handling of the foot and mouth disease crisis, scandals involving money for access to Ministers, and the ongoing political Punch and Judy show between Gordon Brown and Tony Blair. It is not surprising, therefore, that the failure to implement a cohesive transport strategy is rarely at the top of the news agenda.

However, a good transport structure is vital to creating a sound economy. Here in Wales, where we rely particularly strongly on tourism, manufacturing and agriculture, the debilitating effects of an eroding transport system are even greater than they would be elsewhere in the United Kingdom.

The frustrating point about this failure to deliver on a manifesto commitment is that it is not simply down to money. Labour Ministers never stop telling us about how much extra money is sloshing around the country, but, for some reason, it never finds its way to the right places. Take the example of the M4 corridor around Newport and the Brynglas tunnels: any company thinking of investing in Wales would almost certainly be put off by the utter chaos every morning and evening around Newport. If it were possible to calculate how many hours were lost by people sitting in traffic jams every morning, the cost would probably run into billions of pounds.

If we consider Cardiff international airport, the fact that the capital city's airport has no rail link and no proper link to the motorway must mystify international travellers.

Alun Pugh: Do you accept that all the successful airports in Europe, such as Schipol, Copenhagen and Geneva, have

atafaelw'r rheilffyrdd a'r anhrefn a achosodd hynny. Y tro yma, canolbwyntiaf ar y diffyg buddsoddi yn ein rhwydwaith ffyrdd.

Rhodddwyd methiant y Llywodraeth i weithredu strategaeth drafndiaeth gydlynol yn y cysgod i raddau helaeth gan y cynnydd yn rhestrau aros ysbytai, meintiau dosbarthiadau mwy, y modd di-glem yr ymdriniwyd ag argyfwng clwy'r traed a'r genau, sgandals ynglŷn â thalu am gael mynediad at Weinidogion, a'r sioe 'Punch a Judy' gwleidyddol parhaus rhwng Gordon Brown a Tony Blair. Nid yw'n syndod, felly, nad yw'r methiant i weithredu strategaeth drafndiaeth gydlynol yn cyrraedd brig yr agenda newyddion yn aml.

Serch hynny, mae isadeiledd trafndiaeth da yn hanfodol i greu economi gadarn. Yma yng Nghymru, lle dibynnwn yn arbennig o drwm ar dwristiaeth, gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth, mae effeithiau gwanychol system drafndiaeth sy'n edwino yn fwy hyd yn oed nag a fyddent mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Y pwynt sy'n achosi rhwystredigaeth yn y methiant hwn i gyflawni un o ymrwymadau'r maniffesto yw nad arian yn unig yw'r broblem. Ni fydd Gweinidogion Llafur byth yn blino ar ddweud wrthym gymaint o arian ychwanegol sy'n nofio o gwmpas y wlad, ond, am ryw reswm, nid yw'r arian hwnnw byth yn cyrraedd y manau iawn. Cymerwch enghraifft coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd a thwneli Brynglas: byddai unrhyw gwmni sy'n meddwl am fuddsoddi yng Nghymru bron yn sicr yn cael ei droi i ffwrdd gan yr anhrefn llwyr bob bore a min nos o gwmpas Casnewydd. Pe bai modd cyfrifo faint o oriau a gollwyd wrth i bobl eistedd mewn tagfeydd traffig bob bore, mae'n debyg y byddai'n costio biliynau o bunnoedd.

Os ystyriwn faes awyr rhyngwladol Caerdydd, mae'n siŵr fod y ffaith nad oes gan faes awyr y brifddinas unrhyw gysylltiad rheilffordd na chysylltiad iawn â'r draffordd yn ddirgelwch i deithwyr rhyngwladol.

Alun Pugh: A dderbyniwch fod gan bob maes awyr llwyddiannus yn Ewrop, fel Schipol, Copenhagen a Genefa, gysylltiadau

excellent rail links, and that we cannot solve the problems of Cardiff airport by simply pouring concrete?

David Davies: I have not been to those airports, but I accept that creating a road alone would not be sufficient. I would be happy if the Government came forward with proposals for a rail link. There is money available; the Government has recently taken a decision to spend £20 million on a science fiction-style series of driverless pods, that run on a monorail between the Assembly building and Cardiff County Council's offices, which are about five minutes' walk up the road. That scheme has been condemned as wholly unworkable and yet the decision was made to go ahead based, it seems, on the advice of experts from Bristol University. Even the First Minister did not seem too sure about it because when I asked him about the scheme in the Chamber a few weeks ago, he did not deny that it was risky, but used words to the effect that we should be prepared to take a chance. I do not accept that. That £20 million does not belong to us; it is taxpayers' money. It has been allocated to the transport department for it to spend on improving transport across the whole of Wales for everyone living in Wales, which means building new bypasses, roads and rail links and upgrading and maintaining existing roads, which is noticeably not happening at the moment. To spend £20 million on what is basically going to be nothing more than a glorified funfair ride is a disgrace. If Rhodri Morgan and Sue Essex want to go on fairground rides, then let us all chip in and send them off to Barry Island for the day and we will spend that £20 million on schools and hospitals and other issues in Wales.

We must improve the north-south road link and the roads into west Wales. The bypass schemes that have been put on hold—allegedly due to lack of money—could be restarted immediately. While support for public transport is right and proper, it is about time that Labour and Plaid Cymru got over their blind hatred of the motor vehicle. I have already mentioned the daily chaos on the M4, but of course, the Labour council in Newport,

rheilffordd ardderchog, ac na allwn ddatrys problemau maes awyr Caerdydd dim ond drwy arllwys concret?

David Davies: Nid wyf wedi bod i'r meysydd awyr hynny, ond derbynaf na fyddai creu ffordd ar ei phen ei hun yn ddigon. Byddwn yn hapus pe bai'r Llywodraeth yn cyflwyno cynigion ar gyfer cysylltiad rheilffordd. Mae arian ar gael; penderfynodd y Llywodraeth yn ddiweddar wario £20 miliwn ar gyfres o gerbydau di-yrwr tebyg i greadigaethau ffuglen wyddonol, yn rhedeg ar fonoreilffordd rhwng adeilad y Cynulliad a swyddfeydd Cyngor Sir Caerdydd, sydd ryw bum munud o waith cerdded i fyny'r ffordd. Cafodd y cynllun hwnnw ei gondemnio fel un cwbl anymarferol ac eto fe benderfynwyd mynd ymlaen ag ef ar sail, mae'n debyg, cyngor arbenigwyr o Brifysgol Bryste. Nid oedd hyd yn oed y Prif Weinidog i'w weld yn rhy siŵr am y peth oherwydd pan holais ef am y cynllun yn y Siambr ychydig wythnosau'n ôl, ni wadodd ei fod yn risg, ond defnyddiodd eiriau i'r perwyl y dylem fod yn barod i gymryd siawns. Nid wyf yn derbyn hynny. Nid ni biau'r £20 miliwn hynny; arian y trethdalwyr ydyw. Mae wedi'i glustnodi i'r adran drafnidiaeth iddi ei wario i wella trafndiaeth ledled Cymru gyfan er mwyn pawb sy'n byw yng Nghymru, sy'n golygu adeiladu ffyrdd osgoi newydd, cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ac uwchraddio a chynnal ffyrdd presennol, rhywbeth y mae'n amlwg nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Mae gwario £20 miliwn ar rywbeth na fydd yn ddim mwy na reid ffair fawreddog yn y bôn yn gywilydd. Os yw Rhodri Morgan a Sue Essex eisiau mynd ar reidiau ffair, yna beth am inni i gyd fynd i'n pocedi a'u hanfon i Ynys y Barri am y dydd a chawn wario'r £20 miliwn ar ysgolion ac ysbytai a materion eraill yng Nghymru.

Rhaid inni wella'r ffordd sy'n cysylltu'r De a'r Gogledd a'r ffyrdd i'r Gorllewin. Gallai'r cynlluniau ffyrdd osgoi sydd wedi'u dal yn ôl—oherwydd diffyg arian, yn honedig—gael eu hailddechrau'n syth. Tra mai da o beth a phriodol yw cefnogi trafndiaeth gyhoeddus, mae'n hen bryd i Lafur a Phlaid Cymru roi heibio'u casineb dall tuag at y cerbyd modur. Yr wyf eisoes wedi sôn am yr anhrefn dyddiol ar yr M4, ond wrth gwrs, mae'r

following Assembly guidance, has increased the misery with a wholly inappropriate bus lane scheme that causes even more delays. Any bus lanes or traffic calming measures should be subject to a full audit and if they are not working properly, they should be scrapped.

One of the resounding successes of the golden Conservative years—[*Laughter.*] Yes, the years following the time when the Labour Chancellor of the Exchequer had to go cap in hand to the International Monetary Fund because the country was bankrupt. Following that, there was a huge rise in living standards that enabled many people to buy a car for the first time.

Rhodri Glyn Thomas: Do you see any link between road congestion and the number of cars that happen to be travelling on the roads?

David Davies: Obviously there is a connection, but there is also a third part to the equation, namely the amount of available road space on which they can travel and whether or not that road space has been properly planned, which is not the case at the moment. Of course there have been problems and there will be problems, but they will not be solved by trying to tax people and businesses off the roads. Pollution is caused by traffic jams and poorly maintained vehicles—

Lorraine Barrett: The innovative ULTra pod scheme will reduce pollution in the city and it is a cheaper option than having a rail or bus link.

David Davies: I do not accept that. It will be convenient for Assembly Members who want to get to the council offices and cannot be bothered to walk and for councillors who want to get to the Assembly. I cannot for a moment see how it will solve the problems that cause global warming.

Lorraine Barrett *rose*—

David Davies: I am not giving on way that again.

Building bypasses to prevent traffic jams in

cyngor Llafur yng Nghasnewydd, yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, wedi cynyddu'r digalondid gyda chynllun lonydd bysus cwbl amhriodol sy'n achosi mwy fyth o oedi. Dylai unrhyw lonydd bysus neu fesurau tawelu traffig orfod cael archwiliad llawn ac os nad ydynt yn gweithio'n iawn, dylid eu diddymu.

Un o lwyddiannau ysgubol oes aur y Ceidwadwyr—[*Chwerthin.*] Ie, y blynyddoedd ar ôl yr adeg pan fu raid i Ganghellor Llafur y Trysorlys fynd â'i gap yn ei law at y Gronfa Ariannol Ryngwladol am fod y wlad yn fethdalwr. Wedi hynny, cododd safonau byw'n aruthrol gan alluogi llawer o bobl i brynu car am y tro cyntaf.

Rhodri Glyn Thomas: A welwch chi unrhyw gysylltiad rhwng tagfeydd ar y ffyrdd a'r nifer o geir sy'n teithio ar y ffyrdd?

David Davies: Yn amlwg mae cysylltiad, ond mae trydedd ran i'r hafaliad hefyd, sef faint o arwynebedd ffyrdd sydd ar gael iddynt deithio arno ac a ydyw'r arwynebedd ffyrdd hwnnw wedi'i gynllunio'n iawn ai peidio: nid felly y mae ar hyn o bryd. Wrth gwrs fe fu problemau ac fe fydd problemau, ond ni chânt eu datrys drwy geisio trethu pobl a busnesau oddi ar y ffyrdd. Achosir llygredd gan dagfeydd traffig a cherbydau mewn cyflwr gwael—

Lorraine Barrett: Bydd cynllun arloesol y cerbyd tehnoleg uwch ULTra yn lleihau llygredd yn y ddinas ac mae'n ddewis rhatach na chael cyswllt rheilffordd neu fws.

David Davies: Nid wyf yn derbyn hynny. Bydd yn gyfleus i Aelodau'r Cynulliad sydd eisiau mynd i swyddfeydd y cyngor ac nad oes ganddynt amynedd cerdded, ac i gynghorwyr sydd eisiau dod i'r Cynulliad. Ni allaf am eiliad weld sut y gwnaiff ddatrys y problemau sy'n achosi cynhesu byd-eang.

Lorraine Barrett *a gododd*—

David Davies: Nid wyf yn ildio ar hyn eto.

Byddai adeiladu ffyrdd osgoi i atal tagfeydd

towns and cracking down on the irresponsible minority—and we all know where you can find many of them—who blatantly flout vehicle regulations would do far more to help counter global warming than any number of initiatives that simply penalise people for getting behind the wheel of their car.

Public transport should be offered as an alternative to consumers and if what is on offer is good, people will use it willingly. In no way should we be forcing people out of their cars. On that point I am happy to give way to the Liberals, who are the biggest villains of all on this.

Peter Black: I think you mean the Liberal Democrats, David. Do you accept that the deregulation of buses in 1985 and the privatisation of the railways caused the most public transport chaos in this country?

David Davies: I do not accept that, because the deregulation of buses led to improved bus services and the privatisation of the railways took place two years or so before the Conservatives left office. The Labour Party has had five years to put right some of the initial difficulties, but has done nothing about them. Its only answer has been to run the railways down, to admit that they have got worse and to come up with some sort of botched re-nationalisation plan.

Eleanor Burnham: How could anyone have put it right? It was such an absolute—dare I say it again—cock-up. Privatisation of the railways was an absolute farce. You have some cheek to stand and make these comments.

David Davies: With the utmost respect to my colleague from north Wales, who I suspect may be a few years older than I, though she does not look it—[*Laughter.*] She will no doubt recall, as I do, that British Rail was a standing joke, and that it could not have possibly have got any worse under privatisation than it was when it was a nationalised industry.

Mae'n anodd annog busnesau i ddod i Gymru

traffig mewn trefi a chosbi'r lleiafrif anghyfrifol—a gwyddom i gyd ymhle y gallwch ddod o hyd i lawer ohonynt—sy'n diystyru rheoliadau cerbydau mewn modd digywilydd yn gwneud llawer mwy i helpu gwrthweithio cynhesu byd-eang nag unrhyw nifer o gynlluniau sy'n gwneud dim mwy na chosbi pobl am eistedd y tu ôl i lyw eu car.

Dylid cynnig cludiant cyhoeddus fel dewis arall i bobl ac os yw'r hyn a gynigir yn dda, bydd pobl yn ei ddefnyddio o'u gwirfodd. Ni ddylem ar unrhyw gyfrif orfodi pobl allan o'u ceir. Ar y pwynt hwnnw yr wyf yn hapus i ildio i'r Rhyddfrydwyr, sef y dihirod mwyaf oll yn hyn.

Peter Black: Yr wyf yn meddwl mai'r Democratiaid Rhyddfrydol a olygwch, David. A dderbyniwch mai dadreoleiddio'r bysus yn 1985 a phreifateiddio'r rheilffyrdd a achosodd yr anhrefn mwyaf yn nhrefnidiaeth gyhoeddus y wlad hon?

David Davies: Nid wyf yn derbyn hynny, oherwydd arweiniodd dadreoleiddio'r bysus at well gwasanaethau bysus a phreifateiddiwyd y rheilffyrdd ryw ddwy flynedd cyn i'r Ceidwadwyr adael y llywodraeth. Mae'r Blaid Lafur wedi cael pum mlynedd i gywiro rhai o'r anawsterau cychwynnol, ond nid yw wedi gwneud dim amdanynt. Ei hunig ateb fu rhedeg y rheilffyrdd i lawr, cyfaddef eu bod wedi mynd yn waeth a chynnig rhyw fath o gynllun ailwladoli carbwl.

Eleanor Burnham: Sut allai neb fod wedi'i gywiro? Yr oedd yn gymaint o—feiddiaf i ddweud hyn eto—smonach llwyr. Yr oedd preifateiddio'r rheilffyrdd yn ffars llwyr. Mae gennych dipyn o wyneb i sefyll a gwneud y sylwadau hyn.

David Davies: Gyda'r parch mwyaf i'm cyd-Aelod o'r Gogledd, sydd efallai, yr wyf yn amau, ychydig o flynyddoedd yn hŷn na mi, er nad yw'n edrych felly—[*Chwerthin.*] Diau y bydd hi'n cofio, fel y cofiaf fi, fod Y Rheilffyrdd Prydeinig yn jôc reolaidd, ac na allasai fynd yn ddim gwaeth o gwbl dan breifateiddio nag yr oedd pan oedd yn ddiwydiant wedi'i wladoli.

It is difficult to encourage businesses to come

tra bo'n system drafnidiaeth mor anobeithiol. Mae llawer o broblemau ond mae'r Llywodraeth yn gwastraffu ein harian. Galwn ar y Llywodraeth i wneud rhywbeth positif heddiw. Diddymwch y monorheilffordd a gwariwch yr £20 miliwn ar faterion sydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru.

to Wales when our transport system is so poor. There are many problems but the Government wastes our money. We call on the Government to do something positive today. Cancel the monorail and spend the £20 million on matters that are relevant to everyone in Wales.

04:00 p.m.

The Minister for Environment (Sue Essex): I propose amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all after 'the National Assembly for Wales' and replace with:

supports the Welsh Assembly Government's transport framework published in November 2001 which sets out a comprehensive vision and strategy for developing integrated transport throughout Wales, and was endorsed by the Environment, Planning and Transport Committee following extensive consultation.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Cynigiau welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu'r cyfan ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi:

yn cefnogi fframwaith trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 sy'n nodi gweledigaeth a strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu trafndiaeth integredig ledled Cymru, ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ôl ymgynghori'n eang.

Where do you start after that speech? David talked about going to Barry funfair; listening to that was like going into the house of horrors. As for the 'golden Conservative years', well, they are long gone, if they ever existed, David. They may have existed in your dreams, but in terms of transport, the legacy that they left us was a complete nightmare. I am amazed that someone who has sat on the Environment, Planning and Transport Committee, week in, week out—actually, you are not always there, but when you are, you will hear what we do—can say that we need a rail connection to the airport. We have planned that—we have put the money in, and we have started on the connection. Where have you been that you do not know those things?

Ble mae dechrau ar ôl y fath araith? Soniodd David am fynd i ffair y Barri; yr oedd gwrandio ar ei lith fel mynd i'r 'siambr arswyd'. Ac am 'oes aur y Ceidwadwyr', wel, diflannodd honno ers talwm, os bu erioed, David. Efallai iddi fodoli yn eich breuddwydion, ond yn nhermau trafndiaeth, yr hyn a adawodd inni oedd hunllef bur. Yr wyf yn rhyfeddu bod rhywun sydd wedi eistedd ar Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, wythnos ar ôl wythnos—â dweud y gwir, nid ydych yno bob tro, ond pan fyddwch yno, fe glywch yr un peth â ni—yn gallu dweud bod arnom angen cysylltiad rheilffordd â'r maes awyr. Yr ydym wedi cynllunio hynny—yr ydym wedi rhoi'r arian i mewn, ac yr ydym wedi dechrau ar y cysylltiad. Ble'r ydych chi wedi bod nad ydych yn gwybod y pethau hyn?

David Davies: I do not have a problem with the rail link; I do not think that I said anything to suggest that I do. I am just suggesting to you that a road link to the M4 would not be a bad idea either.

David Davies: Nid oes gennyf broblem gyda'r cysylltiad rheilffordd; nid wyf yn meddwl y dywedais unrhyw beth i awgrymu hynny. Dim ond awgrymu ichi yr wyf na fyddai cysylltiad ffordd â'r M4 ddim yn syniad drwg ychwaith.

Sue Essex: What you seem to have ignored in your speech is everything that we have done in the last two years, which I will cover.

Sue Essex: Yr hyn yr ymddengys eich bod wedi'i anwybyddu yn eich araith yw popeth yr ydym wedi'i wneud yn y ddwy flynedd

We will go over it again just to ensure that you know about it. I am surprised that you have had to fall back on this topic for a minority debate. It shows how bereft you are of ideas and how little you have to offer. There is no doubt that the Assembly has made a difference, both here and in the Environment, Planning and Transport Committee, to whose work I pay tribute. Perhaps Conservatives do not read *The Western Mail*; last year, when it examined what had happened since devolution, it particularly recognised the change in transport.

I will list some things that we have done. We have made progress in adopting new policies, changing grant regimes, and creating new working arrangements with partners—and I stress our work with partners. I will discuss these in more detail. First, the transport grant. This is the money that we give to local authorities to fund integrated packages, often with them working as partners. We have announced transport projects of around £430 million starting over the next five years. They include bypass schemes, such as those for Cwm in Blaenau Gwent, Church Village, the lower Rhondda, Bargoed, Llandysul, work on the Neath peripheral distributor road and schemes in Gwynedd and Wrexham, all of which will improve integration on the ground.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Sue Essex: If I give way, will I be penalised on time?

The Deputy Presiding Officer: No, you will get an extension.

Rhodri Glyn Thomas: Sue, you referred to bypass schemes. Do you accept the need for a bypass scheme for Llandeilo? The majority of the population supports this enthusiastically. Is there any hope of seeing that bypass within the next 10 years?

Sue Essex: I agree that something must be done to take out the heavy traffic going through the centre of Llandeilo. I am happy

diwethaf, yr af drostynt yn awr. Awn dros y rhestr eto dim ond er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod amdani. Yr wyf yn synnu eich bod wedi gorfod syrthio'n ôl ar y pwnc hwn am ddadl leiafrifol. Mae'n dangos mor brin yr ydych o syniadau a chyn lleied sydd gennych i'w gynnig. Nid oes amheuaeth nad yw'r Cynulliad wedi gwneud gwahaniaeth, yma ac ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, y rhoddaf deyrnged i'w waith. Efallai nad yw'r Ceidwadwyr yn darllen *The Western Mail*; y llynedd, pan edrychodd ar beth oedd wedi digwydd ers datganoli, rhoddodd gydnabyddiaeth arbennig i'r newidiadau ym maes trafniadaeth.

Rhestraf rai o'r pethau yr ydym wedi'u gwneud. Yr ydym wedi symud ymlaen i fabwysiadu polisiau newydd, newid systemau grant, a chreu trefniadau gweithio newydd gyda phartneriaid—a phwysleisiaf ein gwaith gyda phartneriaid. Manylaf ar y rhain. Yn gyntaf, y grant trafniadaeth. Dyma'r arian a roddwn i'r awdurdodau lleol i ariannu pecynnau integredig, yn aml â hwy'n gweithio fel partneriaid. Yr ydym wedi cyhoeddi prosiectau trafniadaeth o oddeutu £430 miliwn i ddechrau dros y pum mlynedd nesaf. Maent yn cynnwys cynlluniau ffyrdd osgoi, fel y rhai ar gyfer y Cwm ym Mlaenau Gwent, Gartholwg, Rhondda isaf, Bargoed, Llandysul, gwaith ar ffordd ddsbarthu ymylol Castell-nedd a chynlluniau yng Ngwynedd a Wrexham, y bydd pob un ohonynt yn gwella integreiddio ar y ddaear.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Sue Essex: Os ildiaf, a gaf fy nghosbi o ran amser?

Y Dirprwy Lywydd: Na, fe gewch estyniad.

Rhodri Glyn Thomas: Sue, cyfeiriasoch at gynlluniau ffyrdd osgoi. A ydych yn derbyn yr angen am ffordd osgoi i Llandeilo? Mae mwyafrif y boblogaeth yn frwd o blaid hynny. A oes unrhyw obaith o weld y ffordd osgoi honno o fewn y 10 mlynedd nesaf?

Sue Essex: Cytunaf fod rhaid gwneud rhywbeth i dynnu'r traffig trwm o ganol Llandeilo. Yr wyf yn hapus i gwrdd â chi ac

to meet again with you and others, as I think that extra work will be undertaken with Carmarthenshire County Council to seek a solution there. We have a difficulty with the previously proposed solution. However, that is part of a whole programme of bypasses that need to go forward.

Tomorrow, at Haverfordwest station, a new bus and rail interchange is opening. That is delivering—

Alun Cairns *rose*—

Sue Essex: I will not give way again as I will not have time to get through this, Alun. I have done David and Rhodri Glyn— [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’] Not literally, of course, though it is a tempting prospect at times when it comes to David Davies.

However, a new bus and rail interchange at Haverfordwest station shows again the commitment to integrated transport. There is a huge number of schemes—and I would be here for a long time if I went through the whole list, which includes real time information, smart card technology and integrated cycle routes. These are the bread and butter schemes, David, not the prestige schemes, which we are delivering through the funding packages with our partners.

Owen John Thomas *rose*—

Sue Essex: I do not have time, Owen, and I am sure that you will have your chance.

The Deputy Presiding Officer: Order. You are not getting help from me, Owen. The Minister is not giving way.

Sue Essex: I am sure that he does not need it. As I do not have time, I will discuss it with you afterwards, Owen.

The safe routes to schools programme was introduced in 1999. David omitted to mention this scheme. Every local authority—except Anglesey, which has not applied—has benefited from this scheme. This year I have allocated a £2.7 million soft grant for this scheme. The national cycle network says that Wales leads the way on this issue. I recently opened the Duffryn High School scheme in

eraill, gan fy mod yn meddwl y gwneir gwaith ychwanegol gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin i geisio ateb yn y fan honno. Mae gennym anhawster gyda'r ateb a gynigiwyd o'r blaen. Fodd bynnag, mae honno'n rhan o raglen gyfan o ffyrdd osgoi sydd angen symud ymlaen.

Yfory, yng ngorsaf Hwlfordd, bydd cyfnewidfa bws a thrên newydd yn agor. Dyna beth yw cyflawni—

Alun Cairns *a gododd*—

Sue Essex: Ni wnaf ildio eto gan na fydd gennyf amser i fynd drwy hyn, Alun. Yr wyf wedi gwneud David a Rhodri Glyn— [AELODAU'R CYNULLIAD: ‘O.’] Nid yn llythrennol, wrth gwrs, er bod hynny'n demtasiwn weithiau yn achos David Davies.

Beth bynnag, mae cyfnewidfa bws a thrên newydd yng ngorsaf Hwlfordd yn dangos eto yr ymrwymiad i drafnidiaeth integredig. Mae nifer aruthrol o gynlluniau—a byddwn yma am amser maith pe awn drwy'r rhestr gyfan, sy'n cynnwys gwybodaeth amser real, technoleg cerdyn clyfar a llwybrau beicio integredig. Dyma'r cynlluniau bara menyn, David, nid y cynlluniau mawr eu bri, yr ydym yn eu cyflawni drwy'r pecynnau ariannu gyda'n partneriaid.

Owen John Thomas *a gododd*—

Sue Essex: Nid oes gennyf amser, Owen, ac yr wyf yn siŵr y cewch eich cyfle.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni chewch gymorth gennyf fi, Owen. Nid yw'r Gweinidog yn ildio.

Sue Essex: Yr wyf yn siŵr nad oes arno ei angen. Gan nad oes gennyf amser, fe'i trafodaf gyda chi wedyn, Owen.

Cyflwynwyd y rhaglen llwybrau diogel i'r ysgol yn 1999. Anghofiodd David sôn am y cynllun hwn. Mae pob awdurdod lleol—ac eithrio Ynys Môn, na wnaeth gais—wedi elwa ar y cynllun hwn. Eleni yr wyf wedi dyrannu grant meddal £2.7 miliwn i'r cynllun hwn. Dywed y rhwydwaith beicio cenedlaethol fod Cymru'n arwain y maes ar y mater hwn. Yn ddiweddar agorais gynllun

Newport, which is substantially grant-aided, making use of new opportunities for pedestrians and cycling for the school and the local community. Individual schools and those working together—

Alun Cairns: Will you give way?

Sue Essex: No, I will not. Individual schools and those working together are benefiting from this excellent initiative.

You mentioned railways, David. We are committed to funding the South Wales Integrated Fast Transit Consortium Valley Lines rail strategy with over £60 million over the next five years. That is real input which will intensify and extend the whole passenger system in south Wales. Again, these are practical improvements. The recently constructed bus and rail interchange station in Caerphilly is another practical project, which will make integration possible. The concessionary fare scheme has been a major innovation, which Wales has led. Free fares for pensioners and disabled people on local buses across Wales, along with reducing the age limit for men to 60 from April 2003, allow people to consider new opportunities for travel that were not available to them previously. I am receiving excellent feedback from across Wales. Pensioners, in particular, are undertaking journeys that link up in a way that they never did before. That will provide real practical benefits, which David again conveniently forgot to mention.

The local transport service grant helps to run socially desirable bus routes in rural and urban areas. There is a huge increase in the money going into that grant to ensure that desperately needed routes are maintained and, in some cases, that new routes are opened throughout Wales.

Safety has been a critical part of transport issues. Twenty-two child pedestrian training co-ordinators have been employed in Wales and the road safety grant has helped in ensuring that actions are taken on the ground instead of having people standing in the Chamber making statements and speeches

Ysgol Uwchradd y Dyffryn yng Nghasnewydd, sydd wedi cael cymorth grant sylweddol, i ddefnyddio cyfleoedd newydd i gerddwyr a beicwyr er mwyn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae ysgolion unigol a rhai sy'n gweithio gyda'i gilydd—

Alun Cairns: A wnewch chi ildio?

Sue Essex: Na wna. Mae ysgolion unigol a rhai sy'n gweithio gyda'i gilydd yn manteisio ar y cynllun ardderchog hwn.

Sonioch am reilffyrdd, David. Yr ydym wedi ymrwymo i ariannu strategaeth reilffyrdd Consortiwm Teithio Cyflym Integredig De Cymru ar Reilffyrdd y Cymoedd gyda thros £60 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Dyna fewnbwn gwirioneddol a fydd yn dwysáu ac yn ymestyn y cyfan o'r system deithwyr yn y De. Eto, gwelliannau ymarferol yw'r rhain. Prosiect ymarferol arall yw'r orsaf gyfnewid bws a thrên a adeiladwyd yn ddiweddar yng Nghaerffili, a fydd yn gwneud integreiddio'n bosibl. Bu'r cynllun tocynnau rhad yn gynllun newydd mawr, wedi'i arwain gan Gymru. Mae teithio am ddim i bensynwyr a phobl anabl ar fysiau lleol drwy Gymru, ynghyd â gostwng yr oed cymwys i ddynion i 60 o Ebrill 2003, yn golygu y gall pobl ystyried cyfleoedd teithio newydd nad oedd ar gael iddynt gynt. Yr wyf yn cael ymateb gwych o Gymru benbaladr. Mae pensynwyr, yn arbennig, yn gwneud teithiau sy'n cysylltu â'i gilydd mewn ffordd na wnaethant erioed o'r blaen. Bydd hynny'n rhoi gwir fanteision ymarferol, yr anghofiodd David sôn amdanynt eto, yn gyfleus iawn.

Mae'r grant gwasanaeth cludiant lleol yn helpu i redeg llwybrau bysiau cymdeithasol ddymunol mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae cynnydd mawr yn yr arian sy'n mynd i mewn i'r grant hwnnw i sicrhau y cynhelir llwybrau y mae dirfawr angen amdanynt ac, mewn rhai achosion, yr agorir llwybrau newydd ledled Cymru.

Bu diogelwch yn rhan hollbwysig o faterion trafniadaeth. Cyflogwyd 22 o gydgyssylltwyr hyfforddi plant sy'n gerddwyr yng Nghymru ac mae'r grant diogelwch y ffyrdd wedi helpu i sicrhau y gweithredir ar lawr gwlad yn lle cael pobl yn sefyll yn y Siambr yn gwneud datganiadau ac areithiau nad ydynt yn taro

that do not resonate. We are implementing schemes on the ground. Five regional travel plan co-ordinators help agencies, health trusts and others to try to encourage their workers to make the shift to more sustainable transport. We are taking good, practical measures.

David spoke about roads, which we are not overlooking. On 21 March, I announced our commitment in taking forward the trunk-road programme, with major schemes coming to fruition across Wales, together with local authority road improvements. Many of those schemes were for bypasses. I do not know why you have not considered them, David. Many people wanted to see a bypass at Talgarth. I was told that it was needed when I visited Talgarth and spoke to residents there. A scheme at Talgarth is included in the immediate transport programme, along with many other road schemes throughout mid and north Wales. I do not know why you have not included those, David.

The Wales and borders rail franchise will be a major achievement—it is a project that has been actively promoted through the National Assembly and the Environment, Planning and Transport Committee. While some aspects of the Strategic Rail Authority's strategic plan, announced in January, were disappointing, I was heartened by the strong commitment to the Wales and borders franchise and the recognition of the Assembly's effective contribution to the project.

I am pleased that we have undertaken the public travel information Travel Line Cymru scheme, operating at Llangefni, Swansea and Cardiff. It gives people information about bus routes and availability, and in time will be extended to other modes of transport. This is a practical initiative, bringing together money from local authorities and bus operators to ensure that people are given the right information.

The reaction to the ULTra transport system is out of proportion. It is hardly surprising when you hear David Davies speaking about it. However, we made it clear in the transport framework that we would welcome

deuddeg. Yr ydym yn gweithredu cynlluniau ar lawr gwlad. Mae pum cydgysylltydd cynlluniau teithio rhanbarthol yn helpu asiantaethau, ymddiriedolaethau iechyd ac eraill i geisio annog eu gweithwyr i symud at drafnidiaeth fwy cynaliadwy. Yr ydym yn cymryd camau da, ymarferol.

Siaradodd David am ffyrdd, sy'n cael sylw gennym hefyd. Ar 21 Mawrth, cyhoeddais ein hymrwymiad i fynd ymlaen â'r rhaglen gefnffyrdd, gyda chynlluniau mawr yn dwyn ffrwyth ar hyd a lled y wlad, ynghyd â gwelliannau ffyrdd awdurdodau lleol. Cynlluniau ffyrdd osgoi oedd llawer o'r rhain. Ni wn pam nad ydych wedi eu hystyried, David. Yr oedd ar lawer o bobl eisiau gweld ffordd osgoi yn Nhalgarth. Dywedwyd wrthyf fod ei hangen pan ymwelais â Thalgarth a siarad gyda thrigolion yno. Mae cynllun yn Nhalgarth wedi'i gynnwys yn y rhaglen drafnidiaeth bresennol, ynghyd â llawer o gynlluniau ffyrdd eraill drwy'r canolbarth a'r Gogledd. Ni wn pam nad ydych wedi cynnwys y rheini, David.

Bydd trwydded rheilffyrdd Cymru a'r gororau yn gamp fawr—mae'n brosiect a hyrwyddwyd yn frwd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Er bod rhai agweddau ar gynllun strategol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn siomedig, fe'm calonogwyd gan yr ymrwymiad cryf i drwydded Cymru a'r gororau a'r gydnabyddiaeth i gyfraniad effeithiol y Cynulliad at y prosiect.

Yr wyf yn falch ein bod wedi ymgymryd â'r cynllun gwybodaeth teithio cyhoeddus, Llinell Deithio Cymru, sy'n gweithredu yn Llangefni, Abertawe a Chaerdydd. Mae'n rhoi gwybodaeth i bobl am lwybrau bysiau a pha wasanaethau sydd ar gael, a maes o law fe'i hestynnir i ffurfiau eraill o drafnidiaeth. Dyma fenter ymarferol, yn tynnu ynghyd arian gan awdurdodau lleol a chwmmiau bysiau i sicrhau y rhoddir y wybodaeth iawn i bobl.

Mae'r adwaith i system drafnidiaeth ULTra yn anghymesur. Prin bod hynny'n syndod o wrando ar David Davies yn siarad amdani. Fodd bynnag, cyhoeddasom yn glir yn y fframwaith trafndiaeth y byddem yn

innovative proposals to develop public transport. I can imagine David Davies's reaction to Isambard Brunel if he was around at his time.

The Environment, Planning and Transport Committee has supported innovative bids, four of which were announced in the transport grant. ULTra has received financial support from the Department for Transport, Local Government and the Regions, the Department of Trade and Industry and the European Commission. I stress that we are satisfied with the county council's appraisal of this project. My colleague, Lorraine Barrett, the constituency AM, is hoping to arrange a presentation by Professor Martin Lowson, to give more details about the scheme.

My son was in Perth, Western Australia recently, and found an interesting newspaper article. He did not bring back a copy of the paper, so I cannot quote it directly, but as I understand it, the article was lambasting Perth for its lack of imagination in transport, unlike Cardiff in Wales, where they were developing an innovative project called ULTra. Some people will never want to see innovation and leadership. In Perth, they recognise that sometimes you have to try to do things differently.

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up now, Sue.

Sue Essex: Above all, our transport framework delivers the vision of progress.

Turning to the amendments tabled by Jocelyn, I welcome the acknowledgement in amendment 3 of the work done by the Environment, Planning and Transport Committee on public transport. Amendment 1 recognises our work in achieving integrated transport by publishing our transport framework. I cannot support amendment 2, which in effect deletes it. However, I appreciate the sentiments behind it.

In respect of amendment 4, there are complex issues to resolve, including the funding of railways. Given the current difficulties facing

croesawu cynigion blaengar i ddatblygu cludiant cyhoeddus. Gallaf ddychmygu ymateb David Davies i Isambard Brunel pe bai o gwmpas yn ei oes ef.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi cefnogi ceisiadau blaengar, a chyhoeddwyd pedwar ohonynt yn y grant trafndiaeth. Cafodd ULTra gefnogaeth ariannol gan yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, yr Adran Fasnach a Diwydiant a'r Comisiwn Ewropeaidd. Pwysleisiaf ein bod yn fodlon gyda gwerthusiad y cyngor sir o'r prosiect hwn. Mae fy nghyd-aelod, Lorraine Barrett, AC yr etholaeth, yn gobeithio trefnu cyflwyniad gan yr Athro Martin Lowson, i roi mwy o fanylion am y cynllun.

Yr oedd fy mab yn Perth, Gorllewin Awstralia yn ddiweddar, a daeth o hyd i erthygl ddiddorol mewn papur newydd. Ni ddaeth â chopi o'r papur adref, felly ni allaf ei ddyfynnu'n uniongyrchol, ond deallaf fod yr erthygl yn collfarnu Perth am ei diffyg dychymyg ym maes trafndiaeth, yn wahanol i Gaerdydd yng Nghymru, lle'r oeddent yn datblygu prosiect o'r enw ULTra. Ni fydd rhai pobl byth eisiau gweld arloesi ac arweiniad. Yn Perth, maent yn sylweddoli bod yn rhaid ceisio gwneud pethau'n wahanol weithiau.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi ddirwyn i ben yn awr, Sue.

Sue Essex: Yn anad dim, mae'n fframwaith trafndiaeth yn cynnig gweledigaeth cynnydd.

A throi at y gwelliannau a gyflwynwyd gan Jocelyn, croesawaf y gydnabyddiaeth yng ngwelliant 3 i'r gwaith a wnaethpwyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar gludiant cyhoeddus. Mae gwelliant 1 yn cydnabod ein gwaith yn sicrhau trafndiaeth integredig drwy gyhoeddi'n fframwaith trafndiaeth. Ni allaf gefnogi gwelliant 2, sydd mewn effaith yn ei ddileu. Er hynny, gwerthfawrogaf y teimladau sy'n sail iddo.

Ynghylch gwelliant 4, mae materion cymhleth i'w datrys, gan gynnwys ariannu rheilffyrdd. Gyda'r anawsterau sy'n

the industry, there are no straightforward solutions. However, we have included in our list of aspirations, a Bill to acquire for the Assembly the powers to direct the Strategic Rail Authority, thereby taking responsibility for the subsidy for the Wales and borders franchise. The Assembly approved the recommendations of the Environment, Planning and Transport Committee's review of public transport report, when it was debated on 11 December 2001. I shall report back on progress in taking forward some aspects of the key issues before the summer recess. I do not want to pre-empt the Committee's discussion. I strongly urge everyone to oppose the motion.

4:10 p.m.

Janet Davies: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 2: delete all after '*the National Assembly for Wales*' and replace with:

notes the continuing development towards an integrated transport policy which benefits the whole of Wales.

I propose amendment 3. Add as a new point:

confirms its support for the Committee's agreed recommendations in principle, and awaits the proposals based on these recommendations.

I propose amendment 4. Add as a new point:

calls on the First Minister to make representations to the Secretary of State for Wales to press the UK Government to transfer the administration of the rail subsidy for Wales to the National Assembly.

Plaid Cymru—the Party of Wales has tabled these amendments because it considers the motion to be premature. The amendments do not mean that we are convinced that the Government will eventually produce an adequate integrated transport policy. The transport framework document was published

wynebu'r diwydiant ar hyn o bryd, nid oes atebion syml. Fodd bynnag, yr ydym wedi cynnwys yn ein rhestr o ddyheadau, Fesur i sicrhau i'r Cynulliad y pwerau i gyfarwyddo'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, gan gymryd cyfrifoldeb felly dros y cymhorthdal i drwydded Cymru a'r gororau. Cymeradwyodd y Cynulliad argymhellion adroddiad adolygu cludiant cyhoeddus Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, pan drafodwyd ef ar 11 Rhagfyr 2001. Byddaf yn adrodd yn ôl ar yr hyn a gyflawnir i fynd ymlaen â rhai agweddau ar y materion allweddol cyn gwyliau'r haf. Nid oes arnaf eisiau rhagfarnu trafodaeth y Pwyllgor. Anogaf bawb yn gryf i wrthwynebu'r cynnig.

Janet Davies: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 2: dileu'r cyfan ar ôl '*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*' a rhoi:

yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau polisi trafndiaeth integredig a fydd o fudd i Gymru gyfan.

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu fel pwynt newydd:

yn cadarnhau ei fod yn cefnogi'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arnynt, mewn egwyddor, ac yn disgwyl y cynigion a fydd yn seiliedig ar yr argymhellion hyn.

Cynigiau welliant 4. Ychwanegu fel pwynt newydd:

yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i drosglwyddo'r gwaith o weinyddu'r cymhorthdal rheilffyrdd ar gyfer Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Plaid Cymru—The Party of Wales wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn am ei fod o'r farn fod y cynnig yn gynamserol. Nid yw'r gwelliannau'n golygu ein bod yn argyhoeddedig y gwnaiff y Llywodraeth lunio polisi trafndiaeth integredig digonol yn y diwedd. Cyhoeddwyd dogfen y fframwaith

last November after consultation, and the Environment, Planning and Transport Committee put forward its vision for the future of transport. They were broadly similar.

As I understand it, the Minister is considering the Committee's recommendations and she will then come forward with her proposals. Until we can study those proposals, this motion pre-empts the debate that—WAG and God willing—should come before the Chamber in the near future. If those proposals do not measure up to the Committee's vision, Plaid Cymru will make positive criticisms where appropriate, will challenge them and try to improve them.

While this debate is badly timed, now that it is happening, Plaid Cymru—the Party of Wales will put forward constructive views that raise some fundamental issues on the proposed integrated transport policy. The Committee and the Minister started off with high expectations, which needed much investment. It appears that the requirements for the vision have been downgraded. I am unsure whether the Minister will be able to deliver on the Committee's vision.

Most of us accept the need for a sustainable transport policy. We understand that investment in public transport achieves better value than investment in private transport. The National Assembly is committed to equal opportunities and social cohesion, as well as sustainability. An integrated transport policy has a significant part to play in achieving those goals.

For people to use public transport by preference, many improvements are needed. It must be efficient, comfortable and easy to use. Most of us have struggled to find bus routes and times in strange cities—I have been beaten on this many times in Cardiff. Although information has improved fairly dramatically, it is not always totally accurate.

The Assembly is the First Minister's one-

trafnidiaeth fis Tachwedd diwethaf ar ôl ymgynghori, a chyflwynodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ei weledigaeth ar gyfer dyfodol trafndiaeth. Yr oeddent yn debyg yn fras.

Yn ôl a ddeallaf, mae'r Gweinidog yn ystyried argymhellion y Pwyllgor ac wedyn bydd yn cyflwyno ei chynigion. Hyd nes y gallwn astudio'r cynigion hynny, mae'r cynnig hwn yn rhag-ddweud y ddadl a ddylai ddod—os myn Llywodraeth y Cynulliad a Duw—gerbron y Siambr yn y dyfodol agos. Os na fydd y cynigion hynny'n cyfateb i weledigaeth y Pwyllgor, bydd Plaid Cymru'n eu beirniadu'n gadarnhaol lle bo'n briodol, yn eu herio ac yn ceisio'u gwella.

Tra bo'r ddadl hon wedi'i hamseru'n wael, yn awr ei bod yn digwydd, bydd Plaid Cymru—The Party of Wales yn cynnig sylwadau adeiladol fydd yn codi ambell fater sylfaenol ar y polisi trafndiaeth integredig arfaethedig. Dechreuodd y Pwyllgor a'r Gweinidog gyda disgwyliadau mawr, a oedd angen buddsoddi mawr. Mae'n ymddangos fod y gofynion ar gyfer y weledigaeth wedi'u gostwng. Nid wyf yn siŵr a fydd y Gweinidog yn gallu gwireddu gweledigaeth y Pwyllgor.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn yr angen am bolisi trafndiaeth cynaliadwy. Deallwn fod buddsoddi mewn cludiant cyhoeddus yn cyflawni gwell gwerth na buddsoddi mewn cludiant preifat. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a chydlynid cymdeithasol, yn ogystal â chynaliadwyedd. Mae gan bolisi trafndiaeth integredig ran arwyddocaol i'w chwarae i gyflawni'r amcanion hynny.

I bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus o ddewis, mae angen llawer o welliannau. Rhaid iddo fod yn effeithlon, yn gyfforddus ac yn hawdd ei ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi cael trafferth darganfod llwybrau ac amserau bysiau mewn dinasoedd dieithr—yr wyf wedi methu yn hyn o beth sawl gwaith yng Nghaerdydd. Er y cafwyd gwelliant eithaf dramatig yn y wybodaeth sydd ar gael, nid yw bob amser yn gwbl gywir.

Y Cynulliad yw hwyaden ungoes Prif

legged duck when it comes to transport policy. There is no single policy and budget for all transport issues in Wales, and this is a major problem. The UK Government, which launched this duck of a Welsh Government—and the First Minister must have had inside knowledge when he talked of one-legged ducks—seems to have broken off one of its legs and tethered it to the Thames, unable to reach Wales. Even if our duck had two legs paddling frantically underwater, there would still be plenty of challenges to producing this policy. With one leg missing, it cannot set out in a straight line for its goal.

I am concerned whether £100 million allocated from Objective 1 money for integrated transport schemes has been committed. However, the fundamental hurdle to establishing and implementing an integrated transport policy that can make a real difference is the lack of a single budget and a single body with power. This is worsened by a plethora of transport bodies.

I am amazed that the Welsh Conservatives, whose forerunners in Westminster privatised the railways and deregulated the buses, are ready to stick their necks out and complain that producing the strategic overview is taking too long. Plaid Cymru—the Party of Wales would also like to see it come forward more quickly, but, most importantly, we want to see a policy that would be able to tackle integration more effectively and would be adequately funded. Recent information shows that integration is still a pipe dream in many towns with no action being taken. I take on board what Sue said about various schemes. However, they are still in the minority when you consider the number that is needed.

The regional consortia's work is excellent. However, a Welsh passenger transport partnership is needed to give the strategy focus. We hope to see that included in the Minister's proposals when they come forward. This will be an important issue for us.

The Deputy Presiding Officer: I have a long list of those who wish to speak. I will try

Weinidog Cymru o ran polisi trafndiaeth. Nid oes un polisi a chyllideb unigol ar gyfer holl faterion trafndiaeth Cymru, ac mae hyn yn broblem fawr. Mae'n debyg fod Llywodraeth y DU, a lansiodd yr hwyaden hon o Lywodraeth Gymreig—ac mae'n rhaid fod gan y Prif Weinidog wybodaeth fewnol pan siaradodd am hwyaid ungoes—wedi torri un o'i choesau i ffwrdd a'i chlymu wrth Afon Tafwys, yn methu â chyrraedd Cymru. Hyd yn oed pe bai gan ein hwyaden ddwy goes yn padlo'n wyllt dan y dŵr, byddai digonedd o bethau o hyd i herio llunio'r polisi hwn. Gydag un goes ar goll, ni all ddilyn llinell syth tuag at ei nod.

Yr wyf yn bryderus a yw £100 miliwn a ddyrannwyd o arian Amcan 1 ar gyfer cynlluniau trafndiaeth integredig wedi'i ymrwymo. Er hynny, y rhwystr sylfaenol i sefydlu a gweithredu polisi trafndiaeth integredig a all wneud gwir wahaniaeth yw'r diffyg cyllideb unigol a chorff unigol gyda grym. Gwaethygir hyn gan ormodedd o gyrrff trafndiaeth.

Yr wyf yn rhyfeddu fod y Ceidwadwyr Cymreig, yr oedd eu rhagflaenwyr yn San Steffan yn gyfrifol am breifateiddio'r rheilffyrdd a dadreoleiddio'r bysiau, yn barod i fentro cwyno ei bod yn cymryd rhy hir i lunio'r drosolwg strategol. Hoffai Plaid Cymru—The Party of Wales hithau weld y peth yn dod yn ei blaen yn gynt, ond, yn bwysicach, mae arnom eisiau gweld polisi a fyddai'n gallu delio ag integreiddio'n fwy effeithiol ac a gâi gyllid digonol. Dengys gwybodaeth ddiweddar fod integreiddio'n dal i fod yn freuddwyd gwrach mewn llawer o drefi ac nad oes dim yn digwydd. Derbynïaf yr hyn a ddywedodd Sue ynghylch amryfal gynlluniau. Fodd bynnag, maent yn dal yn y lleiafrif pan ystyriwch y nifer sydd eu hangen.

Mae gwaith y consortia rhanbarthol yn ardderchog. Er hynny, mae angen partneriaeth cludiant teithwyr yng Nghymru i roi canolbwynt i'r strategaeth. Gobeithiwn weld hynny'n cael ei gynnwys yng nghynigion y Gweinidog pan y'u cyflwynir. Bydd hyn yn fater pwysig inni.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf restr faith o'r rhai sy'n dymuno siarad. Ceisiaf eu

to include them all. However, it will not happen unless Members ensure that they do not take longer than five minutes to speak. Unless there are interventions, you have strictly five minutes. I will press the red button when the five minutes come to an end.

David Melding: I will concentrate on the airport access road and the future of Cardiff International Airport. It is important that we have an airport of world class distinction and regional distinction among Britain's airports. I was disappointed by the Minister's speech. She did not really refer to the airport being essential for the transport needs of Wales and its future economic development. Wales needs a modern airport access road if the airport is going to lead our economy and bring in investors. Increasing the number of scheduled flights and observing the airport winning through as the premier airport in western Britain should be our ambition rather than the reduced ambition of putting up with a rail spur, which, although necessary, is only a small part of a strategy to entice tourists, businessmen and users to an airport.

The Confederation of British Industry has declared that the airport access road is one of the top strategic needs in the United Kingdom, not just in Wales. Yet it does not figure in the Minister's trunk road programme for the next 10 years. It has not been identified as a trunk road. She does not accept that it should be a trunk road despite the fact that the Government has had a long-standing policy to link major airports to road networks by a trunk road. She is not following that guidance. She is ignoring the needs of Cardiff International Airport. It is a great problem. There is no reason why she is not following that good advice. The First Minister today hid behind the fact that there is no agreed route. Once the Government says that this access road will be a trunk road scheme, there will be an agreed route. You must say that you will build it before you can then agree a route. You are just—*[Interruption.]* This is a serious issue and you are chuckling away. There is evidence that the first thing that investors look for when they want to invest somewhere is good airport access. When they come into Cardiff

cynnwys i gyd. Fodd bynnag, ni wnaiff hynny ddigwydd oni bai fod Aelodau'n sicrhau na siaradant am fwy na phum munud. Os and oes ymyriadau, mae gennyh bum munud a dim mwy. Gwasgaf y botwm coch pan ddaw'r pum munud i ben.

David Melding: Yr wyf am ganolbwyntio ar ffordd fynediad y maes awyr a dyfodol Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Mae'n bwysig inni gael maes awyr o ragoriaeth safon byd ac o ragoriaeth ranbarthol ymhlith meysydd awyr Prydain. Fe'm siomwyd gan araith y Gweinidog. Ni soniodd, mewn gwirionedd, fod y maes awyr yn hanfodol i anghenion trafndiaeth Cymru a'i datblygiad economaidd yn y dyfodol. Mae ar Gymru angen ffordd fynediad fodern i'r maes awyr os yw'r maes awyr am arwain ein heconomi a dod â buddsoddwyr i mewn. Dylem anelu at gynyddu nifer y teithiau hedfan rheolaidd a gweld y maes awyr yn ennill statws fel y prif faes awyr yng ngorllewin Prydain yn hytrach na'r uchelgais llai o dderbyn cangen reilffordd sydd, er ei bod yn angenrheidiol, yn ddim ond rhan fach o strategaeth i ddenu twristiaid, pobl fusnes a defnyddwyr i faes awyr.

Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi datgan fod y ffordd fynediad i'r maes awyr yn un o'r prif anghenion strategol yn y Deyrnas Unedig, nid dim ond yng Nghymru. Eto nid yw'n ymddangos yn rhaglen gefnffyrdd y Gweinidog am y 10 mlynedd nesaf. Nid yw wedi'i henwi fel cefnffordd. Nid yw'n derbyn y dylai fod yn gefnffordd er gwaethaf y ffaith fod gan y Llywodraeth bolisi ers tro byd o gysylltu prif feysydd awyr â rhwydweithiau ffyrdd drwy gyfrwng cefnffordd. Nid yw'n dilyn yr arweiniad hwnnw. Mae'n anwybyddu anghenion Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Mae'n broblem fawr. Nid oes unrhyw reswm pam nad yw'n dilyn y cyngor da hwnnw. Cuddiodd y Prif Weinidog heddiw y tu ôl i'r ffaith nad oes llwybr y cytunwyd arno. Unwaith y dywed y Llywodraeth y bydd y ffordd fynediad hon yn gynllun cefnffordd, fe gytunir ar lwybr. Rhaid ichi ddweud eich bod yn mynd i'w hadeiladu cyn y gallwch wedyn gytuno ar lwybr. Nid ydych ond—*[Ymyriad.]* Mae hwn yn fater difrifol ac yr ydych yn chwethin yn foddhaus. Mae tystiolaeth mai'r peth cyntaf y bydd buddsoddwyr yn edrych

International Airport—

amdano pan fyddant eisiau buddsoddi yn rhywle yw mynediad da i'r maes awyr. Pan ddeuant i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd—

Peter Law *rose*—

Peter Law *a gododd*—

David Melding: I will give way in a moment.

David Melding: Ildiaf mewn munud.

When investors arrive at Cardiff International Airport, they face a long, tortuous journey into Cardiff around many roundabouts, behind milk floats and traffic jam congestion. This is what they see. They ask whether we are serious, whether Cardiff is one of the new European capitals and whether this is the kind of airport and gateway that we have. It gives these people a miserable, bad impression. It is a danger to the future growth of the south Wales economy.

Pan gyrhaedda buddsoddwyr Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, wynebant siwrnai hir, droellog i Gaerdydd o gwmpas sawl cylchfan, y tu ôl i lorïau llaeth a thrwy dagfeydd traffig. Dyma beth a welant. Gofynnant a ydym ni o ddifrif, a yw Caerdydd yn un o'r prifddinasoedd Ewropeaidd newydd ac ai dyma'r math o faes awyr a phorth sydd gennym. Mae'n rhoi argraff wael, ddigalon, i'r bobl hyn. Mae'n berygl i dwf economi'r De yn y dyfodol.

04:20: p.m.

Peter Law: With the selective amnesia from which your party suffers, why did the Conservatives never bother to provide an access road to the airport before 1997? Do you also accept that there is no new access road to Bristol airport?

Peter Law: Gyda'r anghofrwydd dewisol hwnnw y mae'ch plaid chi'n dioddef ohono, pam na wnaeth y Ceidwadwyr erioed drafferthu darparu ffordd fynediad i'r maes awyr cyn 1997? A ydych chi'n derbyn hefyd nad oes ffordd fynediad newydd i faes awyr Bryste?

David Melding: We need to build an airport access road for our airport. Bristol airport will have a real problem—it already has a geographical problem, the nature of the runway could restrict it in future. If you look at the growth in airports in this country, one major problem that they face is flight paths over urban areas. There is now a policy, which will increase, to reduce the number of flights over urban areas. We do not have that problem in Cardiff. We need to grasp the initiative and build that road. That road was on the forward programme when we were in power, we had identified it as necessary in the trunk roads network, and we were doing the research for it. It has been denied that status by this Government. It has been removed; it is not a trunk road scheme.

David Melding: Mae angen inni adeiladu ffordd fynediad i'n maes awyr. Bydd gan faes awyr Bryste broblem wirioneddol—mae ganddo broblem ddaearyddol yn barod, gallai natur y rhedfa ei gyfyngu yn y dyfodol. Os edrychwch ar y twf mewn meysydd awyr yn y wlad hon, un broblem fawr a wynebant yw llwybrau hedfan dros ardaloedd trefol. Ceir polisi erbyn hyn, a fydd yn cynyddu, i leihau nifer yr hediadau dros ardaloedd trefol. Nid oes gennym y broblem honno yng Nghaerdydd. Mae angen inni gydio yn y cyfle ac adeiladu'r ffordd honno. Yr oedd y ffordd honno ar y rhaglen dymor hir pan oeddem ni mewn grym, yr oeddem wedi'i dynodi fel un angenrheidiol yn y rhwydwaith cefnffyrdd, ac yr oeddem yn gwneud yr ymchwil ar ei chyfer. Mae'r Llywodraeth hon wedi gwadu'r statws hwnnw iddi. Cafodd ei thynnu o'r rhestr; nid yw'n gynllun cefnffordd.

Sue Essex *rose*—

Sue Essex *a gododd*—

David Melding: You can contradict me when you reply. You have not accepted that it will be a trunk road scheme. Instead, you say that the county should support it, perhaps with some private finance initiative money. I am not against PFI. The road is likely to cost between £50 million and £100 million. That is about the total amount that counties spend in the whole of Wales on road building. To somehow suggest that the Vale of Glamorgan has the wherewithal to build that sort of road is miserable. You are denying us the possibility of having a world class airport in Cardiff. If we do not do it, we will see Birmingham expand further, or perhaps Bristol if it solves some of its problems. The world will not wait for us. We need to do it now.

Peter Black: You talk about spending £50 million to £100 million on improving the access from the airport to Cardiff. That is fine for the city of Cardiff, but what about the rest of Wales? Do you think that they would be happy about that much money being spent in Cardiff again when they need access too?

David Melding: That is a typically reduced and restricted view from the Liberal Democrats. They are not active in the Vale of Glamorgan—we do not see them in Barry often—so I know that they do not understand the issues. The airport access road will also be a relief road for Barry and is essential to its economic growth. All the major agencies agree with that. I will send you some of the basic briefing material. I am sorry that you do not have it to hand.

If we are serious about being one of the great growing regions, if we want to regenerate ourselves the way that our forefathers and mothers did in the late nineteenth century, we need a first class airport. At present we do not have one. We have the potential for one, that is a great thing at least. However, if we do not have an outstanding road link and unless we sort this out we will not get the investors who will invest all around south Wales and beyond. When investors land at the airport and are taken to Cardiff, they will see immediately that we are serious about infrastructure because of the state of the new road and the excellent communications into

David Melding: Cewch fy ngwrth-ddweud pan fyddwch yn ateb. Nid ydych wedi derbyn y bydd yn gynllun cefnffordd. Yn lle hynny, dywedwch y dylai'r sir ei chefnogi, efallai gyda rhywfaint o arian menter cyllid preifat. Nid wyf yn erbyn PFI. Mae'r ffordd yn debygol o gostio rhwng £50 miliwn a £100 miliwn. Dyna tua'r cyfanswm a waria siroedd Cymru gyfan ar adeiladu ffyrdd. Mae awgrymu rywsut fod gan Fro Morgannwg y modd i adeiladu ffordd o'r fath yn druenus. Yr ydych yn gomedd inni'r posibilrwydd o gael maes awyr o safon byd yng Nghaerdydd. Os na wnawn ni, gwelwn fwy o ehangu yn Birmingham, neu Fryste efallai os gall ddatrys rhai o'i phroblemau. Ni wnaiff y byd aros amdanom. Mae angen ei wneud yn awr.

Peter Black: Soniwch am wario £50 miliwn i £100 miliwn ar wella'r ffordd o'r maes awyr i Gaerdydd. Mae hynny'n iawn i ddinas Caerdydd, ond beth am weddill Cymru? A ydych yn meddwl y byddent yn hapus fod cymaint o arian yn cael ei wario yng Nghaerdydd eto, a hwythau hefyd angen ffyrdd?

David Melding: Dyna olwg nodweddiadol o gul a chyfyng gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid ydynt yn weithredol ym Mro Morgannwg—ni welwn hwy yn y Barri'n aml—felly gwn nad ydynt yn deall y mater. Bydd y ffordd i'r maes awyr hefyd yn ffordd liniaru i'r Barri ac mae'n hanfodol i'w thwf economaidd. Mae'r holl asiantaethau o bwys yn cytuno â hynny. Anfonaf ychydig o'r deunydd briffio sylfaenol atoch. Mae'n flin gennyf nad yw wrth law gennyf.

Os ydym o ddifrif ynglŷn â bod yn un o'r rhanbarthau mawr sy'n tyfu, os ydym am adfywio yn y modd y gwnaeth ein cyndadau a'n mamau yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae arnom angen maes awyr o'r radd flaenaf. Ar hyn o bryd nid oes gennym un. Mae gennym y potensial i gael un, mae hynny'n beth mawr, o leiaf. Fodd bynnag, os na chawn gysylltiad ffordd gwych ac os na roddwn ni drefn ar hyn ni ddenwn y buddsoddwyr a fydd yn buddsoddi ym mhobman yn y De a thu hwnt. Pan lania buddsoddwyr yn y maes awyr a chael eu cludo i Gaerdydd, fe welant yn syth ein bod o ddifrif ynghylch isadeiledd oherwydd cyflwr

the capital. That is the vision. If you seriously think that what we have now is adequate, that condemns you before I make any further superfluous remarks.

Eleanor Burnham: When I first saw this Conservative motion, I had a good laugh. A motion from the Conservative Party castigating the Welsh Assembly Government for failing to develop an integrated transport policy is rank hypocrisy. The Conservatives had 18 years in Government to action an integrated transport policy, and they did not. In fact they did the reverse. They did everything that they could to destroy any vestige of an integrated transport system. I am a frequent traveller, and am passionate about travelling, and travelling well.

Jonathan Morgan: I always listen with interest to this wonderful comment about 18 years of Tory rule, and so on. I was five-years-old when Margaret Thatcher entered No. 10, and I was substantially older than that when she left office and when my party left office. The eight Conservative Assembly Members here have never been in Government at Westminster. We are not responsible for what happened at Westminster. We are sponsoring a debate on transport infrastructure in Wales. As one of the parties elected to this Chamber the people of Wales rightly expect us to be able to sponsor such an important debate. I am saddened that other Members, including the Cabinet, are not treating the debate with the seriousness that it deserves.

Eleanor Burnham: I am grateful for those interesting and illuminating comments about your age. In fact, the Conservatives did everything they could to destroy any vestige of an integrated transport system. They deregulated the buses, which led to inadequate and unreliable coverage for many areas in Wales including north Wales. I remember travelling from Chester to Wrexham on the bus, when suddenly the driver started travelling at around 60 miles per hour almost breaking the speed limit, just to cope with the deregulated aspect—

y ffordd newydd a'r cysylltiadau ardderchog i'r brifddinas. Dyna'r weledigaeth. Os ydych yn meddwl o ddifrif fod yr hyn sydd gennym yn awr yn ddigonol, mae hynny'n eich condemnio cyn i mi wneud unrhyw sylwadau diangen pellach.

Eleanor Burnham: Pan welais y cynnig hwn gan y Ceidwadwyr am y tro cyntaf, bu raid imi chwerthin. Rhagrith noeth yw cynnig gan y Blaid Geidwadol yn cystwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru am fethu â datblygu polisi trafndiaeth integredig. Cafodd y Ceidwadwyr 18 mlynedd mewn Llywodraeth i weithredu polisi trafndiaeth integredig, ac ni wnaethant. Yn wir, gwnaethant i'r gwrthwyneb. Gwnaethant bopeth a allent i ddinistrio unrhyw arlliw o system drafndiaeth integredig. Yr wyf yn deithiwr mynych, ac yn teimlo'n angerddol am deithio, a theithio'n dda.

Jonathan Morgan: Byddaf bob amser yn gwranddo gyda diddordeb ar y sylw bendigedig hwn am 18 mlynedd o lywodraeth Doriaidd, ac ati. Pum mlwydd oed oeddwn i pan aeth Margaret Thatcher i rif 10, ac yr oeddwn gryn dipyn yn hŷn na hynny pan adawodd ei swydd a phan adawodd fy mhlaidd y Llywodraeth. Ni fu'r wyth Aelod Cynulliad Ceidwadol yma erioed yn y Llywodraeth yn San Steffan. Nid ydym yn gyfrifol am yr hyn a ddigwyddodd yn San Steffan. Yr ydym yn noddï dadl ar isadeiledd trafndiaeth yng Nghymru. Fel un o'r pleidiau a etholwyd i'r Siambr hon mae gan bobl Cymru yr hawl i ddisgwyl inni allu noddï dadl mor bwysig. Mae'n fy nhristâu nad yw Aelodau eraill, gan gynnwys y Cabinet, yn trin y ddadl â'r difrifwch y mae'n ei haeddu.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau diddorol a dadlennol am eich oed. Mewn gwirionedd, gwnaeth y Ceidwadwyr bopeth a allent i ddinistrio unrhyw arlliw o system drafndiaeth integredig. Dadreoleiddiwyd y bysiau, gan arwain at wasanaeth annigonol ac annibynadwy i lawer o ardaloedd yng Nghymru, gan gynnwys y Gogledd. Cofiaf deithio o Gaer i Wrecsam ar y bws, pan ddechreuodd y gyrrwr yn sydyn yrru ar ryw 60 milltir yr awr, bron yn torri'r cyfyngiad cyflymder, dim ond i ymdopi â'r agwedd ddadreoleiddiedig—

Nick Bourne: That was Margaret Thatcher's fault was it?

Eleanor Burnham: Possibly; probably. They privatised and fragmented the rail service—the opposite of any integrated transport policy. I do not consider the partnership Government to be perfect—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh'.] That is human nature. At least it is tackling the mess left behind by the Conservatives and is developing integrated transport throughout Wales.

Alun Cairns: Will you expand on your statement by saying how it is not perfect?

Eleanor Burnham: No. We are discussing integrated transport.

This cannot be achieved overnight. We all understand, as do you from your banking years, Alun, about finance. You cannot simply pump in as much money as it deserves overnight. The process is made more difficult by the Assembly not having full powers in significant areas of the transport policy, for example, the Strategic Rail Authority.

I will not bother listing the Assembly Government's pluses because Sue has already done that. As a frequent traveller who is passionate about improving public transport, my view, as we discussed in the Welsh Liberal Democrats conference over the weekend—

David Davies: All two of you?

Eleanor Burnham: Thank you for your kind comments.

Integration is the key to our transport policy document, which we debated at the conference. It is essential, as most sensible people will recognise, to properly connect trains with buses so that we can encourage more people out of their cars whenever possible. The current situation is still disconnected and riddled with problems and lack of complete customer care. We must aim for a transport system that is safe, reliable

Nick Bourne: Bai Margaret Thatcher oedd hynny, ie?

Eleanor Burnham: O bosibl, mae'n debyg. Preifateiddiwyd a darniwyd y gwasanaeth rheilffyrdd—y gwrthwyneb i unrhyw bolisi trafndiaeth integredig. Nid wyf yn meddwl bod y Llywodraeth bartneriaeth yn berffaith—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O'.] Natur ddynol yw hynny. O leiaf mae'n mynd i'r afael â'r llanast a adawyd ar ôl gan y Ceidwadwyr ac yn datblygu trafndiaeth integredig drwy Gymru gyfan.

Alun Cairns: A wnewch chi ymhelaethu ar eich gosodiad drwy ddweud sut nad ydyw'n berffaith?

Eleanor Burnham: Na wnaif. Yr ydym yn trafod trafndiaeth integredig.

Ni ellir cyflawni hyn dros nos. Yr ydym i gyd yn deall, fel y deallwch chi o'ch blynyddoedd yn bancio, Alun, am gyllid. Yn syml, ni allwch bwmpio cymaint o arian i mewn ag y mae'n ei haeddu dros nos. Gwneir y broses yn anos gan nad oes gan y Cynulliad bwerau llawn mewn meysydd arwyddocaol o'r polisi trafndiaeth, er enghraifft, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

Ni thrafferthaf restru pwyntiau da Llywodraeth y Cynulliad gan fod Sue eisoes wedi gwneud hynny. Fel teithiwr mynych sy'n angerddol dros wella cludiant cyhoeddus, fy marn i, fel y trafodasom yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig dros y penwythnos—

David Davies: Chi'ch dau?

Eleanor Burnham: Diolch am eich geiriau caredig.

Integreiddio yw'r allwedd i'n dogfen bolisi ar drafndiaeth, a drafodwyd gennym yn y gynhadledd. Mae'n hanfodol, fel y bydd y rhan fwyaf o bobl synhwyrol yn sylweddoli, cysylltu trenau â bysiau yn iawn er mwyn inni allu annog mwy o bobl allan o'u ceir pryd bynnag y bo modd. Mae'r sefyllfa bresennol yn dal yn ddigyswllt ac yn llawn problemau a diffyg gofal cyflawn am y cwsmeriaid. Rhaid inni anelu at system

and affordable as well as environmentally sustainable. A decent transport system is vital for positive community life, sustaining local business and the local economy. An efficient and effective community-focused integrated transport system will enable people to access public, social and cultural facilities and ensure a greater quality of life for the people of Wales, which is long overdue. I look forward to seeing some positive improvements with the forthcoming all-Wales franchise bid for the train system.

Glyn Davies: The Welsh Conservative Party raised the issue of transport in our minority party debate because it is hugely important. We had hoped that everyone would have welcomed that. Economic development has been my primary interest in public affairs for more than 20 years. That has been driven by my experience of living in a community that was wholly dependent on family farming, which has since disappeared. Therefore, we know that we must develop an alternative economy to sustain rural communities. In David Davies's outstandingly good speech, he was right to say that developing a transport system is crucial to the economy, which is one reason why it is so hugely important.

I welcome many things that are taking place in the Committee. I follow the Committee's discussions on transport issues, and I accept the recognition of a historical underspend over many decades, including the last five years. Listening to many Members in the Chamber—and it has already occurred during this debate—I am amazed that they talk about 18 years of a Conservative Government in Westminster, forgetting completely that Labour has been in power for five years. Five years is a long time. The transport problems have hardly been touched. Many good ideas are coming forward, but at some stage the Government must start to take responsibility for its period of Government and it has been in power for five years, which, in terms of government, is a long time.

drafnidiaeth sy'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy yn ogystal â bod yn amgylcheddol gynaliadwy. Mae system drafnidiaeth dda yn hanfodol i fywyd cymunedol cadarnhaol, i gynnal busnesau lleol a'r economi leol. Bydd system drafnidiaeth integredig effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn galluogi pobl i gyrraedd cyfleusterau cyhoeddus, cymdeithasol a diwylliannol ac yn sicrhau gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru, rhywbeth y mae'n hen bryd iddo ddigwydd. Edrychaf ymlaen at weld gwelliannau cadarnhaol gyda'r cais am fasnachfrait i Gymru gyfan sydd i ddod ar gyfer y system drenau.

Glyn Davies: Cododd Plaid Geidwadol Cymru fater trafniadaeth yn ein dadl plaid leiafrifol oherwydd ei fod yn aruthrol o bwysig. Yr oeddem wedi gobeithio y buasai pawb wedi croesawu hynny. Datblygu economaidd yw fy niddordeb pennaf mewn materion cyhoeddus ers dros 20 mlynedd, a hynny ar sail fy mhrofiad o fyw mewn cymuned a oedd yn gwbl ddibynol ar ffermio teuluol, sydd bellach wedi diflannu. Felly, gwyddom fod yn rhaid inni ddatblygu economi amgen i gynnal cymunedau gwledig. Yn araith eithriadol o dda David Davies, yr oedd yn iawn i ddweud bod datblygu system drafnidiaeth yn hanfodol i'r economi, sy'n un rheswm pam y mae mor aruthrol o bwysig.

Croesawaf lawer o bethau sy'n digwydd yn y Pwyllgor. Dilynafrifol drafodaethau'r Pwyllgor ar faterion trafniadaeth, a derbyniaf y gydnabyddiaeth y bu tanwario hanesyddol dros ddegawdau lawer, gan gynnwys y pum mlynedd diwethaf. O wrando ar lawer o Aelodau yn y Siambr—ac mae wedi digwydd yn barod yn ystod y ddadl hon—yr wyf yn rhyfeddu eu bod yn siarad am 18 mlynedd o Lywodraeth Geidwadol yn San Steffan, gan anghofio'n llwyr fod Llafur mewn grym ers pum mlynedd. Mae pum mlynedd yn amser hir. Ni chyffyrddwyd braidd ddim â'r problemau trafniadaeth. Mae llawer o syniadau da'n dod ger bron, ond ar ryw adeg mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddechrau cymryd cyfrifoldeb am ei chyfnod o lywodraethu, ac mae mewn grym ers pum mlynedd, sydd, yn nhermau llywodraeth, yn amser maith.

Gareth Jones *rose*—

Glyn Davies: I will give way in a moment. I want to make one more point.

I also welcome the concept of interchange.

Gareth Jones *rose*—

Glyn Davies: I will give way in a minute, Gareth.

One of the concerns about an integrated transport system is that it is not realised. You must develop links between railways and roads so that they are convenient for people to use. Interchange can play an important part in that.

4:30 p.m.

Gareth Jones: Hoffwn ganmol record y Toriaid ar gludiant. Wedi'r cyfan, aethant â ni am reid am 18 mlynedd.

Glyn Davies: Nid yw sylw felly yn haeddu ymateb.

Thirdly, the Committee's willingness to learn from what happens in other areas, particularly in other parts of the world. I do not mean innovative ideas. Innovation in itself is not valuable. Many ideas are based on the experience of practical schemes, and I welcome those.

The development that I welcome most is the regional consortia, which is crucial. When I was involved in this, we spent a great deal of time developing a consortium on transport in mid Wales, and it worked superbly. All the local authorities, the former economic development agency in mid Wales and the Government were involved. We had managed terrific achievements. Without the consortium, we would have seen the closure of the Cambrian coast line. Everyone involved brought the necessary investment forward, without which, the line could easily have been closed.

Another important issue was the focus on a

Gareth Jones *a gododd*—

Glyn Davies: Ildiaf mewn munud. Mae arnaf eisiau gwneud un pwynt yn rhagor.

Croesawaf hefyd y cysyniad o gyfnewidfeydd.

Gareth Jones *a gododd*—

Glyn Davies: Ildiaf mewn munud, Gareth.

Un o'r pryderon ynghylch system drafnidiaeth integredig yw nad ydyw wedi'i gwireddu. Rhaid datblygu cysylltiadau rhwng rheilffyrdd a ffyrdd fel eu bod yn gyfleus i bobl eu defnyddio. Gall cyfnewidfeydd chwarae rhan bwysig yn hynny.

Gareth Jones: I would like to praise the Tories' record on transport. After all, they took us for a ride for 18 years.

Glyn Davies: Such a comment does not deserve a reply.

Yn drydydd, parodrwydd y Pwyllgor i ddysgu oddi wrth yr hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill, yn enwedig mewn rhannau eraill o'r byd. Nid wyf yn golygu syniadau arloesol. Nid yw arloesi ynddo'i hun yn werthfawr. Mae llawer o syniadau'n seiliedig ar brofiad o gynlluniau ymarferol, a chroesawaf y rheini.

Y datblygiad a groesawaf fi fwyaf yw'r consortia rhanbarthol, sy'n hanfodol. Pan yr oeddwn yn ymwneud â hyn, treuliasom lawer iawn o amser yn datblygu consortiwm ar drafnidiaeth yn y Canolbarth, ac fe weithiodd yn wych. Cyfranogodd yr awdurdodau lleol i gyd, y cyn asiantaeth ddatblygu economaidd yn y Canolbarth a'r Llywodraeth. Yr oeddem wedi cyflawni pethau mawr. Heb y consortiwm buasem wedi gweld cau lein arfordir y Cambrian. Daeth pawb a oedd ynghlwm â hyn â'r buddsoddiad angenrheidiol ymlaen, a heb hynny, gallasai'r lein yn hawdd fod wedi cau.

Mater pwysig arall oedd y canolbwyntio ar

sensible road scheme. That is another of David Davies's points on which I agree. I think that moving away from roads is damaging some parts of Wales, and in particular rural Wales. I will mention two schemes that I hope the Minister will take seriously. She is meeting a deputation from Powys County Council—she may even have met them already—to consider improving the A458 from Welshpool to the English border, which is crucial to the development of mid Wales. At that meeting, I hope that she will listen to people's comments and will resurrect the scheme that was lost for wholly unnecessary reasons, some 10 years ago. Although there were environmental reasons, I hope that she will take the demand for the continuation of that scheme seriously.

Finally, I will speak, to some extent, in favour of a north to south Wales route and of taking the Babbie report's recommendations seriously. The east-west links are almost certainly driven by economic considerations. However, the north-south Wales link involves an element of developing a concept of Wales as a nation. All Assembly Members want to contribute towards that. I do not mean building a motorway from north to south Wales, but bypasses—

Owen John Thomas *rose*—

Glyn Davies: I will give way in a minute, I do not want to be stopped in full flow.

Bypasses could be used, where sensible, as well as lanes in which to overtake and other sensible improvements. There are plenty of examples and recommendations. However, nothing will happen unless you take it seriously.

I am sorry Owen John, but there is no time left.

Dafydd Wigley: Datganaf fuddiant fel defnyddiwr cyson trafndiaeth gyhoeddus, neu'n benodol, y rhwydwaith drenau: mae'r gair 'rhwydwaith' yn gamarweiniol. Nid oes gennym rwydwaith drenau yng Nghymru. Chwalwyd unrhyw gysgod o rwydwaith gan waith dinistriol Dr Beeching yn y 60au. Olion rhwydwaith sydd ar ôl, sydd yn bodoli ar

gynllun ffyrdd synhwyrol. Dyna un arall o bwyntiau David Davies yr wyf fi'n cytuno ag ef. Credaf fod symud i ffwrdd oddi wrth ffyrdd yn niweidio rhai rhannau o Gymru, ac yn enwedig y Gymru wledig. Soniaf am ddau gynllun y gobeithiaf y gwnaiff y Gweinidog eu cymryd o ddifrif. Mae hi'n cyfarfod â dirprwyaeth o Gyngor Sir Powys—efallai ei bod wedi cyfarfod â hwy'n barod—i ystyried gwella'r A458 o'r Trallwng i'r ffin â Lloegr, sy'n hanfodol i ddatblygiad y Canolbarth. Yn y cyfarfod hwnnw, gobeithiaf y gwnaiff wrando ar sylwadau pobl ac atgyfodi'r cynllun a gollwyd am resymau cwbl ddiangen, ryw 10 mlynedd yn ôl. Er bod rhesymau amgylcheddol, gobeithiaf y gwnaiff roi ystyriaeth ddifrifol i'r galw am barhau â'r cynllun hwnnw.

Yn olaf, siaradaf, i ryw raddau, o blaid ffordd o'r Gogledd i'r De ac am gymryd argymhellion adroddiad Babbie o ddifrif. Mae'r cysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin bron yn sicr wedi'u gyrru gan ystyriaethau economaidd. Fodd bynnag, mae a wnelo'r cysylltiad rhwng y Gogledd a'r De ag elfen o ddatblygu cysyniad o Gymru fel cenedl. Mae holl Aelodau'r Cynulliad eisiau cyfrannu tuag at hynny. Nid wyf yn golygu adeiladu traffordd o'r Gogledd i'r De, ond gellid defnyddio ffyrdd osgoi—

Owen John Thomas *a gododd*—

Glyn Davies: Ildiaf mewn munud, nid oes arnaf eisiau tewi ar ganol fy llifeiriant.

Gellid defnyddio ffyrdd osgoi, lle bo hynny'n synhwyrol, yn ogystal â lonydd goddiweddyd a gwelliannau synhwyrol eraill. Mae digonedd o enghreifftiau ac argymhellion. Er hynny, ni wnaiff unrhywbeth ddigwydd oni chymerwch y mater o ddifrif.

Mae'n ddrwg gennyf, Owen John, ond nid oes amser ar ôl.

Dafydd Wigley: I declare an interest as a frequent user of public transport, or, to be more precise, as a rail network user: the word 'network' is misleading. There is no rail network in Wales. Any shadow of a network was wrecked by Dr Beeching's destructive work in the 60s. Only the remnants of a network remain, existing on the periphery of

gyrion ynysoedd Prydain ac yn bennaf er lles pobl sydd eisiau teithio yn ôl ac ymlaen i Lundain. Mae Cymru'n gwbl ymylol i'r gyfundrefn. Dadfeiliodd nifer o'r gwasanaethau yn y Cymoedd ar yr un pryd. Dyma gymdogaethau sy'n gweddu'n naturiol ar gyfer rheilffyrdd, gyda'r mwyafrif yno yn byw o fewn pellter cerdded i lein drên a aiff â nhw i waelod y cwm. Dim ond yn awr, gan fod gennym ein Cynulliad ein hunain, y dechreuwn ailsefydlu rhai o'r gwasanaethau hyn.

Dylai'r gwasanaeth trenau helpu uno'r genedl; a gwnaeth Glyn Davies bwynt tebyg ynglŷn â ffyrdd. Dylid anelu at hyn drwy sefydlu gwasanaeth rhwng pob rhan o Gymru â Chaerdydd, fel prifddinas. Ni allaf ond gobeithio, pan ddaw un rhyddfrait ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, y gwelir ymdrech sylweddol i ddarparu trenau cyfleus, niferus, cyfforddus, glân, dibynadwy a chyflym, rhwng Caerdydd a Chaerdydd, a bod gwasanaeth trenau lleol a bysiau yn cydgyssylltu â'r rhain.

Owen John Thomas: A gytunwch y byddai cysylltiadau fel y rhai a ddisgrifiwch, o Gaerdydd drwy Wrexham i Gaerdydd, yn sicrhau y bydd *Cardiff-phobia* yn diflannu? A olyga hefyd y bydd nifer o bobl o'r De yn gallu ymweld â'r Gogledd a mwynhau'r pethau da yno?

Dafydd Wigley: Yn sicr. Os yw datblygiadau yng Nghaerdydd yn cael yr adwaith hwnnw ar bobl y Gogledd, yna un ffordd o ddod dros y broblem fyddai gwneud y datblygiadau yn fwy agored i bawb.

Ar hyn o bryd, prin bod y gwasanaethau trên rhwng y Gogledd a'r De yn bodoli ac maent yn ddibynnol ar drenau sydd yn cysylltu yn Crewe. Ychydig o wythnosau yn ôl, gadewais fy nghartref yng Nghaerdydd ar fore Llun am 8.15 a.m. i deithio i'r Cynulliad, ond ni chyrraeddais tan 4.15 p.m.—taith o wyth awr. Gallaswn fod wedi gyrru car i Gaerdydd ac yn ôl adref yn yr un amser. Yr oedd hynny oherwydd i mi gollu cysylltiadau yn Crewe gan fod y trenau yn rhedeg yn hwyr. Dyma enghraifft arall: fis yn ôl, cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Monitro INTERREG yn Arberth am y tro cyntaf a dewisais fynd yno yn fwiadol ar drên. Ni wn faint ohonoch

the British Isles and mainly benefiting those who wish to travel to and from London. Wales is completely peripheral to the system. Many services in the Valleys fell into disrepair at the same time. These neighbourhoods are naturally suited for rail, as most of the inhabitants live within walking distance of a railway line that will take them to the bottom of the valley. Now that we have our own Assembly we can finally begin to re-establish some of these services.

The train service should help unite Wales as a nation; Glyn Davies made a similar point about the roads. We should aim for that by establishing a service linking every part of Wales to Cardiff, as the capital. I can only hope that when we get the single franchise for train services in Wales, we will see a significant effort to provide convenient, frequent, comfortable, clean, reliable and fast trains from Holyhead to Cardiff and that local train and bus services will connect to them.

Owen John Thomas: Do you agree that connections such as the ones you describe, from Holyhead via Wrexham to Cardiff, would put an end to Cardiff-phobia? Will it also mean that people from the south will be able to visit the north and enjoy the attractions there?

Dafydd Wigley: Certainly. If developments in Cardiff have that effect on people in north Wales, then one way to overcome the problem would be to make those developments more accessible to everyone.

Currently, train services between the north and south are virtually nonexistent and are dependent on connections in Crewe. A few weeks ago, I left my home in Caernarfon on Monday morning at 8.15 a.m. to travel to the Assembly, but I did not arrive until 4.15 p.m.—an eight-hour journey. I could have driven a car to Cardiff and back home in the same time. I had missed my connection in Crewe because the trains were running late. I have another example. A month ago, an INTERREG Monitoring Committee meeting was held for the first time in Narberth and I took a conscious decision to travel there by train. I do not know how many of you have

sydd wedi teithio o Fangor i Arberth ar drên, ond mae'n brofiad. Gadewais fy nghartref am 5.45 a.m. a chyrrhaeddais Arberth am 1.45 p.m.—taith o wyth awr eto. Gallaswn fod wedi teithio o Gaergybi i Abergwaun drwy Iwerddon yn yr un amser yn union. Dyna ffars y gwasanaeth trenau.

Rhaid inni gael trefn newydd yng Nghymru. Rhaid inni gael un corff polisi a chyllidol ar lefel strategol. Rhaid cydlynu pob dull o deithio a rhaid cael rhwydwaith o gyrff cydlynu lleol. Rhaid i'r Cynulliad gael y pwerau i wneud hyn a rhaid dosrannu'r cyllid lawer yn well. Mae Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen £300 miliwn y flwyddyn am 10 mlynedd yng Nghymru er mwyn sefydlu cyfundrefn rheilffyrdd iawn. Argymhelliad yr Athro Stuart Cole yw creu partneriaeth teithwyr a chlodiant Cymru gyda byrddau cydgysylltu lleol. Gorau po gyntaf y digwydd hynny.

Alun Cairns: I listened with interest to the Minister's response to David Davies's comments earlier. She rightly highlighted the cyclists' initiative, the Ebbw Vale railway and the free bus passes. All are welcome, and the Conservative Party warmly supported those initiatives at the time. However, that is only tinkering at the edges, the needs and thrust of transport initiatives, which are required to close the ever-widening gap between England and Wales, are not being met. The Minister also referred to the pod monorail programme, which she considers a roaring success for the Assembly. The programme costs £20 million. If the costs of the new Assembly building are anything to go by, that figure is likely to rise to £40 million. The current estimate of extending the programme to the city centre is £40 million, which may increase in the same way as other capital infrastructure projects.

David Melding rightly highlighted the need for a swift dual carriageway from Cardiff International Airport to the motorway, therefore avoiding roundabouts, milk floats and so on. The total cost of a quick link to Cardiff International Airport would almost equal the cost for the first and second phases of the pod programme. If capital expenditure goes way over budget, as it has in the past,

travelled from Bangor to Narberth by train but it is an experience. I left my home at 5.45 a.m. and did not arrive in Narberth until 1.45 p.m.—another eight-hour journey. I could have travelled from Holyhead to Fishguard through Ireland in the same time. That is the farce of the train service.

We must have a new system in Wales. We must have one financial and policy-making body working at a strategic level. All means of travel must be co-ordinated and we must set up a network of local co-ordinating bodies. The Assembly must acquire the powers to do this and funding must be distributed more evenly. The Wales Transport Research Centre has estimated that £300 million a year for 10 years is required to establish a proper railway system. Professor Stuart Cole's recommendation is to set up a Welsh passenger transport partnership with local co-ordinating boards. The sooner that happens the better.

Alun Cairns: Gwrandewais â diddordeb ar ymateb y Gweinidog i sylwadau David Davies yn gynharach. Pwysleisiodd y cynllun beicwyr, rheilffordd Glynebwy a'r cardiau teithio am ddim, a iawn hynny. Croesewir pob un, a chefnogodd y Blaid Geidwadol y cynlluniau hynny ar y pryd. Fodd bynnag, dim ond chwarae ar yr ymylon yw hynny, heb ymdrin ag anghenion a hwb mentrau trafndiaeth, sy'n angenrheidiol i gau'r bwlch sy'n ymagor fwyfwy rhwng Cymru a Lloegr. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y rhaglen fonoreilffordd, sydd yn ei barn hi yn llwyddiant ysgubol i'r Cynulliad. Cost y rhaglen yw £20 miliwn. Os yw costau adeilad newydd y Cynulliad yn gysail o gwbl, mae'r ffigur hwnnw'n debygol o godi i £40 miliwn. Mae'r amcangyfrif cyfredol o ymestyn y rhaglen i ganol y ddinas yn £40 miliwn, a allai gynyddu yn yr un modd â phrosiectau isadeiledd cyfalaf eraill.

Tynnodd David Melding sylw yn gymwys at yr angen am ffordd ddeuol gyflym o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i'r draffordd, gan osgoi cylchfannau, lorïau llaeth ac ati. Byddai cyfanswm cost cyswllt cyflym â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd bron yn gyfartal â'r gost am ran gyntaf ac ail ran cynllun y fonoreilffordd. Os aiff gwariant cyfalaf ymhell dros y gyllideb, fel y gwnaeth

there is no reason why the whole programme for the quick link could not be funded from the pod programme budget.

David Davies: Do you also agree that, if the same people that were responsible for the shambles of the £7 million hole in the ground that is the site of the new Assembly building are involved with the building of this monorail system, then it will almost certainly be a debacle that will cost a large amount of money? We have gone from Richard Rogers to Buck Rogers in a matter of weeks. It is about time that we had some common sense.

04:40 p.m.

Alun Cairns: David Davies is right to underline the reality that capital projects overspend. The pod programme is likely to do that and its budget could easily meet much of the budget for the fast link to Cardiff airport.

I represent the people of Swansea, who are familiar with seeing large sums of capital expenditure invested in Cardiff. I recently attended a Swansea Civic Society planning meeting, where it was stated that the need for a fast link to Cardiff airport was a priority. People from Swansea want to see more money being spent in Cardiff because they recognise the importance of developing a truly international airport.

The Minister recognises that there is a need for some trunk road building, as she highlighted in the trunk road forward programme 2002, several weeks ago. However, the road building programme, as it stands, does not meet the growing demands that we face.

The trunk road programme contains an urgent plan highlighting Talgarth, the dualling of the A40, Glandyfi, and various sections of the A470. That is welcome, and I am glad to see that they are included in the urgent programme. However, why does the urgent programme not begin until 2008? Businesses considering investing in Wales must consider

yn y gorffennol, nid oes dim rheswm pam na allai'r rhaglen gyfan ar gyfer y cysylltiad cyflym gael ei ariannu o gyllideb rhaglen y fonoreilffordd.

David Davies: A ydych yn cytuno, os bydd yr un bobl ag a oedd yn gyfrifol am siop siafins y twll £7 miliwn yn y ddaear a elwir yn safle adeilad newydd y Cynulliad, yn ymwneud ag adeiladu'r system fonoreilffordd hon, yna y bydd bron yn sicr yn draed moch a fydd wedi costio swm enfawr o arian? Yr ydym wedi mynd o Richard Rogers i Buck Rogers mewn wythnosau. Mae'n hen bryd inni gael ychydig o synnwyr cyffredin.

Alun Cairns: Mae David Davies yn llygad ei le wrth danlinellu'r sefyllfa wirioneddol bod prosiectau cyfalaf yn gorwario. Mae'r rhaglen fonoreilffordd yn debygol o wneud hynny a gallai ei chyllideb yn hawdd dalu am lawer o'r gyllideb ar gyfer y cyswllt cyflym â maes awyr Caerdydd.

Yr wyf fi'n cynrychioli pobl Abertawe, sydd yn gyfarwydd â gweld symiau mawr o wariant cyfalaf yn cael eu buddsoddi yng Nghaerdydd. Yn ddiweddar mynychais gyfarfod cynllunio Cymdeithas Ddinesig Abertawe, lle y datganwyd bod yr angen am gysylltiad cyflym â maes awyr Caerdydd yn flaenoriaeth. Mae ar bobl Abertawe eisiau gweld mwy o arian yn cael ei wario yng Nghaerdydd gan eu bod yn sylweddoli pwysigrwydd datblygu maes awyr gwirioneddol ryngwladol.

Mae'r Gweinidog yn sylweddoli bod angen rhyw faint o osod cefnffyrdd, fel y tanlinellodd yn y rhaglen ar gyfer cefnffyrdd 2002, sawl wythnos yn ôl. Er hynny, nid yw'r rhaglen osod ffyrdd, fel y saif, yn bodloni'r galwadau cynyddol a wynebwn.

Mae'r rhaglen gefnffyrdd yn cynnwys cynllun brys sy'n rhoi lle amlwg i Dalgarth, deuoli'r A40, Glandyfi, ac amryw rannau o'r A470. Mae hynny i'w groesawu, ac yr wyf yn falch o weld eu bod wedi'u cynnwys yn y rhaglen frys. Fodd bynnag, pam nad yw'r rhaglen frys yn dechrau tan 2008? Rhaid i fusnesau sy'n ystyried buddsoddi yng

the standard of the road links, and they will see that the urgent plans to improve the roads are not due to start until 2008.

David Melding also highlighted the comments of the director general of the Confederation of British Industry, Digby Jones. I, and other Assembly Members, attended its conference in Birmingham recently, where, in the national exhibition centre, and in front of UK and international businessmen, Digby Jones related an experience of leaving Cardiff international airport, and being stuck behind a milk-float when trying to get into the city centre. What sort of message has that sent to international inward investors, who may be considering moving from London because of the difficulties there? Moving to Cardiff would mean that, instead of having to cope with the traffic chaos that exists in London under its current mayor, they would get stuck behind milk-floats.

Peter Law: Not since the Liberal Democrat conference at the weekend have I laughed as much as I have in listening to the Conservatives this afternoon. It is a party of the political undead. It is hanging in here on proportional representation, and it is in terminal meltdown. The Conservatives did nothing when they were in power until 1997, and now they shove down our throats what they want to see for Wales—how hypocritical can you get?

David Davies: Are you referring to the years when your party wanted to get rid of our nuclear deterrent, pull us out of the European Union and nationalise all industry?

Peter Law: I do not know what relevance that bears to the transport and trunk road programme, but it gives an insight into how David Davies's mind works.

We do not need to be tilting at windmills today, as Plaid Cymru wants to do. We must take a constructive approach to the powers that we have as a secondary legislative institution, and that is what Sue Essex has

Nghymru ystyried safon y cysylltiadau ffyrdd, a byddant yn gweld nad yw'r cynlluniau brys i wella'r ffyrdd i fod i gychwyn tan 2008.

Tanlinellodd David Melding hefyd sylwadau cyfarwyddwr cyffredinol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Digby Jones. Mynychais i, ac Aelodau eraill o'r Cynulliad, eu cynhadledd yn Birmingham yn ddiweddar, lle, yn y ganolfan arddangos genedlaethol, ac o flaen gwŷr busnes o'r DU a rhyngwladol, siaradodd Digby Jones am adael maes awyr rhyngwladol Caerdydd, a chael ei ddal y tu ôl i lori laeth wrth geisio mynd i mewn i ganol y ddinas. Pa fath o neges y mae hynny wedi'i rhoi i fuddsoddwyr rhyngwladol, a allai fod yn ystyried symud o Lundain oherwydd yr anawsterau yn y fan honno? Byddai symud i Gaerdydd yn golygu y byddent, yn hytrach na gorfod ymdopi â'r anhrefn traffig sy'n bodoli yn Llundain dan ei maer presennol, yn cael eu dal y tu ôl i lorïau llaeth.

Peter Law: Nid wyf wedi chwerthin cymaint ers cynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol dros y penwythnos nag a wneuthum wrth wrando ar y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Dyna blaid y meirw byw gwleidyddol. Mae'n dal ei gafael yma drwy gynrychiolaeth gyfrannol, ac mae wedi canu arni. Ni wnaeth y Ceidwadwyr ddim byd pan oeddent mewn grym hyd at 1997, ac yn awr maent yn gwthio i lawr ein gyddfau yr hyn yr hoffent ei weld yng Nghymru—pa mor rhagrithiol all rhywun fod?

David Davies: Ai cyfeirio yr ydych at y blynyddoedd pan oedd eich plaid chi'n awyddus i gael gwared â'n hatalrym niwclear, ein tynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd a gwladoli pob diwydiant?

Peter Law: Ni wn ba berthnasedd sydd rhwng hynny â'r rhaglen drafndiaeth a chefnffyrdd, ond mae'n rhoi cip inni ar y modd y mae meddwl David Davies yn gweithio.

Nid oes angen inni ymladd â melinau gwynt heddiw, fel y dymuna Plaid Cymru ei wneud. Rhaid inni arddel agwedd adeiladol at y pwerau sydd gennym fel sefydliad deddfwriaeth eilaidd, a dyna y mae Sue Essex

been doing. I take a great interest in that because I was involved at the beginning of all of this. The progress that has been made on transport, particularly in relation to trunk roads, has been remarkable when considered over a three-year period. We have some £300 million going into the transport framework over the next five years, and that has been endorsed by the Environment, Planning and Transport Committee—you would not think that there were any Conservatives on it.

Remember the time when the Conservatives were in power, because they would like us to forget the privatisation and deregulation that took place then. Remember the bargain sales of the railways to the Tory cronies. The people paid for that, and we will never forget that, particularly in my area. There was also a lack of buses, which is a problem that still exists in many areas. There is also another problem: when people say that they are unclean, late, or do not exist, they are not talking about the Tory Party, they are talking about the trains. These are the problems, and that is what we are trying to put right. Nobody could do more than we have, with the National Assembly's limited powers. We have a strong programme of which we can be proud.

